
# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

## Asesiad Llesiant Lleol

## Ebrill 2017









## Cynnwys

Cyflwyniad ........ 1
Crynodeb o Lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ........ 5
Pennod 1: Cefndir a Chynnwys ........ 9
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ........ 9
Asesiad Llesiant Lleol ........ 12
Am Ben-y-bont ar Ogwr ........ 12
Am yr Ardaloedd Cymuned ........ 14
Ardal Gymuned Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr ........ 17
Ardal Gymunedol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr ........ 19
Ardal Gymunedol Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr ........ 21
Pennod 2: Asesiad Llesiant fesul Thema ........ 24
Llesiant Economaidd ........ 24
Crynodeb o Lesiant Economaidd ........ 24
Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Economaidd ........ 24
Asesiad Llesiant Economaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ........ 27
Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Economaidd ........ 37
Themau sy'n codi o ran Llesiant Economaidd ........ 38
Llesiant Amgylcheddol ........ 39
Crynodeb o Lesiant Amgylcheddol ........ 39
Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Amgylcheddol ........ 39
Asesiad o Lesiant Amgylcheddol ........ 43
Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Amgylcheddol ........ 53
Themâu sy'n codi o ran Llesiant Amgylcheddol ........ 54
Llesiant Cymdeithasol ........ 55
Crynodeb o Lesiant Cymdeithasol ........ 55
Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Cymdeithasol ........ 55
Asesiad Llesiant Cymdeithasol ........ 59
Tueddiadau y dyfodol o ran Llesiant Cymdeithasol ........ 74
Themâu sy'n codi o ran Llesiant Cymdeithasol ........ 75
Llesiant Diwylliannol ........ 77
Crynodeb o Les diwylliannol ........ 77
Dealltwriaeth Dinasyddion o Les diwylliannol ........ 77
Asesiad o Lesiant Diwylliannol ........ 80
Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Diwylliannol ........ 88
Themâu sy'n codi ........ 89
Pennod 3: Cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ........ 90

# Cyflwyniad

Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wrth galon ddaearyddol De Cymru. Mae'n cynnwys ardal o tua 28,500 hectar ac mae'n lleoliad allweddol yn Ne Cymru, hanner ffordd rhwng dinasoedd Caerdydd ac Abertawe. Mae cysylltiadau rhagorol â rhwydwaith ffyrdd a rheilffyrdd strategol Cymru, a dim ond 19 km i ffwrdd mae Maes Awyr Caerdydd.

Mae'r fwrdeistref sirol yn cynnwys amrywiaeth o ardaloedd gwledig a threfol wedi'u rhannu'n fras gan draffordd yr M4. Mae'r rhan ddeheuol yn ardal arfordirol boblog gyda thraethau hardd a Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol Merthyr Mawr a Chynffig. Mae'n cynnwys trefi Pen-y-bont ar Ogwr, Pencoed a Phorthcawl, ynghyd â'r ardaloedd trefol eraill sy'n agos at yr M4. Mae'r rhan ogleddol yn fwy gwledig a bryniog ac yn llai hygyrch, gyda chymoedd Llynfi, Garw ac Ogwr yn rhedeg o'r gogledd i'r de, gyda'r mwyaf gorllewinol yn cynnwys tref Maesteg. Mae'r tri chwm yn cynnig golygfeydd trawiadol ac ucheldir dramatig a hardd. Mae llawer o goedwigoedd a thir comin yr ucheldir, gyda mynediad agored i'r rhan fwyaf, a nifer o barciau gwledig a pharciau natur (rhai ar dir sydd wedi'i adfer) yn cynnwys Bryngarw, Parc Bedford a Pharc Slip.

Mae economi Pen-y-bont ar Ogwr a'r tri chwm wedi'i sylfaenu ar y diwydiant glo, pan oedd yn ei anterth, roedd 70 o byllau glo yma. Mae'r pyllau wedi creithio'r dirwedd ond yn raddol mae'n cael ei newid gan brosiectau fel Coetir Ysbryd Llynfi. Y prif ffactor a ysgogodd y prosiect oedd iechyd a llesiant y cymunedau o gwmpas ynghyd â'r buddiannau amgylcheddol fel lleihau risg llifogydd a hybu bioamrywiaeth. Dangosodd ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fod disgwyliad oes pobl dros 50 oed sy'n byw yn yr ardal 20 mlynedd yn llai na phe baent yn byw naw milltir i ffwrdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Wrth i'r diwydiant glo ddod i ben, daeth busnesau gweithgynhyrchu yn lle'r pyllau. Bellach mae Pen-y-bont ar Ogwr yn gartref i nifer fawr o gwmnïau, sy'n amrywio o fentrau bach a chanolig eu maint i gwmnïau rhyngwladol mawr. Mae'r cyflogwyr mwyaf ar hyd ac i'r de i goridor yr M4 sy'n golygu bod gwahaniaethau mawr yn amodau economaidd gogledd a de'r fwrdeistref sirol.

Cafodd argyfwng ariannol 2008-13 effaith andwyol a chollwyd cyflogwyr o broffil uchel yn y cymoedd, fel Budelpack Cosi, Cooper Standard, gan effeithio ar gymunedau mwyaf difreintiedig Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae arwyddion clir fod economi Pen-y-bont ar Ogwr yn gwella. Mae cyfraddau cyflogaeth ar gyfer pobl rhwng 16 a 64 oed wedi parhau i gynyddu, o 69.9 y cant yn 2013-14 i 70.2 y cant yn 2014-15 ac i 73.2 y cant yn 2015-16. Fodd bynnag, bu cynnydd yng nghanran y plant yn byw mewn aelwydydd di-waith o 17.3 y cant yn 2014 i 19.4 y cant yn 2015 ac mae hyn yn uwch na'r ffigwr cyfartalog i Gymru, sef 13.6 y cant.. Mae hyn yn destun pryder.

Mae gan y ddwy Fargen Ddinesig a gyhoeddwyd yn ddiweddar i Gaerdydd a Bae Abertawe'r potensial i drawsnewid tirlun economaidd Pen-y-bont ar Ogwr, a helpu i ddenu buddsoddiad y bydd y fwrdeistref sirol yn elwa arni ac addewid o ddyfodol llewyrchus. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn un o 10 awdurdod lleol sy'n rhan o Ranbarth Dinesig Caerdydd. Bydd y Fargen Ddinesig i Gaerdydd, sy'n werth £1.2 biliwn, yn helpu i hybu twf yr economi drwy wella cysylltiadau cludiant, cynyddu sgiliau, helpu pobl i gael gwaith a rhoi'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau iddynt dyfu. Er nad yw'n un o'r pedwar awdurdod lleol sy'n rhan o Ranbarth Dinas Bae Abertawe, bydd Pen-y-bont ar Ogwr yn elwa ar y rhaglen. Mae'r fargen yn cynnwys 11 prif brosiect yn seiliedig ar ynni, gweithgynhyrchu SMART, arloesedd a gwyddorau bywyd gydag isadeiledd digidol a sgiliau gweithlu'n sail i bob prosiect.

Amcangyfrifir bod gan y fwrdeistref sirol boblogaeth o 142,092 o bobl (Mehefin 2015) ac yn unol â gweddill Cymru, rhagfynegir y bydd poblogaeth hŷn gynyddol ac aelwydydd un rhiant a theuluoedd un rhiant.

Mae gweithgareddau diwylliannol yn ffynnu ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae traddodiad cryf o gorau, cerddoriaeth, drama, dawns a chymdeithasau celf. Mae theatr bwrpasol Sony yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr; mae rhaglen lawn o ddigwyddiadau a pherfformiadau diwylliannol yn Neuadd y Dref Maesteg a'r Pafiliwn ym Mhorthcawl. Mae Gŵyl Flynyddol Elvis, Gŵyl Geltaidd Cwlwm a'r Twrnamaint Hŷn Agored yn enwog yn rhyngwladol. Yn 2017, cynhelir Eisteddfod yr Urdd ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae niferoedd da'n mynychu Sinema'r Odeon i weld digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol a ddarlledir fel y rhai o'r Met yn Efrog Newydd a chynyrchiadau theatr a phrif arddangosfeydd. Mae traddodiad hir o wirfoddoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Ni chaiff gwirfoddoli anffurfiol fel helpu cymdogion, gweithredu cymunedol, cymryd rhan mewn grwpiau ffyrdd a chymuned, helpu mewn digwyddiadau lleol, ei gydnabod a'i ddathlu bob amser. Hefyd mae amrywiaeth eang o sefydliadau sy'n cynnig cyfleoedd ffurfiol i gael hyfforddiant, achrediad a phrofiad gwaith.

Mae'r asesiad canlynol o lesiant lleol yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau a wynebir gan Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Hon fydd y sail ar gyfer cynllun llesiant Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Hwn yw'r Asesiad cyntaf o Lesiant Cymdeithasol i'w gynnal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae wedi bod yn her paratoi asesiad gyda newid mor fawr mewn arferion o fewn amserlen eithaf tyn. Mae BGC Pen-y-bont ar Ogwr wedi gwneud pob ymdrech i sicrhau'r newid angenrheidiol o ddefnyddio tystiolaeth a dadansoddiad ond mae'n cydnabod bod gwaith yn dal angen ei wneud i sicrhau bod y BGC yn cael yr wybodaeth briodol ac yn defnyddio tystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau. Mae'r adborth cynhwysfawr a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi helpu i wella ein hasesiad ymhellach. Fodd bynnag, mae mwy i'w wneud o hyd i wella'r broses asesu (a thrwy hynny wella) llesiant yr ardal, ac felly **bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru a'i datblygu wrth i'n dealltwriaeth o lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr barhau i gynyddu**.

## Canfyddiadau'r Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y fersiwn drafft o'r Asesiad Llesiant ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o bedair wythnos rhwng 15 Chwefror a 19 Mawrth 2017. Cafwyd 506 o ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yn gyfuniad o ymatebion i'r arolwg ei hun, digwyddiadau lleol, cyfryngau cymdeithasol ac ymatebion e-bost.

Mae rhai o'r materion a godwyd wedi cael sylw yn y fersiwn hwn o'r Asesiad, ond mewn rhai achosion mae angen newidiadau mwy sylweddol, yn cynnwys ymchwil a dadansoddiad pellach. Ymdrinnir â'r rhain yn y tymor canolig i hir wrth i ni symud at ddadansoddiad mwy ymatebol o lesiant a datblygu'r Cynllun Llesiant. Amlinellir manylion y newidiadau hyn yn y cynllun gweithredu sydd yn Atodiad 5.

Cwestiynodd cywirdeb y data gan rai o ymatebwyr yr ymgynghoriad a ddefnyddiwyd, yn enwedig cyfraddau cyflogaeth, cyrhaeddiad ysgol a diogelwch cymunedol. Gallai hyn ddangos nad yw'r canfyddiad o lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael ei adlewyrchu yn y data sydd ar gael. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i hyrwyddo'n well rai o asedau cadarnhaol Sir Pen-y-bont ar Ogwr. Mater arall a godwyd yn yr ymgynghoriad oedd yr ieithwedd dechnegol a ddefnyddiwyd. Byddwn yn ceisio cyfyngu ar iaith dechnegol a jargon yn y cynllun llesiant.

Darparwyd chwe chanfyddiad i ymatebwyr o safbwynt llesiant **economaidd** a dewisodd saith allan o ddeg (71 y cant) gytuno, gyda 6 y cant yn cytuno'n gryf. Roedd un o bob deg (10 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad.

Gofynnwyd i ymatebwyr gytuno neu anghytuno â'r saith canfyddiad ynglŷn â llesiant **amgylcheddol**; dewisodd naw allan o ddeg (91 y cant) gytuno, gyda 52 y cant yn cytuno'n gryf. Roedd llai na un allan o ddeg (7 y cant) yn anghytuno â'r gosodiadau.

Darparwyd chwe chanfyddiad i ymatebwyr o safbwynt llesiant **cymdeithasol**. Dewisodd wyth allan o ddeg (78 y cant) gytuno, gyda 10 y cant yn cytuno'n gryf. Roedd un allan o saith (14 y cant) yn anghytuno â'r gosodiad.

Darparwyd chwe chanfyddiad i ymatebwyr o safbwynt llesiant **cymdeithasol** a dewisodd bron i wyth allan o ddeg (77 y cant) gytuno, gyda saith y cant yn cytuno'n gryf. Dim ond un allan o ddeg (11 y cant) oedd yn anghytuno â'r gosodiad.

Mae'r adroddiad ymgynghori manwl wedi'i atodi i'r Asesiad fel Atodiad 4.

## Y Cynllun Llesiant

Yn ystod y misoedd nesaf, defnyddir canlyniadau'r asesiad llesiant i lywio'r Cynllun Llesiant ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, a gyhoeddir erbyn Mai 2018 Sefydlwyd grŵp cynllunio BGC a fydd yn defnyddio canlyniadau'r asesiad i restru amcanion llesiant i'w cynnwys yn y Cynllun Llesiant. Bydd y grŵp yn gweithio gyda'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac eraill i nodi'r 'camau' tymor byr, canolig a hir i'w cymryd i gyflawni'r amcanion llesiant i'w hargymell i'r BGC.

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr sy'n aelodau statudol ac anstatudol ac mae wedi cytuno bod angen i'r BGC ychwanegu gwerth drwy gydweithio yn hytrach na dyblygu unrhyw waith sydd eisoes yn cael ei wneud gan bartneriaid. Bydd y pwyslais ar ddatblygu dull integredig, yn cynnwys nifer o bartneriaid, er mwyn llwyddo.
Bydd y grŵp yn ystyried sut mae'r amcanion llesiant yn cyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant, a bydd yn defnyddio'r asesiad llesiant i ddeall achosion problemau lleol i'w hatal rhag digwyddi yn y dyfodol.

Un rhan allweddol o'r gwaith ochr yn ochr â'r grŵp cynllunio fydd cynnwys partneriaid a phobl leol drwy weithgareddau ymgysylltu.

## Camau Datblygu ac Amserlen y Cynllun Llesiant

| **Cam** | **Dyddiad Dechrau** | **Dyddiad Gorffen** |
|---|---|---|
| Cytuno ar set o amcanion lleol (yn seiliedig ar asesiad llesiant) | Mai 2017 | Mehefin 2017 |
| Drafftio a chael cyngor gan y Comisiynydd (14 wythnos) | Gorffennaf 2017 | Hydref 2017 |
| Ymgynghoriad Statudol (12 wythnos) | Hydref 2017 | Rhagfyr 2017 |
| Dadansoddiad a drafft terfynol (tua 10 wythnos) | Ionawr 2018 | Mawrth 2018 |
| Cymeradwyo'n ffurfiol mewn cyfarfodydd o'r aelodau statudol | Chwefror 2018 | Mawrth 2018 |
| **Cyhoeddi'r cynllun llesiant** | **Mai 2018** | |

# Crynodeb o Lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel mewn lleoedd eraill, mae darlun cymysg o lesiant gan ddibynnu ar ffactorau demograffig fel oedran, statws cyflogaeth, iechyd a lleoliad preswyl. Crynhoir llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a'r cryfderau a heriau a adnabyddir gan yr asesiad isod.

## Llesiant Economaidd

Mae rhaniad yn nhermau llesiant economaidd rhwng y rheini y mae bywyd yn gymharol gyfforddus iddynt ac sy'n gweld llesiant fel cael adnoddau sbâr am ychydig o eitemau moethus a'r rheini sy'n byw ar y cyrion economaidd, sy'n gweld llesiant fel cael digon i ddiwallu'u hanghenion a'u rhwymedigaethau sylfaenol. Roedd diogelwch ariannol yn bwysedd allweddol i'r rheini ar incymau isel, mewn gwaith portffolio, neu yn ddiwaith. Fel mewn lleoedd eraill, roedd tystiolaeth eang o dlodi mewn cartrefi gyda gwaith a heb waith sy'n methu â dianc o'r trap tlodi.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ganran uwch o bobl a ddosberthir fel gweithgar yn economaidd ac mewn cyflogaeth na'r cyfartaledd i Gymru. Er yn gostwng, mae cyfran uchel o hyd o gartrefi heb waith yn y Fwrdeistref. Mae arwyddion bod pobl hŷn yn yr ardal yn llai tebygol o fod mewn gwaith nac mewn rhannau eraill o Gymru.  Mae incymau ar gyfartaledd yn is nac i Gymru ac mae cyfran uwch o blant hefyd mewn teuluoedd incwm isel ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yng Nghymru ar y cyfan. Mae symudiad galwedigaethol wedi bod dros amser, gyda llai o bobl yn gweithio ar lefel hŷn a mwy mewn galwedigaethau gweinyddol a phroses.

Yn gyffredinol, mae pobl oed gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai cymwys na'r cyfartaledd i Gymru ac nid oedd gan bron 15 y cant unrhyw gymwysterau ffurfiol yn 2015, yn erbyn cyfartaledd Cymreig o 10.2 y cant. Mae cyraeddiadau'r rhai sy'n gadael ysgol wedi codi'n raddol, ond mae ymadawyr Blwyddyn 13 yn dal i fod yn fwy tebygol o fod yn NEET ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yng Nghymru ar y cyfan.

Mae tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwy fforddiadwy yn gyffredinol nac ar draws Cymru gyfan, gyda phrisiau tai is na'r cyfartaledd a chymhareb is o bris tŷ canolrifol i gyflog gros blynyddol canolrifol.

## Themâu sy'n codi

### Cryfderau

- Cyfraddau uchel o gyflogaeth a gweithgaredd economaidd
- Mae'r nifer o bobl ifanc sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gostwng
- Mae cyrhaeddiad addysgol plant oed ysgol yn gwella
- Cyfleoedd da i ddechrau busnesau

### Heriau

- Mae pobl o oedran gweithio yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn llai cymwys na'r cyfartaledd Cymreig
- Er yn gostwng, mae nifer uchel o gartrefi heb waith o hyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr

- Prinder cyfleoedd economaidd i bobl ifanc
- Gwelliannau Canol Trefi

## Llesiant Amgylcheddol

Mae ansawdd y tirwedd yn ddylanwad allweddol ar lesiant amgylcheddol, gyda mynediad at arfordir, coedwigaeth, afonydd, bryniau neu barcdir yn darparu hwb arwyddocaol i lesiant a thwristiaeth. Roedd cerdded a seiclo ar hyd yr arfordir, mewn parciau neu ar y bryniau oll yn cael eu hystyried yn werthfawr yn nhermau eu cyfraniad at lesiant. Mewn rhai cymunedau, roedd tlodi economaidd cymharol yn cael ei wrthbwyso i raddau gan ansawdd uchel y tirwedd corfforol. Yn anffodus, mae llawer o ganol trefi a'r amgylchedd adeiledig yn yr ardal yn methu â chyrraedd y safonau hyn. Teimlai llawer o randdeiliaid nad oeddent yn gallu teimlo'n falch o'u trefi lleol fel y safant, gyda siopau'n cau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o drafnidiaeth sy'n rhwystrau i bobl rhag defnyddio'r ardaloedd hyn yn llawn.

Roedd beirniadaeth eang ar raddfa gadael sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal ac awydd i weld cosbau cryfach i'r rheini sy'n troseddu yn y dull hwn.

Mae canfyddiad o lefelau uwch o graffiti a fandaliaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr na'r cyfartaledd Cymreig a phryderon am gynnal a chadw'r amgylchedd. Mae'r ardal yn llusgo y tu ôl i Gymru yn nhermau lefelau'r gwastraff trefol a ailgylchir, er bod yn arwyddocaol well na'r cyfartaledd o'r blaen.

Mae perygl arwyddocaol o afonydd yn gorlifo yn yr ardal, yn enwedig ym Maesteg. I wrthweithio gorlifo a newid hinsawdd yn y dyfodol, bydd dichonolrwydd cynlluniau rheoli llifogydd yn cael eu hasesu yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae ansawdd dŵr ymdrochi yn ardderchog a thraethau yn darparu adnodd hamdden ac economaidd gwerthfawr i'r gymuned leol.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol ddau gorff dŵr codi a ystyrir yn wael o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, tair ardal lle mae dŵr codi yn agored i niwed gan lygredd ac un Parth Agored i niwed gan Nitrad a gynlluniwyd i atal llygredd dŵr codi. Mae rheoli ansawdd dŵr yn fater allweddol i iechyd tymor hir y boblogaeth a'r amgylchedd yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae gollyngiadau C02 o fewn y Fwrdeistref Sirol yn dangos lefelau fesul trigolyn o dan y cyfartaledd Cymreig er bod angen gwneud gostyngiadau ychwanegol i gyfrannu at reoli newid hinsawdd. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'r cyfartaledd Cymreig er bod angen datblygu capasiti adnewyddadwy i'r dyfodol.

Mae ansawdd yr aer yn broblem ar draws y DU, sy'n achosi 40,000 o farwolaethau ychwanegol pob blwyddyn. Mae ansawdd yr aer yn broblem ar hyd coridor yr M4 ac mewn mannau â phroblemau o fewn y Fwrdeistref Sirol. Bydd lleihau defnydd car, cynyddu defnydd trafnidiaeth gyhoeddus a cherdded neu seiclo yn helpu i fynd i'r afael â llygredd aer ac yn annog pobl i fod yn fwy heini. Bydd gwyrddu canol trefi a phlannu mwy o goed hefyd yn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig ac yn gwella ansawdd yr aer.

## Themâu sy'n codi

### Cryfderau

- Mae amgylchedd naturiol yn cyfrannu at lesiant ac yn gallu lliniaru ffactorau negyddol eraill
- Cyfleoedd i ynni Adnewyddadwy

- Dŵr ymdrochi ardderchog
- Balchder y gymuned yn yr amgylchedd lleol

**Heriau**

- Ailgylchu, gwastraff trefol a sbwriel
- Cymunedau mewn perygl o lifogydd
- Newid Hinsawdd
- Gwelliannau Canol Tref
- Cysylltu systemau trafnidiaeth cyhoeddus ag isadeiledd gwyrdd

## Llesiant Cymdeithasol

Mae llawer o nerth llesiant cymdeithasol yn deillio o ffrindiau a theulu, gydag ychydig llai o bwyslais ar gymuned nac mewn rhai ardaloedd eraill. Roedd cydbwysedd gwaith-bywyd yn her i lawer o bobl mewn gwaith a chyflwynodd hyn rwystr i lesiant cymdeithasol mewn rhai achosion. I'r rheini'n byw ar eu pennau'u hunain, yn enwedig yr henoed, mae rhwydweithiau cymdeithasol a chlybiau yn bwysig iawn. Cafodd materion ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus eu crybwyll yn aml mewn perthynas â meithrin llesiant cymdeithasol, gan fod trafnidiaeth wael yn cadarnhau rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau a lleoedd.

Mae disgwyliad bywyd a disgwyliad bywyd iach yn yr ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyffredinol is na chyfartaledd Cymru ac mae gwahaniaethau trawiadol rhwng disgwyliadau yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae'r bwlch hwn wedi tyfu dros y degawd diwethaf ac yn ddarlun o'r bwlch mewn cydraddoldeb ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol iechyd yn unol â'r rheini yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn profi lefel uchel o genhedlu ymhlith pobl ifanc.

Mae oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai tebygol na'r rheini mewn lleoedd eraill i ysmygu neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Fodd bynnag, yn baradocsaidd, mae cyfradd uwch na'r cyfartaledd o farwolaethau o afiechyd yr iau a chanser ym Mhen-y-bont ar Ogwr. *Mae niwed gan alcohol yn ganlyniad yfed dros nifer o flynyddoedd, felly tra bo'r yfed a adroddir wedi bod yn gostwng, nid yw hyn wedi cyfieithu i ostyngiad mewn niwed iechyd.* Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr record dda mewn trosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio, gyda gostyngiad sylweddol yn lefel y trosglwyddiadau wedi'u gohirio dros y degawd diwethaf a lefel cyson is yn yr ardal nac yng Nghymru gyfan.

Mae cyfraddau troseddu yn isel yn y Fwrdeistref Sirol ac ychydig o bryderon sydd am ddiogelwch cymuned.

## Themâu sy'n codi

**Cryfderau**

- Ymdeimlad cryf o gymuned a rhwydwaith teulu a ffrindiau cryf
- Mae bwrgleriaeth, dwyn cerbydau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn gostwng
- Trosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio yn gostwng
- Gordewdra plant yn gostwng

**Heriau**

- Poblogaeth yn heneiddio
- Cyfraddau cenhedlu uchel ymhlith merched o dan 18 oed
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Disgwyliad Bywyd Iach
- Cyfraddau canser yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig
- Canfyddiad o droseddu

## Llesiant Diwylliannol

Llesiant diwylliannol wedi'i ganolbwyntio ar ymdeimlad o le a mynediad at hanes, traddodiadau a diwylliant Cymru. Roedd y celfyddydau, theatr, sinema a chwaraeon, fodd bynnag, yn bwyntiau mynediad allweddol i lesiant diwylliannol. Gwelwyd gwirfoddoli fel dull ardderchog o adeiladu llesiant. Roedd cefnogaeth i'r iaith Gymraeg yn gymysg, ond yn gryf iawn mewn rhai cymunedau.

Maae cyfran uchel o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith, er mae'n werth nodi yn yr ymgynghoriadau ac arolwg, mai ychydig iawn o unigolion a wnaeth unrhyw gyfeiriadau negyddol at fewnfudo o ddiwylliannau eraill ac mae hyn i'w groesawu, er nad yw'n bwyslais amlwg i'r ymchwil.

Mae cyfran pobl Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu siarad Cymraeg yn gostwng. Y grwp oedran gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw plant rhwng 3 a 15 oed. Mae cyfran uwch o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry nac y mae pobl ar draws Cymru.

## Themâu sy'n codi

**Cryfderau**

- Ymwybyddiaeth gref o dreftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth genedlaethol
- Mae canran uchel o drigolion yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol
- Ymrwymiad cryf at wirfoddoli
- Argaeledd gweithgaredd diwylliannol lleol

**Heriau**

- Cyfran gynyddol lai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gallu siarad Cymraeg
- Diogelu asedau diwylliannol a hanesyddol i feithrin ymdeimlad o falchder dinesig
- Cynnal fforddiadwyedd gweithgaredd diwylliannol lleol
- Cynhwysiad Digidol

# Pennod 1: Cefndir a Chynnwys

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr Asesiad o Lesiant Lleol ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (wedi hyn, Pen-y-bont ar Ogwr) a ymgymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr yn unol ag anghenion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'n anelu at asesu cyflwr presennol llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn gywir ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'i hardaloedd cymuned diffiniedig. Mae'r asesiad llesiant lleol yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau data meintiol ac ansoddol, fel y rhagnodir gan y cyfarwyddyd statudol (gweler Atodiad 2).

Bydd yr Asesiad, sydd i'w gyhoeddi yn 2017, yn rhoi gwybodaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth iddo ddatblygu Cynllun Llesiant Lleol a fydd yn amlinellu sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwriadu gwella llesiant Pen-y-bont ar Ogwr. Caiff y cynllun llesiant lleol ei gyhoeddi yn 2018.

Mae'r ddogfen wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Pennod 1:** | Cefndir a Chynnwys: Am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Am yr Asesiad hwn, Am Ben-y-bont ar Ogwr, Am yr Ardaloedd Cymunedol |
| **Pennod 2:** | Asesiad o Lesiant fesul Thema: Economaidd, Amgylcheddol, Cymdeithasol Diwylliannol |
| **Pennod 3:** | Crynodeb o gynnydd yn erbyn amcanion WFGA |
| **Atodiad 1:** | Byrfoddau |
| **Atodiad 2:** | Methodoleg |
| **Atodiad 3:** | Mapiau Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru |
| **Atodiad 4:** | Adroddiad Arolwg #GwellPen-y-bontarOgwr |
| **Atodiad 5:** | Ymateb i Adborth yr Ymgynghoriad |

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gysyniad brenhinol ar 29 Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1 Mai 2016. Hanfod y Ddeddf hon yw ‘datblygu cynaliadwy’ – y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wrth weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a anelir at gyflawni amcanion llesiant cenedlaethol.[1]

### Egwyddor Datblygu Cynaladawy

Mae'r ‘egwyddor datblygu cynaliadwy' a amlinellir yn y Ddeddf yn golygu bod rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu hateb heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain’.[2]

1 Pwrpas ar y cyd: Dyfodol ar y cyd 3 - Swyddogaeth gyfunol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus), Llywodraeth Cymru, 2016.
2 Ibid.

Mae'r egwyddor yn cynnwys pump **ffordd o weithio**, y mae gofyn i gyrff cyhoeddus gymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy Y rhain yw:

- edrych i'r **tymor hir** fel nad ydym yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ateb eu hanghenion eu hunain
- cymryd ffordd **integredig** fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar yr holl amcanion llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant
- **cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
- gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ganfod atebion cynaliadwy ar y cyd
- deall achosion gwreiddiol problemau i'w **hatal** rhag digwydd.

## Amcanion Llesiant

Mae'r Ddeddf hefyd yn gosod saith amcan **llesiant cenedlaethol** i sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Dangosir y rhain yn Tabl 1:

Tabl 1 Amcanion Llesiant

| Amcan Llesiant | Disgrifiad |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas ddyfeisgar, gynhyrchiol a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau yn effeithlon a chymesur (yn cynnwys gweithredu ar newid hinsawdd) ac sy'n datblygu poblogaeth gyda sgiliau ac wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan alluogi pobl i gymryd mantais o'r cyfoeth a gynhyurchwyd wrth sicrhau gwaith boddhaol. |
| Cymru wydn | Cenedl sy'n cynnal a gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol a'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei uchafu a lle mae dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol yn cael eu deall. |
| Cymru mwy cydradd | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial beth bynnag y bo'u cefndir neu amgylchiadau (yn cynnwys eu cefndir ac amgylchiadau sosio-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynol | Cymunedau deniadol, hyfyw, diogel ac wedi'u cysylltu'n dda. |
| Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hybu a gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg, ac sy'n annog pobl i gymryd rhan yn y celfyddydau a chwaraeon a hamdden. |
| Cymru gyfrifol yn fyd-eang | Cenedl sydd, pan yn gwneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd. cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud y fath beth wneud cyfraniad cadarnhaol at lesiant byd-eang. |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru*

## Dangosyddion Cenedlaethol

Er mwyn mesur cynnydd tuag at yr amcanion llesiant cenedlaethol hyn, gofynnodd y Ddeddf hefyd i Weinidogion Cymreig osod dangosyddion cenedlaethol – gwerthoedd neu nodweddion y gellir eu mesur yn feintiol neu ansoddol yn erbyn canlyniad neilltuol. O ganlyniad, gosodwyd 46 dangosydd cenedlaethol o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'u cyhoeddir yma.[3]

Mae'r dangosyddion cenedlaethol yn fesuradwy mewn perthynas â Chymru neu unrhyw ran o Gymru, ac felly chwaraeant swyddogaeth bwysig yn yr Asesiad Llesiant Lleol hwn. Maent, fodd bynnag, yn dal i gael eu paratoi, ac felly mae'r data ar gyfer rhai dangosyddion yn dal i ddod i'r wyneb ac nid yw ar gael o bosibl ar lefel leol (Pen-y-bont ar Ogwr neu ardal gymuned). Fel y cyfryw, nid yw pob dangosydd cenedlaethol wedi cael eu defnyddio yn yr Asesiad hwn, ond pan gânt eu defnyddio, maent wedi'u marcio'n glir.

## Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r Ddeddf yn sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i bob ardal awdurdod lleol. Mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella llesiant eu hardal. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ar 1 Ebrill 2016. Mae ei aelodau yn cynnwys cynrychiolwyr uwch o'r sefydliadau a welir yn Tabl 2. Mae mwy o wybodaeth am Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr ar gael yma.

Tabl 2 Aelodaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr

| Aelodau Statudol | Rhai'n cymryd rhan trwy wahoddiad |
|---|---|
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Awen |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Fforwm Fusnes Pen-y-bont ar Ogwr |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | Coleg Pen-y-bont ar Ogwr |
| | Cwmni Adsefydlu Cymuned |
| | Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |
| | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| | Heddlu De Cymru |
| | Heddlu De Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Troseddu |
| | Cymoedd i'r Arfordir (V2C) |
| | Llywodraeth Cymru |

*Ffynhonnell: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr*

3 http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=en


## Asesiad Llesiant Lleol

### Pwrpas

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi gofyniad ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr i asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol o fewn Pen-y-bont ar Ogwr a'i chymunedau. Mae'r Asesiad yn darparu sail tystiolaeth y bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei ddefnyddio i ddatblygu ei Gynllun Llesiant Lleol (caiff y cyntaf ei gyhoeddi yn 2018).

Yn ôl Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i'r Asesiad Llesiant Lleol hwn gynnwys yr elfennau canlynol:

Ffigur 1 Gofynion Asesiad Llesiant Lleol




*Ffynhonnell: Pwrpas ar y cyd: Dyfodol ar y cyd 3, Llywodraeth Cymru, 2016.*

Dyma'r asesiad cyntaf o lesiant lleol i gael ei wneud ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Dechrau proses asesu llesiant yr ardal yw hyn (ac wedyn gwella), ac fel y cyfryw **bydd y ddogfen hon yn diweddaru ac esblygu wrth i'n dealltwriaeth o lesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddal i gynyddu**.

### Dolenni i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWB) yn darparu fframwaith statudol i awdurdodau lleol ymarfer eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a chefnogi pobl gydag anghenion gofal a chefnogaeth i gyflawni llesiant. Mae'n ddarn o ddeddfwriaeth ar wahân i'r WFGA, ond mae ei phwyslais ar lesiant yn golygu bod y ddwy ddeddf yn perthyn yn agos i'w gilydd.

Fel rhan o'r SSWB, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol asesu anghenion gofal a chefnogaeth y boblogaeth, gan gynnwys anghenion cefnogaeth gofalwyr, wrth gynnal Asesiad Anghenion Poblogaeth. Er mwyn osgoi gorlethu dinasyddion wrth gynnal y ddau Asesiad, felly, cafodd llawer o'r prif ymchwil ei rannu rhwng y ddau asesiad.


## Am Ben-y-bont ar Ogwr

### Poblogaeth

Yn ôl amcanion poblogaeth seiliedig ar gyfrifiad 2011, poblogaeth breswyl Pen-y-bont ar Ogwr ar 30 Mehefin 2015 oedd 142,092 o bol (4.6 y cant o boblogaeth Cymru). Roedd y boblogaeth yn cynnwys 49.5 y cant o ddynion a 50.5 y cant o fenywod,[4] a dwysedd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr oedd 566.7 o bobl y cilomedr sgwâr (o gymharu â 149 o bobl y cilomedr sgwâr ar draws Cymru).

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr broffil oedran tebyg iawn i Gymru gyfan: ym Mehefin 2015, roedd 18 y cant o'r boblogaeth yn 0–15 oed, 62.4 y cant yn 16–64 oed, a 19.6 y cant dros 65 oed. Erbyn 2039, yn ôl rhagamcanion poblogaeth, bydd poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr 0–15 oed a 16–64 oed wedi gostwng, tra bydd y boblogaeth 65+ oed a'r boblogaeth gyfan wedi codi yn ei nifer.

Ffigur 2 Poblogaeth Ragamcanol Pen-y-bont ar Ogwr




*Ffynhonnell: rhagamcanion poblogaeth awdurdod lleol i Gymru seiliedig ar 2014: 2014 i 2039, Llywodraeth Cymru.*


## Amddifadedd

Mae'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymreig (MALIC) wedi cael ei ddatblygu i adnabod crynoadau amddifadedd yn seiliedig ar ardal. Mae MALIC yn rhoi rheng i bob Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA) yng Nghymru gan ddefnyddio methodoleg sgorio cymhleth. Mae Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys 88 o LSOA (4.6 y cant o gyfanswm y1909 LSOA yng Nghymru).

Yn 2014, o'r 88 LSOA ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 9 yn y 10 y cant mwyaf amddifad yng Nghymru; roedd 20 yn y 20 y cant mwyaf amddifad; roedd 37 yn y 30 y cant mwyaf amddifad ac roedd 50 yn y 50 y cant mwyaf amddifad.

4 Amcanion poblogaeth fesul Awdurdod Lleol ac Oedran, ONS, 2015.

Ffigur 3 Amddifadedd yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr (MALIC Cyffredinol 2014)




*Ffynhonnell: MALIC 2014, Uned Data Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru ac Arolwg Ordnans.*

## Am yr Ardaloedd Cymuned

Yn unol â'r ganllaw statudol sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf rhaid i BGC Pen-y-bont ar Ogwr asesu llesiant y Fwrdeistref Sirol yn gyffredinol ac ar lefel 'gymunedol'. Mae cyfarwyddyd statudol WFGA yn datgan bod rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr asesu llesiant y Fwrdeistref Sirol gyfan ac ar lefel 'cymuned'. Yn dilyn ymgynghori â phartneriaid, cytunodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr i ddefnyddio'r tair ardal 'Rhwydwaith Cymdogaeth' a gafodd eu hadnabod gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr yn 2011 fel yr ardaloedd cymuned ar gyfer yr Asesiad Llesiant Lleol cyntaf hwn. Yr ardaloedd cymuned hyn yw Gogledd, Gorllewin a Dwyrain.

Datblygwyd y tair ardal hyn yn seiliedig ar drefniadau prif ofal iechyd sy'n bodoli ac yn gydffiniol â'r Hybiau Cymorth a Diogelu Cynnar a ddatblygwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Tra'n bod wedi ceisio asesu llesiant yn lleol ble bynnag y bo'n bosibl, mae prinder o ddata meintiol ar lefel 'cymdogaeth' neu ward, felly mae bwlch yn ein dealltwriaeth o lesiant ar y lefel gymunedol ddiffiniedig. Byddwn yn parhau i gasglu a dadansoddi gwybodaeth ar lefel leol i fwydo'n hasesiad ymhellach

Dangosir yr ardaloedd cymuned yn Ffigur 4 isod.

Ffigur 4 Map Asesiad Ardaloedd Cymuned Llesiant Lleol Pen-y-bont ar Ogwr





Tabl 3 yn dangos cyfansoddiad pob ardal cymuned fesul ward etholaethol a phoblogaeth.

Tabl 3 Asesiad Ardaloedd Cymuned Llesiant Lleol Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

| Cyfeirnod Map | **Gogledd** | Cyfeirnod Map | **Dwyrain** | Cyfeirnod Map | **Gorllewin** |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Caerau | 12 | Penprysg | 20 | Cefn Cribwr |
| 2 | Gorllewin Maesteg | 13 | Felindre | 21 | y Pîl |
| 3 | Dwyrain Maesteg | 14 | Hendre | 22 | Corneli |
| 4 | Llangynwyd | 28 | Bryntirion, Trelales a Merthyr Mawr | 23 | Notais |
| 5 | Blaengarw | | Cefn Glas | 24 | Rest Bay |
| 6 | Pontycymer | 30 | Llangewydd a Brynhyfryd | 25 | Gorllewin Porthcawl |
| 7 | Llangeinor | 31 | Newcastle | 26 | Dwyrain Porthcawl |
| 8 | Bettws | | Morfa | 27 | Drenewydd yn Notais |
| 9 | Nantymoel | 32 | Hen Gastell | | |
| 10 | Cwm Ogwr | 33 | Llidiart | | |
| 11 | Melin Ifan Ddu | 34 | Pendre | | |
| 15 | Bryncethin | 35 | Coity | | |
| 16 | Bryncoch | 36 | Bragle | | |
| 17 | Sarn | 37 | Llangrallo Isaf | | |
| 18 | Ynysawdre | | | | |
| 19 | Abercynffig | | | | |
| 29 | Pen Y Fai | | | | |
| **Poblogaeth** | **50,217** | **Poblogaeth** | **57,011** | **Poblogaeth** | **31,950** |


*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Ffigur 5 Poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr, yn ôl ardal gymunedol.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Ffigur 6 Demograffeg oedran Pen-y-bont ar Ogwr, yn ôl ardal gymunedol.




| | 0-15 | 16-24 | 25-44 | 45-59 | 60-84 | 85+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewin | 5419 | 3121 | 7432 | 6479 | 8429 | 1070 |
| Dwyrain | 10427 | 6315 | 15783 | 11687 | 11649 | 1150 |
| Gogledd | 9442 | 5582 | 13148 | 10354 | 10871 | 820 |

*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*


Nid yw'r Ardaloedd Cymunedol yn seiliedig ar boblogaeth, ac felly, nid ydynt yr un maint â'i gilydd. Mae Ffigur 6 yn dangos er nad yr Ardal Gymunedol Ddwyreiniol yw'r fwyaf yn ddaearyddol, yma mae'r boblogaeth fwyaf (57,011). Yr Ardal Gymunedol Orllewinol yw'r lleiaf o ddigon gyda phoblogaeth o 31,950.

## Ardal Gymuned Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Mae’r Ardal Gymunedol Ogleddol yn cynnwys 17 o wardiau ac mae'n cynnwys cymunedau yng nghymoedd Garw, Ogwr a Llynfi. Maesteg yw’r dref fwyaf yn yr ardal gyda phoblogaeth o 20,612 (Cyfrifiad 2011). Saif ym mhen mwyaf Gogleddol Cwm Llynfi yn agos at y ffin â Chastell-nedd Port Talbot.


Mae ystod amrywiol o gymunedau yn yr ardal ac mae deuddeg o’r wardiau yn y Gogledd yn cael eu dosbarthu fel rhai gwledig. Yn unol â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mae gan yr ardal 13 o ardaloedd cynnyrch ehangach is sy’n cael eu dosbarthu fel rhai sydd yn yr 20 y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ond mae ganddi hefyd 6 o ardaloedd cynnyrch ehangach is sydd yn y 50 y cant lleiaf difreintiedig. Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru’n dangos bod gwahaniaethau sylweddol yn lefelau amddifadedd drwy’r holl ardal a hyd yn oed mewn wardiau unigol e.e. mae Gorllewin Maesteg yn cynnwys 2 ardal cynnyrch ehangach is yn yr 20 y cant ardal mwyaf difreintiedig yng Nghymru ond hefyd ardal sydd yn y 50 y cant lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Ffigur 7 Canran poblogaeth Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr o dan 16 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*

Ffigur 8 Canran poblogaeth Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr o dros 64 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*

Mae'r ganran uchaf o rai sy'n 64+ oed yn Nwyrain Maesteg.

Mae tair ysgol uwchradd yn gwasanaethu'r ardal.

- Maesteg
- Coleg Cymunedol Y Dderwen.
- Ysgol GG Llangynwyd

Mae'r cynghorau tref a chymuned canlynol yn gwasanaethu'r ardal:

- Cyngor Tref Maesteg
- Cyngor Cymuned Llangynwyd Canol ac Isaf
- Cyngor Cymuned Cwm Garw
- Cyngor Cymuned Cwm Ogwr
- Cyngor Cymuned Llansantffraid
- Cyngor Cymuned Ynysawdre
- Cyngor Cymuned Castell Newydd Uchaf

Mae nifer dda o feddygfeydd yn yr ardal, yn cynnwys Sarn, Abercynffig, Cwm Ogwr, Nantymoel, Betws, Maesteg, a Nantyffylon.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gweithredu 6 llyfrgell yn yr ardal:

- Abercynffig
- Betws
- Maesteg
- Cwm Ogwr

- Pontycymer
- Llynfi (Maesteg)

Mae pyllau nofio yn Ynysawdre a Maesteg a Chanolfan Ffitrwydd ym Mhontycymer, Cwm Ogwr a Maesteg.

Neuadd y Gweithwyr yr Neuadd Blaengarw ac mae wedi'i lleoli ym mhen Cwm Garw. Mae'n adeilad poblogaidd sy'n eiddo i Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Yn y neuadd cynhelir digwyddiadau, cerddoriaeth fyw a pherfformiadau theatr. Fe'i defnyddir hefyd gan grwpiau lleol, yn cynnwys dosbarthiadau gwneud gemwaith, grwpiau rhiant a phlentyn, a dosbarthiadau drama.

Yn Neuadd y Dref Maesteg yng Nghwm Llynfi cynhelir rhaglen o berfformiadau proffesiynol ac amatur ac fe'i defnyddir yn helaeth gan grwpiau a sefydliadau i gyfarfod ac ymarfer. Mae lle i 500 o bobl eistedd yn yr adeilad gradd II. Yn ogystal â pherfformiadau a digwyddiadau mae'n lleoliad poblogaidd i gynnal priodasau a digwyddiadau.

Lleolir Parc Gwledig Bryngarw ym Mrynmenyn yn yr ardal sy'n cael ei hadnabod fel Porth y Cymoedd. Mae gan y parc dros 113 o erwau o barcdir amrywiol yn cynnwys coetiroedd natur, gerddi ffurfiol a llynnoedd artiffisial, yn ogystal ag ardal chwarae boblogaidd ar gyfer plant. Mae'r parc yn croesawu 200,000 o ymwelwyr bob blwyddyn. Ar y safle hefyd mae Tŷ Bryngarw, adeilad hardd lle cynhelir priodasau a digwyddiadau, ynghyd â chanolfan ymwelwyr a chaffi. Mae prosiect garddwriaeth hefyd wedi'i leoli ym Mryngarw, sef B-leaf. Prosiect yw hwn ar gyfer dysgwyr ag anableddau ac mae chwaer brosiect gerllaw o'r enw Wood B.

Mae Parc Slip yn cael ei redeg gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt De a Gorllewin Cymru ac mae wedi'i leoli ar Fountain Road, Tondu. Ar y warchodfa natur 300 erw mae canolfan ymwelwyr, amryw o wahanol fathau o gynefinoedd, lonydd beicio di-draffig mewn cyflwr da, llwybrau cŵn a llwybr hygyrch i gadeiriau olwyn, rhai sy'n defnyddio ffyn cerdded ac i'r rhai sydd â phroblemau gyda'u golwg. Mae canolfan ymwelwyr cwbl hygyrch a siop goffi ar y safle.


Yn ôl y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr mae'r dewis o dai yng nghymoedd Garw ac Ogwr yn gyfyngedig.

## Ardal Gymunedol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Mae Ardal Gymunedol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys 13 o wardiau, gyda 6 ohonynt wedi'u dosbarthu fel rhai gwledig. Mae'r ardal yn cynnwys Pen-y-bont, y dref fwyaf yn y Fwrdeistref Sirol gyda phoblogaeth o 46,737 (Cyfrifiad 2011) a thref lai Pencoed gyda phoblogaeth o 9,170 (Cyfrifiad 2011). Hon yw'r ardal fwyaf trefol o'r tair ardal gymunedol.

Yn unol â Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mae ystod amrywiol o amddifadedd ar draws yr ardal gyda thair o ardaloedd cynnyrch ehangach is yn yr 20 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a 23 yn y 50 y cant lleiaf difreintiedig. Mae lefelau amddifadedd yn amrywio'n sylweddol hyd yn oed ar lefel ward. e.e. mae gan Bracla ardal cynnyrch ehangach is sydd yn y 10 y cant mwyaf difreintiedig ac ardal cynnyrch ehangach is arall sydd yn safle 1819 allan o 1909 o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru


Ffigur 9 Canran poblogaeth Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr o dan 16 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Mae Wardiau Bracla (22 y cant) a Bryntirion, Trelales a Merthyr (16 y cant) yn dylanwadu'n drwm ar gymuned Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.

Ffigur 10 Canran poblogaeth Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr dros 64 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Y newid sylweddol yn y gymuned hon ers 2011 yw datblygiad Parc Derwen sydd yn ward Coety lle mae tua 1500 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu.

Mae 4 ysgol uwchradd yn yr ardal, ynghyd ag Ysgol Arbennig Heronsbridge:

- Pencoed
- Bryntirion
- Brynteg

- Archesgob McGrath

Mae'r cynghorau tref a chymuned canlynol yn gwasanaethu'r ardal:

- Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Tref Pencoed
- Cyngor Cymuned Llangrallo Uchaf
- Cyngor Cymuned Trelales
- Cyngor Cymuned Coety Uchaf
- Cyngor Cymuned Bracla
- Cyngor Cymuned Merthyr Mawr

Mae chwe meddygfa'n gwasanaethu'r ardal, wedi'u gwasgaru'n dda ar draws ardal ddaearyddol, yn cynnwys Pencoed, Tref Pen-y-bont ar Ogwr, Bracla a Chefn Glas.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gweithredu 2 lyfrgell, un yng Nghanol Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac un ym Mhencoed.

Mae'r ardal hefyd yn gartref i Barc Manwerthu MacArthur Glen a Pharc Hamdden, gyda'i ddewis mawr o siopau manwerthu, bwytai a chaffis. Mae Sinema'r Odeon hefyd ar yr un safle ac mae'r ffilmiau diweddaraf i'w gweld yno yn ogystal â Theatr Genedlaethol yn Fyw.

Mae canolfan bywyd fawr a phwll nofio yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr a phwll nofio ym Mhencoed. Mae Ysbyty Tywysog Cymru'n gwasanaethau ardal gyfan Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leoli yn yr Ardal Ddwyreiniol. Cafodd y coleg sgôr rhagorol yn yr arolwg diweddar gan Estyn. Yn ogystal â nifer o gyrsiau academaidd mae Tŷ Weston yn rhan o'r coleg. Mae hwn yn adeilad holl gynhwysol wedi'i adeiladu'n bwrpasol ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 25 sydd ag anawsterau a/neu anableddau dysgu.

Yn Nhŷ Carnegie ar Wyndham Street ym Mhen-y-bont ar Ogwr mae Cyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Gelfyddydau sy'n cynnig rhaglen o ddigwyddiadau celf a diwylliannol proffesiynol.


**Carchar ei Mawrhydi / Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc**

Agorodd Carchar EM a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn 1997 ac mae wedi'i leoli yn yr Ardal Gymunedol Ddwyreiniol. Mae lle i 2000 o garcharorion gwrywaidd Categori B yno. Ar hyn o bryd hwn yw'r unig garchar preifat yng Nghymru ac mae'n cael ei reoli gan G4S ar ran y Gwasanaeth Carchardai. Mae'r carchar yn cynnwys uned pobl ifanc ar gyfer gwrywod rhwng 15 ac 17 oed a hwn yw'r prif garchar i droseddwyr ifanc rhwng 18 a 21 ac oedolion sy'n droseddwyr.

## Ardal Gymunedol Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Mae 8 o wardiau yn yr ardal gymunedol orllewinol ac mae'n cynnwys tref glan môr boblogaidd Porthcawl, ynghyd â chymunedau cyfagos Corneli, y Pîl a Chefn Cribwr. Mae tri o'r wardiau wedi'u dosbarthu fel rhai gwledig. Hon yw'r ardal gymunedol leiaf o ran poblogaeth.
Mae gan Borthcawl boblogaeth o 16,010 (Cyfrifiad 2011).


Ffigur 11 Canran poblogaeth Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr West o dan 16 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Mae poblogaeth dan 16 oed Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn eithaf isel o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sy'n 18.16 y cant. Dim ond Y Pîl a Chorneli sy'n uwch na chyfartaledd Cymru. Mae poblogaeth dan 16 oed yn isel iawn yn Rest Bay (12.40 y cant).

Ffigur 12 Canran poblogaeth Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr dros 64 oed, yn ôl ward.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Mae gan Orllewin Pen-y-bont ar Ogwr boblogaeth oed ymddeol llawer uwch na'r cyfartaledd o'i gymharu â Chymru gyfan. Yn Rest Bay mae bron i ddwbl y trigolion sy'n 64 oed neu drosodd (36.6 y cant) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru (18.4 y cant).

Mae tair ysgol uwchradd yn gwasanaethu'r ardal:

- Cynffig

- Porthcawl
- St Clare’s (yr unig ysgol breifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr)

Unwaith eto yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mae gwahaniaeth amlwg yn lefelau amddifadedd ar draws yr ardal. Mae dwy ardal cynnyrch ehangach is yn yr 20 y cant uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru ac mae 7 yn yr 50 y cant uchaf o ardaloedd lleiaf difreintiedig. Mae gan Rest Bay, Nottage a Newton ardaloedd cynnyrch ehangach is yn yr 50 y cant o ardaloedd lleiaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod ardal Dwyrain Canol Porthcawl yn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran cyflogaeth.

Mae’r cynghorau tref a chymuned canlynol yn gwasanaethu’r ardal:

- Cyngor Tref Porthcawl
- Cyngor Cymuned Corneli
- Cyngor Cymuned Cefn Cribwr
- Cyngor Cymuned Y Pîl

Mae dwy feddygfa ym Mhorthcawl, un yng Ngogledd Corneli ac un ym Mynydd Cynffig.

Mae Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen yn gweithredu dwy lyfrgell yn yr ardal:

- Y Pîl
- Porthcawl

Mae gan Borthcawl ddau draeth baner las, Trecco Bay, sy’n agos at faes carafanau mawr a Rest Bay, un o brif draethau syrffio Cymru. Mae pwll nofio a chanolfan bywyd yn Y Pîl. Yng Nghlwb Golff Brenhinol Porthcawl y cynhaliwyd Uwch Bencampwriaeth Agored Cymru yn 2014 ac fe’i cynhelir yno eto yn 2017.

Ar lan y môr ym Mhorthcawl mae’r Pafiliwn sy’n adeilad rhestredig gradd II sy’n cynnig rhaglen amrywiol o ddigwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol. Bellach Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen sy’n berchen ar yr adeilad ac yn ei weithredu. Mae’r Pafiliwn yn gartref i gwmni adnabyddus Theatr Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr a nifer fawr o grwpiau amatur lleol. Cynhelir popeth yno o’r comedi gorau i ddramâu amser cinio ac o gyngherddau clasurol i Ŵyl Elvis. Hefyd mae bar a chaffi/bwyty yn y Pafiliwn, ac mae'n lleoliad poblogaidd i gynnal priodasau a digwyddiadau eraill.

Mae Gwarchodfa Natur Cynffig wedi’i lleoli yn Nhon Cynffig, tua hanner ffordd rhwng Porthcawl a Chorneli. Mae'n un o brif warchodfeydd twyni tywod Cymru gyda’r holl blanhigion, adar a phryfed arbennig sy’n dibynnu ar y math hwn o gynefin arfordirol. Mae wedi’i ddynodi’n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig.

# Pennod 2: Asesiad Llesiant fesul Thema

## Llesiant Economaidd

### Crynodeb o Lesiant Economaidd

Mae rhaniad yn nhermau llesiant economaidd rhwng y rheini y mae bywyd yn gymharol gyfforddus iddynt ac sy'n gweld llesiant fel cael adnoddau sbâr am ychydig o eitemau moethus a'r rheini sy'n byw ar y cyrion economaidd, sy'n gweld llesiant fel cael digon i ddiwallu'u hanghenion a'u rhwymedigaethau sylfaenol. Roedd sicrwydd ariannol yn bwysedd allweddol i'r rheini ar incymau isel, mewn gwaith portffolio, neu yn ddiwaith. Fel mewn lleoedd eraill, roedd tystiolaeth eang o dlodi mewn gwaith ac analluu i ddianc rhag y trap budd-daliadau i'r rheini heb fod yn gweithio.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ganran uwch o bobl a ddosberthir fel gweithgar yn economaidd ac mewn cyflogaeth na'r cyfartaledd i Gymru. Er yn gostwng, mae nifer uchel o gartrefi heb waith o hyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr Mae arwyddion bod pobl hŷn yn yr ardal yn llai tebygol o fod mewn gwaith nac mewn rhannau eraill o Gymru. Mae incymau ar gyfartaledd yn is nac i Gymru ac mae cyfran uwch o blant hefyd mewn teuluoedd incwm isel ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yng Nghymru ar y cyfan. Mae symudiad galwedigaethol wedi bod dros amser, gyda llai o bobl yn gweithio ar lefel uwch a mwy mewn galwedigaethau gweinyddol a phroses.

Yn gyffredinol, mae pobl oed gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai cymwys na'r cyfartaledd i Gymru ac nid oedd gan bron 15 y cant unrhyw gymwysterau ffurfiol yn 2015, yn erbyn cyfartaledd Cymreig o 10.2 y cant. Mae cyraeddiadau'r rhai sy'n gadael ysgol wedi codi'n raddol, ond mae ymadawyr Blwyddyn 13 yn dal i fod yn fwy tebygol o fod yn NEET ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yng Nghymru ar y cyfan.

Mae tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwy fforddiadwy yn gyffredinol nac ar draws Cymru gyfan, gyda phrisiau tai is na'r cyfartaledd a chymhareb is o o bris tŷ canolrifol i gyflog gros blynyddol canolrifol.

### Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Economaidd

Amrywiodd dealltwriaeth o 'lesiant economaidd' ar draws y tair ardal cymuned – tueddai trigolion Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr i gysylltu llesiant economaidd gyda chael digon o incwm i brynu eitemau a chwenychent (fel gwyliau), tra bo trigolion Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn ei gysylltu mwy â'r gallu i brynu pethau angenrheidiol a thalu biliau.

Mae'r prif ymchwil a'r ymchwil eilaidd yn awgrymu bod llesiant economaidd yn perthyn i incwm, cyflogaeth, a'r rhyddidau a chyfleoedd sy'n codi o gynaliadwyedd ariannol. Felly, er bod rhai agweddau o lesiant economaidd yn gorgyffwrdd â'r themáu eraill (e.e. mae mynediad at gelfyddydau a diwylliant yn cael ei wella gan incwm), mae'r dangosyddion a'r is-themau isod wedi cael eu dethol i ble mai cyllid, a mynediad ato, yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol.

Ffigur 13 Ystyr llesiant economaidd – Ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Ffynhonnell: *Arolwg Ar-lein.*

Ffigur 14 Ffactorau fydd yn gwella llesiant economaidd – ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Ffynhonnell: *Arolwg Ar-lein.*

## Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, nodwyd bod un o bob pump o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg wedi crybwyll geiriau'n gysylltiedig ag arian[5] wrth ddiffinio llesiant economaidd, o'i gymharu â 70 y cant drwy Ben-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol. Yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr roedd mwy o ffocws ar bryderon, dyledion a phryderon unigolion ynglŷn â pheidio â chael digon o arian i gynnal eu hunain yn ariannol. Yn ôl un ymatebydd i'r arolwg, ystyr llesiant economaidd yw:

*'Safon byw resymol heb ofni tlodi.'*

Dyma ddiffiniad unigolyn arall :

*'cael digon o arian i fwydo, dilladu a chael to uwch eich pen heb boeni o ble daw eich cyflog nesaf.'*

Mae hyn yn awgrymu bod llesiant economaidd i nifer o bobl yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn ymwneud mwy â sicrwydd ariannol na chanolbwyntio ar lefelau o incwm gwario ar gyfer pethau ychwanegol neu foethusrwydd.

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant economaidd, roedd y darlun yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn debyg i'r ardaloedd cymunedol eraill, er ei fod o bosibl yn adlewyrchu safon byw is yn gyffredinol. Y ffactorau a oedd yn cyfrannu fwyaf oedd *'cael swydd',* sicrwydd swydd a darparu ar gyfer eu teulu. Roedd ffactorau eraill yn cynnwys gallu fforddio tŷ heb leithder ac i'r rhai oedd â swydd dda, cael rhywfaint o incwm gwario ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol a theithio.

Hefyd soniwyd yn yr arolwg am yr angen i gael cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd er mwyn cael cyfle i wneud gweithgareddau eraill mewn bywyd bob dydd i sicrhau llesiant economaidd a chymdeithasol.

Fodd bynnag, yng ngweithdai'r rhanddeiliaid awgrymwyd y gallai diffyg cyfleoedd i gael gwaith i bobl ifanc yn yr ardal effeithio ar eu llesiant economaidd, gan fod yn rhaid iddynt fynd ymhellach i ffwrdd i chwilio am waith. Disgrifiodd un ymatebydd hŷn y sefyllfa fel *'darlun digalon o ran swyddi'* i bobl ifanc a chymharodd y sefyllfa heddiw â'r sefyllfa pan oedd ef yn

5 Y termau chwilio canlynol oedd arian, incwm, cyllid, ariannol, cyllidol, tâl, fforddio, enillion, cyflog a phensiwn.

ifanc pan oedd gwaith i bawb yn yr ardal. Canolbwyntiodd y rhai a ddaeth i'r gweithdai hefyd ar faterion yn ymwneud â budd-daliadau a chau ffatrïoedd lleol (e.e. Revlon) fel heriau allweddol i lesiant economaidd rhai pobl yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn yr arolwg gofynnwyd hefyd i ymatebwyr 'pa ddau beth ydych chi'n meddwl allai wella eich llesiant economaidd?' Yn gydnaws â rhanbarth Pen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol, canolbwyntiodd ymatebwyr o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr ar gynnydd mewn incwm i gynnig *'codiad cyflog blynyddol yn unol â chwyddiant'* ynghyd â lleihau costau nwyddau bob dydd. Roedd gwelliannau penodol eraill a gynigwyd gan y rhai o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys:

- Adeiladu sylfaen gyflogaeth dda;
- Helpu'r rhai sy'n cael trafferth drwy gostau is, megis treth y cyngor a threth incwm;
- Creu cyflenwad o fwyd ffres rhatach o'r ardal leol;
- Darparu mynediad rhatach i'r pwll nofio lleol; a
- Llythrennedd ariannol cynyddol, yn cynnwys gwybodaeth am gyllid a phensiynau.

### Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Mae'r ddealltwriaeth o lesiant economaidd yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd yn uniongyrchol â'r persbectif a geir yn ehangach ar draws Pen-y-bont ar Ogwr. Canolbwyntiodd ymatebwyr yr arolwg ar incwm a chael digon o arian i gynnal eu safon byw. Yn debyg i'r sefyllfa mewn llefydd eraill, roedd yr angen am incwm yn amrywio ar sail angen; ond fel llinell sylfaen roedd yn cynnwys talu biliau cyfleustodau, bwyd, dillad a hanfodion ar gyfer cynnal cartref a theulu.

Cyflogaeth a sicrwydd gwaith oedd y ffactorau pennaf a oedd yn cyfrannu at ganfyddiadau o lesiant economaidd, er bod rhai unigolion yn ymdrechu i gael swydd â chyflog da er mwyn cael gwell sicrwydd ariannol. Ystyrid bod ansicrwydd ariannol yn cael effaith negyddol ar iechyd meddwl unigolion, drwy'r straen yr oedd yn ei achosi.

O ran gwella llesiant economaidd, cyfeiriodd ymatebwyr o Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn bennaf at gynnydd yn eu hincwm a/neu ostyngiad mewn costau byw. Hefyd trafodwyd nifer o feysydd penodol eraill gan gynnwys:

- oriau gwaith mwy hyblyg;
- gwell rhagolygon o ran swyddi ar gyfer unigolion ag anabledd dysgu;
- sicrwydd a sefydlogrwydd yn yr economi, a;
- chostau teithio is a gwell cysylltiadau cludiant i ddinasoedd mawr.

Awgrymwyd yn y gweithdai hefyd yr hoffai dinasyddion weld gostyngiad yn nhreth y cyngor er mwyn lleihau biliau'r cartref a chael mwy o sicrwydd ariannol.

### Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Eto roedd ymatebwyr yr arolwg yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn diffinio llesiant economaidd ar sail digonolrwydd; i bobl fyw o fewn eu modd o safbwynt tai, dillad, bwyd biliau a gweithgareddau cymdeithasol. Cefnogir hyn gan ddyfyniad o'r arolwg a ddiffiniodd llesiant economaidd fel;

‘*Peidio â phoeni am y taliad nesaf ar gyfer y morgais, biliau, costau wythnosol. Gallu ymdopi gyda phethau sy’n codi fel tripiau ysgol y plant na chynlluniwyd ar eu cyfer. Byw o fewn eich modd’.*

Yn debyg i ardaloedd cymunedol eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr, trafododd ymatebwyr y ffactorau sy’n cyfrannu at lesiant economaidd yn nhermau cael swydd a bod â sicrwydd ariannol. Fodd bynnag, dywedodd ymatebwyr ei bod yn her sicrhau llesiant economaidd mewn hinsawdd economaidd ansicr:

*‘Rhaid i mi wneud dwy swydd i gynnal fy hun a chynnal y cartref a phrin yr ydw i’n ymdopi! Dydw i ddim yn credu bod gen i les ariannol!’*

Roedd problemau tlodi mewn gwaith yn gyffredin i bob ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy’n dangos bod angen i lesiant economaidd fod yn seiliedig ar waith a chyflogau ar raddfa dda. Gwnaed sawl cyfeiriad at rewi cyflogau neu setliadau islaw chwyddiant, yn arbennig yn y sector cyhoeddus.

Roedd y gwelliannau i lesiant economaidd a gynigwyd gan ymatebwyr i’r arolwg yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn debyg i ardaloedd cymunedol eraill o ran canolbwyntio ar dâl uwch neu gostau byw is. Fodd bynnag, yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr gwnaed mwy o gyfeiriadau at faterion ehangach fel argaeledd morgeisi ar gyfer prynwyr tro cyntaf, costau addysg uwch a chyfraddau llog ar gyfer cynilon, yn ogystal â gostyngiad yng nghostau byw drwy renti, tanwydd, bwyd ac eitemau bob dydd.

Roedd awgrymiadau pellach am welliannau i lesiant economaidd yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys gostyngiad mewn costau cludiant, cost briodol ar gyfer gweithgareddau hamdden a *‘gweithgareddau mwy fforddiadwy ar gael yn lleol’.*

## Asesiad Llesiant Economaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr

### Gwaith

Mae cyflogaeth yn ganolog i lesiant economaidd, yn ôl amcanion llesiant WFGA a dinasyddion Pen -y-bont ar Ogwr ynghlwm â'r asesiad hwn.

**Mae cyfraddau cyflogaeth a gweithgaredd economaidd yn gyffredinol uwch ym Mhenybont-ar-Ogwr na chyfartaledd Cymru.**

Tabl 4 Cyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru: Cyfradd Cyflogaeth, Cyfradd Cyflogaeth ( 50-64 oed) a chyfradd Gweithgaredd Economaidd, 2011 a 2015.

| | Cyfradd Cyflogaeth (%) | | Cyfradd Cyflogaeth Pobl 50–64 Oed (%) | | Cyfradd Gweithgaredd Economaidd (%) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 70.2 | 71.9 | 58.3 | 63.5 | 75.9 | 77.4 |
| **Cymru** | 66.8 | 70.3 | 60.1 | 65.1 | 73.0 | 74.9 |

*Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.*

O 2011 i 2015, cododd y gyfradd gyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr – hynny yw, y nifer o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr a wnaeth rhywfaint o waith am dâl wedi'i fynegi fel canran o'r holl bobl 16–64 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr – o 70.2 y cant i 71.9 y cant, tra'n codi ar draws Cymru o 66.8 y cant i 70.3 y cant.[6] Felly, er bod cynnydd mwy yn y gyfradd ar draws Cymru gyfan yn y cyfnod hwn, mae'r gyfradd gyflogaeth yn dal uwchben cyfartaledd Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Nifer pobl mewn cyflogaeth.** |
| Yn 2015, roedd 77.4 y cant o bobl oedran gwaith ym Mhen-y-bont a -Ogwr mewn cyflogaeth, o gymharu â 74.9 y cant i Gymru. |

Yr un yw'r darlun hefyd pan ystyrir pobl a ddosberthir yn 'economaidd weithgar' (y rheini mewn cyflogaeth a'r rheini sy'n ddiwaith ond yn chwilio am waith). Pob blwyddyn rhwng 2011 a 2015, roedd y gyfradd gweithgaredd economaidd yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac ar draws Cymru.[7]

Fodd bynnag, pob blwyddyn rhwng 2011 a 2015 (ac eithrio 2014), roedd pobl mewn gwaith 50–64 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth nac ar draws Cymru.[8]

Ar draws yr Ardaloedd Cymunedol, yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr mae'r ganran uchaf o bobl (rhwng 16 a 74 oed, ac eithrio myfyrwyr) mewn gwaith, sef 59.8 y cant, o'i gymharu â Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (55.7 y cant) a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr (55.3 y cant). Yn yr ardal o gwmpas Caerau (MSOA Pen-y-bont ar Ogwr 001) mae'r ganran isaf o bobl mewn gwaith, sef 47 y cant, tra mai yn yr ardal rhwng ffyrdd yr A48 a'r A473 (dwyrain Broadlands, MSOA Pen-y-bont ar Ogwr 017) mae'r ganran uchaf, sef 69.3 y cant.[9]

**Mae mwy nac un o bob tri o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn cael eu cyflogi mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd. Gostyngodd y gyfran o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr a gyflogir mewn Gweithgynhyrchu rhwng 2010 a 2015.**

Tabl 5 Diwydiant cyflogaeth fesul cyfran o boblogaeth gwaith, Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2010 a 2015.

| | **2010** | | **2015** | |
|---|---|---|---|---|
| **Diwydiant** | **Pen-y-bont ar Ogwr (%)** | **Cymru (%)** | **Pen-y-bont ar Ogwr (%)** | **Cymru (%)** |
| Amaethyddiaeth a Physgota | 1.4 | 2.1 | dim yn gymwys | 2.3 |
| Ynni a Dŵr | 1.6 | 2.1 | 1.9 | 2.2 |
| Gweithgynhyrchu | 14.6 | 10.4 | 12.8 | 11.0 |
| Adeiladu | 9.6 | 8.1 | 9.1 | 7.4 |
| Dosbarthu, Gwestyau a Thai Bwyta | 17.2 | 18.5 | 19.3 | 19.3 |
| Cludiant a Chyfathrebu | 5.0 | 6.2 | 7.8 | 5.9 |
| Bancio, Cyllid ac Yswiriant | 10.1 | 11.4 | 9.7 | 12.4 |

6 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.
7 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.
8 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.
9 ONS, Cyfrifiad 2011.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd | 36.2 | 35.2 | 34.2 | 33.5 |
| Gwasanaethau Eraill | 4.2 | 5.2 | 4.4 | 5.2 |

*Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.*

Rhwng 2010 a 2015, mae'n ymddangos bod symudiad bach yn niwydiant cyflogaeth trigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Gostyngodd cyfran y rheini'n gweithio mewn Gweithgynhyrchu a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd dros un pwynt canran, tra y cynyddodd y gyfran oedd yn gweithio mewn Dosbarthu, Gwestyau a Thai Bwyta, a Chludiant a Chyfathrebu dros ddau bwynt canran.

Yn 2015, gweithiodd cyfran fwy o bobl mewn Gweithgynhyrchu a Gweinyddiaeth Gyhoeddus; Addysg ac iechyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â Chymru gyfan, ond cyfran sylweddol lai mewn Bancio, Cyllid ac Yswiriant.

Er gwaetha'r darlun cyffredinol gadarnhaol hwn o gyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr, cododd trigolion nifer o faterion ynghylch cyflogaeth. Yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, er enghraifft, gwnaeth rhai trigolion sylwadau ar gau ffatrïoedd (e.e. Revlon) a'r gostyngiad yn nifer y cyfleoedd cyflogaeth yn yr ardal.

**Rhwng 2013 a 2015, roedd gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfradd uwch o gyflogaeth na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, roedd y gyfradd ddiweithdra yn is yn 2015 na 2011.**

Tabl 6 Cyfradd Diweithdra, Cyfradd Hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith a Chyfradd Aelwyd heb waith, Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2011 a 2015.

| | Cyfradd Diweithdra (%) | | Cyfradd Hawlio JSA (%) | | Cyfradd Aelwyd Heb Waith (%) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 7.5 | 7.1 | 3.7 | 1.9 | 20.6 | 17.6 |
| **Cymru** | 8.5 | 6.1 | 3.8 | 2.2 | 22.4 | 18.3 |

*Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.*

Rhwng 2011 a 2015, gostyngodd y gyfradd diweithdra a'r gyfran o bobl a hawliodd Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ar draws Cymru.[10] Yn 2015, fodd bynnag, roedd y gyfradd diweithdra un pwynt canran yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr na'r cyfartaledd i Gymru, er bod y gyfradd hawlio JSA ychydig yn is na'r cyfartaledd i Gymru.[11]

Mae'r OECD yn datgan bod aelwydydd heb waith yn niweidiol i lesiant economaidd oherwydd yr anfanteision ariannol mae'r fath aelwydydd yn eu hwynebu, ond hefyd oherwydd yr effaith ar obeithion plant a llewyrch yn y dyfodol.[12] Rhwng 2011 a 2015,

10 Adran Gwaith a Phensiynau, % o bobl oed gwaith sy'n hawlio Lwfans Ceiswyr Gwaith.
11 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol: canran o'r boblogaeth oedran gwaith sy'n ddiwaith.
12 OECD (2015) Sut mae Bywyd? 2015: Mesur Llesiant (Ar-lein: E-lyfr)

gostyngodd cyfran yr aelwydydd heb waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr o 3 pwynt canran, ac yn 2015 roedd yn is na chyfartaledd Cymru.[13]

Rhwng 2011 a 2015, gostyngodd canran y plant yn byw ar aelwydydd heb waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr 1.1 pwynt canran (o 20.5 y cant i 19.4 y cant), tra gostyngodd y gyfradd i Gymru 4.1 pwynt canran (18.1 y cant i 13.6 y cant).[14] Mae'r gwahaniaeth canran 5.8 pwynt rhwng Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru yn bryder.

## Sicrwydd Swydd

Mae sicrwydd swydd wedi dod yn fwy amlwg mewn ymchwil i lesiant economaidd a gweithiwr oherwydd ei effaith ar sicrwydd ariannol a iechyd meddwl (hynny yw, straen cyflogaeth sydd ddim yn barhaol a dibrisiad rhai swyddi).[15] Yn gadarnhaol, mae rhywfaint o ymchwil diweddar wedi canfod bod 95 y cant o fusnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gafodd eu harolygu yn disgwyl i gyflogaeth aros yr un peth neu gynyddu dros y 12 mis nesaf.[16]

Mae defnydd Cytundebau Oriau Sero yn y blynyddoedd diweddar ar draws y DU wedi cael ei adrodd yn eang fel cyfrannwr at ansicrwydd swydd, gan nad oes gan weithwyr unrhyw sicrwydd am y nifer o oriau y byddant yn gweithio a'r incwm a gânt o wythnos i wythnos. Adrodda Sefydliad Joseph Rowntree, ar draws y DU, bod cyfradd defnyddio cytundebau dros-dro wedi codi yn unol â diweithdra ar y cyfan, ac maent yn arbennig o gyffredin ymhlith pobl ifanc a phobl hŷn.[17] Yn anffodus, nid yw data am ddefnydd cytundebau dros-dro ond ar gael ar lefel genedlaethol (hynny yw, Cymru, Lloegr a DU).

## Incwm

Cafodd sicrwydd ariannol, wedi'i drafod yn nhermau gallu talu biliau, fforddio gwyliau, neu gallu delio'n ariannol ag argyfyngau, ei grybwyll yn aml gan drigolion Pen-y-bont ar Ogwr. Crybwyllodd trigolion hefyd beryglon ansicrwydd ariannol. Sylwodd trigolyn hŷn oedd yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol a chredyd pensiwn eu bod yn aml yn ei chael yn anodd i fforddio hanfodion ac felly yn gorfod dibynnu ar fanciau bwyd. Ymhellach, crybwyllodd rhai trigolion gydag anableddau dysgu/ASD bod nifer o gyfleusterau lleol[18] oedd yn gwella eu llesiant diwylliannol a chymdeithasol, ond bod costau cymryd rhan a chael trafnidiaeth yn rhwystr arwyddocaol iddynt eu defnyddio.

**Mae Incwm Gwariadwy Cartref Gros y pen a Gwerth Gros Wedi'i Ychwanegu yn is ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru.**

Tabl 7 GDHI, Cyflog canolrifol wythnosol a GVA y pen ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2010 a 2014/2011 a 2015.

13 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol: canran o aelwydydd heb waith.
14 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol: canran Plant yn byw ar Aelwydydd Heb waith
15 Gallie, D. Felstead, A. Green, F. & Inanc, H. (2016) The Hidden Face of Job Insecurity. Cyflogaeth Gwaith a Chymdeithas
16 Wavehill, 2016 - Ymchwil Busnes Pen-y-bont ar Ogwr. Disgwyliadau Busnes o Gyflogaeth yn Aros yr un peth neu'n Cynyddu dros y 12 Mis nesaf
17 Sefydliad Joseph Rowntree (2015) Ansicrwydd mewn Gwaith
18 Cynlluniau'n seiliedig ar waith a redir gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, Gateway, Fit 4 Life, meddygon teulu ac Ysbytyai lleol, Campfeydd, a Phyllau.

| | GDHI | | Cyflog Canolrifol Wythnosol | | GVA y pen | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2010 | 2014 | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | £14,916.00 | £14,753.00 | £463.40 | £500.00 | £15,042.00 | £16,256.00 |
| **Cymru** | £14,605.00 | £15,302.00 | £455.10 | £484.40 | £15,554.00 | £17,573.00 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Incwm Gwariadwy Gros fesul Aelwyd,[19] ONS Arolwg Poblogaeth Blynyddol: Cyflog canolrifol wythnosol a ONS, GVA y pen.[20]*

Incwm Gwariadwy Gros Aelwyd yw'r swm o arian sydd ar ôl gan bob aelod o'r teulu i wario neu gynilo ar ôl wedi mesurau dosbarthu incwm (e.e. trethi, cyfraniadau cymdeithasol a budd-daliadau).[21] Rhwng 2010 a 2014, cododd GDHI ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru £557 a £697 yn eu tro.[22] Yn 2014, roedd y bwlch rhwng y GDHI i Ben-y-bont ar Ogwr a Chymru wedi cynyddu i £549, o gymharu â bwlch o £409 yn 2010.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Incwm Gwariadwy Gros Aelwyd fesul y pen** |
| Yn 2014, roedd GDHI/y pen yn £14,753 ym Mhen-y-bont ar Ogwr £15,302 i Gymru. |

Yn yr un modd, roedd Gwerth Gros Wedi'i Ychwanegu(GVA) yn uwch yng Nghymru nac ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2011 a 2015.[23]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Gwerth Gros Wedi'i Ychwanegu fesul awr a weithiwyd** |
| Yn 2015, GVA y pen oedd £16,256 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a £17,573 i Gymru. |

**Mae'r Cyflog Canolrifol wythnosol yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru.**

Mewn gwrthgyferbyniad i'r canfyddiadau uchod, roedd tâl wythnosol canolrifol gros gweithiwr llawn amser ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na ffigwr chyfartaledd Cymru yn 20111 a 2015.[24]

Ar nodyn cadarnhaol hefyd, tra bo'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru pob blwyddyn rhwng 2011 a 2014, lleihaodd yn drawiadol o £148.00 yn 2012 i £71.50 yn 2015 – o dan cyfartaledd Cymru.[25]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Gwahaniaeth Tâl Rhyw** |

19 Ystadegau Cymru, Incwm Gwariadwy Gros fesul Aelwyd.
20 ONS, GVA y pen (£)
21 ONS, GDHI
22 Ystadegau Cymru, Incwm Gwariadwy Gros fesul Aelwyd.
23 ONS, GVA y pen (£)
24 ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol: Tâl Wythnosol Canolrifol Gros Gweithiwr Llawn Amser.
25 Arolwg Oriau Blynyddol: Gwahaniaeth yn y tâl llawn amser wythnosol cyfartaledd oedran (canolrifol) rhwng dynion a menywod.

Yn 2015, y bwlch tâl (gwahaniaeth mewn tâl canolrifol llawn amser wythnosol) rhwng dynion a menywod oedd £71.50 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn is na chyfartaledd Cymru o £86.30.

## Dadansoddiad Galwedigaethol

**Rhwng 2011 a 2015, gostyngodd cyfran pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gweithio fel rheolwyr, cyfarwyddwyr a phrif swyddogion ac roedd yn is na chyfartaledd Cymru. Cynyddodd y gyfran o bobl yn gweithio fel gweithredwyr proses, a pheiriannau, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru.**

Tabl 8 Cyflogaeth fesul galwedigaeth, Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2011 a 2015.

| | Rheolwyr, cyfarwyddwyr a phrif swyddogion (%) | | Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol (%) | | Gweithredwyr proses, peiriannau (%) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2011** | **2015** | **2011** | **2015** | **2011** | **2015** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 8.7 | 8.3 | 9.2 | 9.8 | 6.2 | 9.5 |
| **Cymru** | 8.9 | 9.6 | 11.1 | 10.2 | 7.0 | 7.0 |

*Ffynhonnell: ONS, Arolwg Poblogaeth Blynyddol.*

Rhwng 2011 a 2015, mae cynnydd wedi bod yng nghyfran pobl yn gweithio fel gweithredwyr proses a pheiriannau a gostyngiad yng nghyfradd pobl yn gweithio fel rheolwyr, cyfarwyddwyr a phrif swyddi ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'r duedd hon yn groes i un Cymru.

## Addysg a Sgiliau

### Cymwysterau Gweithlu

**Yn gyffredinol, mae pobl oedran gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai cymwys na'r cyfartaledd i Gymru.**

Yn 2011, roedd cyfradd ychydig yn uwch o bobl mewn gwaith ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gymwys i Lefel 3 NQF neu'n uwch o gymharu â chyfartaledd Cymru, ond ers hynny mae'r gyfran wedi gostwng o dan cyfartaledd Cymru.[26] Ar yr un pryd, cynyddodd y bwlch rhwng Cymru a Phen-y-bont ar Ogwr i bobl oedran gwaith yn gymwys i Lefel 4 NQF ac uwch ers 2011.[27]

Pob blwyddyn rhwng 2012 a 2016, roedd canran pobl oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac ar draws Cymru gyfan.[28] Mae'r canfyddiadau hyn yn cyfateb i ganfyddiadau yn adroddiad Ymchwil Busnes Pen-y-bont ar Ogwr, lle mae bron traean o'r busnesau a arolygwyd (60 allan o 202) yn datgan bod angen gweithlu gyda mwy o sgiliau arnynt.[29]

DANGOSYDD CENEDLAETHOL

26 Ystadegau Cymru, % o bobl oedran gwaith (18-64) cymwys i Lefel 3 NQF neu uwch.
27 Ystadegau Cymru, % o bobl oedran gwaith (18-64) cymwys i Lefel 3 NQF neu uwch.
28 Ystadegau Cymru, % o bobl oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau.
29 Wavehill (2016) Ymchwil Busnes Pen-y-bont ar Ogwr.

**Canran oedolion gyda chymwysterau ar wahanol lefelau'r Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol**

Tabl 9 Lefelau Cymhwyster ymhlith Oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, wrth lefel NQF, 2011 a 2015.

| | Cymwys i Lefel 3+ NQF (%) | | Cymwys i Lefel 4+ NQF (%) | | Dim Cymwysterau (%) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 | 2011 | 2015 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 51.7 | 48.1 | 30.1 | 32.3 | 10.0 | 14.7 |
| **Cymru** | 51.3 | 56.6 | 31.0 | 35.8 | 12.0 | 10.2 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, % o bobl oedran gwaith(18-64) yn gymwys i lefel 3 NQF neu uwch, % o bobl oedran gwaith (18-64) cymwys i lefel 4 NQF neu uwch a % o bobl oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau.*[30]

## Plant a Phobl Ifanc

**Mae cyrhaeddiad plant oed ysgol ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gwella yn y pum mlynedd diwethaf.**

Mae data ar gyflawniad ysgol plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhoi darlun mwy cadarnhaol o addysg yn yr ardal gyda chyrhaeddiad yn cyfarfod â neu'n mynd y tu hwnt i gyfartaleddau Cymreig. Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc yn arwyddocaol ar gyfer mesur llesiant economaidd oherwydd eu bod yn dangos llewyrch a chyfleoedd i'r dyfodol.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni 'Trothwy lefel 2' Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg.** [31] |
| Yn 2014, canran y disgyblion yn cyflawni'r 'Trothwy Lefel 2'' yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a mathemateg oedd 59.7 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr, o gymharu â 57.9 y cant ar draws Cymru.[32] |


Yn 2010, cyflawnodd 44.6 y cant o ddisgyblion 15 oed y trothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU A* - C ym Mhen-y-bont ar Ogwr, o gymharu â 50.1 y cant ar draws Cymru.[33] Gwelodd y ddwy ardal gynnydd cyffredinol rhwng 2010 a 2014, ond yn 2014 aeth Pen-y-bont ar Ogwr y tu hwnt i'r cyfartaledd Cymreig gyda chyrhaeddiad 59.7 y cant, o gymharu â 57.9 y cant yng Nghymru.

Yn yr un modd, mae'r cyfraddau disgyblion 15 oed yn cyflawni trothwy lefel 2 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru wedi culhau rhwng 2010 a 2014.[34] Rhwng 2010 a 2014, cynyddodd y ganran yng Nghymru o 67.3 y cant i 84.1 y cant (cynnydd o 16.8 pwynt canradd), tra ym

30 Ystadegau Cymru, % o bobl oedran gwaith (18-64) cymwys i lefel 3 NQF neu uwch, % o bobl oedran gwaith (18-64) cymwys i lefel 4 NQF neu uwch a % o bobl oedran gwaith heb unrhyw gymwysterau
31 Mae'r dangosydd cenedlaethol hefyd yn gofyn am berthnasedd hyn i'r bwlch rhwng y rheiny sy'n gymwys am brydiau bwyd ysgol am ddim.
32 Sylfaen gwybodaeth, % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU yn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf a Mathemateg.
33 Sylfaen gwybodaeth, % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU yn Saesneg neu Gymraeg iaith Gyntaf a Mathemateg.
34 Sylfaen gwybodaeth, % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2.

Mhen-y-bont ar Ogwr, cynyddodd y ganran o 63.2 y cant i 83.7 y cant (cynnydd o 20.5 pwynt canradd).[35]

Ffigur 15 Canran o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2 ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2010 i 2014.




*Ffynhonnell: Sylfaen gwybodaeth, % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2.*

Mae ffigyrau perthnasol i blant iau ym Mnen-y-bont ar Ogwr a Chymru yn adrodd stori debyg. Rhwng 2011 a 2014, cynyddodd y ganran o blant 7 oed oed yn cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd y cyfnod sylfaen o 80.5 y cant i 87 y cant yng Nghymru, tra ym Mhen-y-bont ar Ogwr cynyddodd o 81.8 y cant i 87.1 y cant.

Yn gyffredinol, mae'r ffigyrau hyn yn awgrymu llewyrch mwy i genedlaethau'r dyfodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr os yw eu cyrhaeddiad cyffredinol yn parhau i fod yn unol â neu'n uwch na'r cyfartaleddau Cymreig.

**Mae gadawyr blwyddyn 13 yn fwy tebygol o fod yn NEET ym Mhen-y-bont ar Ogwr nac yng Nghymru gyfan.**

Er bod cyfraddau cyrhaeddiad yn awgrymu llewyrch cynyddol i bobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r gyfradd o adawyr blwyddyn 13 sydd Ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant (NEET) yn awgrymu bod prinder cyfleoedd i bobl ifanc sy'n gadael addysg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.[36]

Fodd bynnag, mae canran gadawyr ysgol Blwyddyn 13 sydd ddim yn NEET wedi gostwng ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ar draws Cymru rhwng 2011 a 2015.

## Prydau Ysgol am Ddim

Gallai plant a phobl ifanc sy’n mynd i’r ysgol yn llawn amser gael yr hawl i gael Prydau Ysgol am Ddim os yw eu rhiant/gwarcheidwad yn derbyn budd-daliadau/taliadau cymorth.[37]


**Bu gostyngiad yng nghanran y plant o bob oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr a oedd yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim o 20.1 y cant yn 2013/14 i 18.1 y cant yn 2015/16.** Fodd bynnag, mae hyn yn dal yn uwch na’r lefel drwy Gymru, lle'r oedd 16.8 y cant

35 Sylfaen gwybodaeth, % o ddisgyblion 15 oed a gyflawnodd drothwy lefel 2.
36 Gyrfaoedd Cymru, % adawyr ysgol Blwyddyn 13 sy'n NEET.
37 Llywodraeth Cymru, Prydau Ysgol am Ddim.

o blant yn gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim yn 2015/16, a gostyngiad o 0.7 pwynt canran o 2013/14 (17.5 y cant).

Mae amrywiaeth fawr yng nghanran y plant sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim ar draws tair ardal gymunedol Pen-y-ont ar Ogwr.

Ffigur 16 Canran yr holl blant ysgol sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim, yn ôl ardal gymunedol a blwyddyn academaidd.




*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.*

Yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr (Coleg Cymunedol Y Dderwen ac ysgolion Maesteg) mae'r ganran uchaf o blant ysgol sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim bob blwyddyn o 2013/14 i 2015/16. Yn yr un cyfnod, bu gostyngiad yn nifer y plant a oedd yn gymwys yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (ysgolion Brynteg, Bryntirion a Phencoed) a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr (ysgolion Cynffig a Phorthcawl). Mae plant o bob rhan o Ben-y-bont ar Ogwr yn mynychu ysgolion sydd wedi'u dynodi fel arall we.e. ysgolion Cymraeg ac ysgolion ffydd.

## Tai

Ffactor arwyddocaol mewn llesiant ariannol neu economaidd yw cost ac argaeledd tai a llety. Mae hyn yn fater a ddaeth yn amlycach yn y newyddion dros y blynyddoedd diweddar, gan fod digartrefedd, cyfraddau ailfeddiannu a phrisiau tai wedi codi'n gyson ar draws y DU.[38]

## Fforddiadwyedd

Tabl 10 yn dangos cymhareb pris tŷ canolrifol i gyflog blynyddol canolrifol, rhent misol ar gyfartaledd am lety dwy ystafell wely a phris canolrifol tŷ, ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2010 a 2015.

| | Cymhareb o bris tŷ canolrifol i gyflog blynyddol canolrifol[39] | | Rhent misol ar gyfartaledd am lety dwy ystafell wely (£) | | Pris canolrifol (pob math o dŷ) Q1 y flwyddyn (£) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2015** | **2010** | **2015** | **2010** | **2015** |

38 Shelter, (2016) Beth yw'r Argyfwng Tai?
39 Ffigwr Cymru wedi'i gyfrifo o'r cyfartaledd canolig i Awdurdodau Lleol Cymreig.

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 6.92 | 6.80 | 454.27 | 480.24 | 121,000 | 134,000 |
| **Cymru** | 6.92 | 6.90 | 483.46 | 501.52 | 132,000 | 140,000 |

*Ffynhonnell: ONS, Cymhareb pris tŷ canolrifol i gyflog blynyddol canolrifol*[40]*, Ystadegau Cymru: Rhent misol ar gyfartaledd am lety 2 ystafell wely*[41] *a ONS, Pris Canolrifol (Pob math o dŷ) Q1 y flwyddyn (awdurdod lleol, a chenedl.*[42]

Pob blwyddyn rhwng 2010 a 2015, roedd pris tŷ canolrifol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfartaledd Cymru, ond mae'r bwlch rhwng pris cyfartalog Pen-y-bont ar Ogwr a Chymru wedi culhau yn y blynyddoedd diweddar.[43] Mae'r newid yng nghymhareb pris tŷ canolrifol i gyflog blynyddol canolrifol rhwng 2010 a 2015 yn awgrymu bod y cynnydd hwn mewn prisiau tai wedi bod yn unol â chodiadau cyflog.

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr hefyd gyfradd arwyddocaol uwch o bryniadau ar Gymorth i Brynu na'r Cyfartaledd Cymreig ar 25.51 o gymharu â 12.84.[44]

Nid oes data meintiol ar gael i amlygu gwahaniaethau mewn fforddiadwyedd tai rhwng Gogledd, Dwyrain a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

## Darpariaeth

Tabl 11 Nifer anheddau a chyfradd tai fforddiadwy

| | **Cyfradd Nifer Anheddau a Ddechreuwyd** | | **Cyfradd Darpariaeth Tai Fforddiadwy** | |
|---|---|---|---|---|
| | **2011** | **2015** | **2010** | **2015** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 59.22 | 68.90 | 24.10 | 22.55 |
| **Cymru** | 38.13 | 50.57 | 19.20 | 18.01 |

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Cyfradd Darpariaeth Tai Fforddiadwy*[45] *a chyfradd nifer o anheddau a ddechreuwyd.*[46]

Mae'r gyfradd o brosiectau tai fforddiadwy gorffenedig a chyfradd anheddau newydd (fflatiau a thai) gan awdurdod lleol yn awgrymu bod argaeledd tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ased i lesiant economaidd, gan ei fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.[47]

## Busnes a Diwydiant

40 ONS, Cymhareb pris canolrifol tŷ i gyflog blynyddol canolrifol.
41 ONS, Rhent misol ar gyfartaledd am lety 2 ystafell wely
42 ONS, Pris Canolrifol (pob math o dy)Q1 y flwyddyn (awdurdod lleol, a chenedl).
43 ONS, Pris Canolrifol (pob math o dy)Q1 y flwyddyn (awdurdod lleol, a chenedl).
44 Ystadegau Cymru, Cymorth i Brynu - Cyfradd pryniadau gorffenedig Cymru fesul awdurdod lleol a dyddiad.
Cyfrifwyd cymhareb o nifer y pryniadau gorffenedig Cymorth i Brynu, fesul 10,000 aelwyd
45 Llywodraeth Cymru, Cyfradd darpariaeth tai fforddiadwy.
46 Llywodraeth Cymru, Cyfradd nifer o anheddau a ddechreuwyd.
47I asesu'r ddarpariaeth tai ym Mhen-y-bont a Chymru, cyfrifwyd cymhareb wrth rannu'r swm o dai fforddiadwy a gyflawnwyd, gyda nifer cyfartalog aelwydydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru. Mae hyn yn dilyn y dull a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu cyfradd tai fforddiadwy ychwanegol ar draws awdurdodau lleol Cymreig.

**Yn gadarnhaol i lesiant economaidd a llewyrch Pen-y-bont ar Ogwr, mae gan yr ardal gyfradd uwch o enedigaethau busnes a chymhareb debyg o enedigaethau busnes i farwolaethau busnes megis ar draws Cymru.**

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfradd debyg o enedigaethau busnes fesul marwolaethau busnes â Chymru, ond cyfradd is o farwolaethau busnes fesul poblogaeth, sy'n awgrymu bod potensial i gychwyniadau a busnesau bach yn yr ardal.

Tabl 12 Genedigaethau busnes, marwolaethau busnes a chymhareb o enedigaethau busnes fesul marwolaeth.

| Fesul nifer o fusnesau gweithredol | **Genedigaethau busnes** | | **Marwolaethau busnes** | | **Cymhareb o enedigaethau busnes fesul marwolaeth** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **2010** | **2014** | **2010** | **2014** | **2010** | **2014** |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 8.9 | 14.4 | 11.1 | 9.4 | 3.3 | 6.6 |
| **Cymru** | 8.3 | 12.3 | 10.2 | 9.2 | 3.8 | 6.4 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru: Cyfradd marwolaeth busnes (cyfradd marwolaeth fel canran o fusnesau gweithredol)*[48] *a Chyfradd Genedigaeth Busnes (Cyfradd genedigaeth fel canran o fusnesau gweithredol).*[49]

Roedd gostyngiad cyffredinol yng nghyfradd marwolaethau busnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng 2010 a 2014, ond daliodd i weld cyfradd uwch o farwolaethau busnes (fesul nifer o fusnesau gweithredol) na Chymru ym mhob un o'r blynyddoedd hyn.[50]

Yn ychwanegol at y darlun cadarnhaol hwn, canfu adroddiad diweddar bod 41 y cant o fusnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn adrodd eu bod wedi cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd, a chyflwynodd 20 y cant brosesau newydd, yn y 12 mis cyn yr arolwg. Ymhellach, datganodd 39 y cant eu bod yn bwriadu cyflwyno cynhyrchion a gwasanaethau newydd dros y 12 mis nesaf, tra bo 21 y cant yn cynllunio i gyflwyno prosesau newydd.[51]

Canfu'r ymchwil hefyd bod cyfraddau 'cychwyn' a stoc busnesau ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu'n arwyddocaol yn y tair blynedd diwethaf tra bo bron tri chwarter (72 y cant) o'r busnesau a arolygwyd yn adrodd eu bod naill ai'n 'fwy gobeithiol' neu 'yr un mor obeithiol' â 12 mis yn ôl am ymgymryd â gweithgareddau busnes ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

## Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Economaidd

Disgwylir i nifer o ddatblygiadau gael effaith cadarnhaol ar lesiant economaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol, nid y lleiaf ohonynt Rhanbarth Prifddinas Caerdydd (CCR) Bargen Dinas, fydd yn gweld £1.2 biliwn yn cael ei fuddsoddi i mewn i economi De Cymru, yn enwedig i isadeiledd trafnidiaeth a datblygiad y sector ICT.[52] Mae Pen-y-bont ar Ogwr,

48 Ystadegau Cymru, Cyfradd marwolaeth busnes (cyfradd marwolaeth fel canran o fusnesau gweithredol).
49 Ystadegau Cymru, Cyfradd marwolaeth busnes (cyfradd marwolaeth fel canran o fusnesau gweithredol).
50 Ystadegau Cymru, Cyfradd marwolaeth busnes (cyfradd marwolaeth fel canran o fusnesau gweithredol).
51 Wavehill (2016) Ymchwil Busnes Pen-y-bont ar Ogwr. Dylid nodi bod yr arolwg wedi'i wneud cyn Refferendwm yr UE ym Mehefin 2016.
52 Gov.UK, Bargen Dinas: Rhanbarth Prifddinas Caerdydd

gyda'i sylfaen mentergarwch cryf, felly mewn safle da i fanteisio ar y datblygiadau hyn, er bod cymwysterau cymharol isel ei gweithlu yn destun pryder.

Er y gellir ystyried tai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 'ased' i lesiant economaidd yr ardal, mae fforddiadwyedd cymharol tai wedi gostwng a dod yn agosach at y cyfartaledd Cymreig yn y blynyddoedd diweddar, gan awgrymu y daw llety yn faich ariannol mwy i drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol agos.

Mae disgwyl i ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd hefyd gael effaith economaidd ar Ben-y-bont ar Ogwr, er y bydd hyn yn dibynnu i raddau helaeth ar delerau gadael. Hyd y bydd y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n ymddangos yn debygol y bydd unrhyw raglenni neu gynlluniau sy'n dibynnu ar gyllid Undeb Ewropeaidd yn parhau.

## Themau sy'n codi o ran Llesiant Economaidd

### Cryfderau

- Cyfraddau uchel o gyflogaeth a gweithgaredd economaidd
- Niferoedd o bobl ifanc sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant yn gostwng
- Mae cyrhaeddiad addysgol plant oed ysgol yn gwella
- Cyfleoedd da i Gychwyn Busnes

### Heriau

- Mae pobl o oedran gweithio yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr yn llai cymwys na'r cyfartaledd Cymreig
- Er yn gostwng, mae nifer uchel o gartrefi heb waith o hyd ym Mhenybont-ar-Ogwr
- Prinder cyfleoedd economaidd i bobl ifanc
- Rhaniad mewn llesiant economaidd

# Llesiant Amgylcheddol

## Crynodeb o Lesiant Amgylcheddol

Mae ansawdd y tirwedd yn ddylanwad allweddol ar lesiant amgylcheddol, gyda mynediad at arfordir, coedwigaeth, afonydd, bryniau neu barcdir yn darparu hwb arwyddocaol i lesiant a thwristiaeth. Roedd cerdded a seiclo ar hyd yr arfordir, mewn parciau neu ar y bryniau oll yn cael eu hystyried yn werthfawr yn nhermau eu cyfraniad at lesiant. Mewn rhai cymunedau, roedd tlodi economaidd cymharol yn cael ei wrthbwyso i raddau gan ansawdd uchel y tirwedd corfforol. Yn anffodus, mae llawer o ganol trefi a'r amgylchedd adeiledig yn yr ardal yn methu â chyrraedd y safonau hyn. Teimlai llawer o randdeiliaid nad oeddent yn gallu teimlo'n falch o'u trefi lleol fel y safant, gyda siopau'n cau, safonau cynnal a chadw gwael a gormod o drafnidiaeth sy'n rhwystrau i bobl rhag defnyddio'r ardaloedd hyn yn llawn.

Roedd beirniadaeth eang ar raddfa gadael sbwriel a thipio anghyfreithlon yn yr ardal ac awydd i weld cosbau cryfach i'r rheini sy'n troseddu yn y dull hwn.

Mae canfyddiad o lefelau uwch o graffiti a fandaliaeth ym Mhen-y- bont ar Ogwr na'r cyfartaledd Cymreig a phryderon am gynnal a chadw'r amgylchedd. Mae'r ardal yn llusgo y tu ôl i Gymru yn nhermau lefelau'r gwastraff trefol a ailgylchir, er bod yn arwyddocaol well na'r cyfartaledd o'r blaen.

Mae perygl arwyddocaol o afonydd yn gorlifo yn yr ardal, yn enwedig ym Maesteg. I wrthweithio gorlifo a newid hinsawdd yn y dyfodol, bydd dichonolrwydd cynlluniau rheoli llifogydd yn cael eu hasesu yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae ansawdd dŵr ymdrochi yn ardderchog a thraethau yn darparu adnodd hamdden ac economaidd gwerthfawr i'r gymuned leol.

Mae gan y Fwrdeistref Sirol ddau gorff dŵr codi a ystyrir yn wael o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, tair ardal lle mae dŵr codi yn agored i niwed gan lygredd ac un Parth Agored i niwed gan Nitrad a gynlluniwyd i atal llygredd dŵr codi. Mae rheoli ansawdd dŵr yn fater allweddol i iechyd tymor hir y boblogaeth a'r amgylchedd yn y Fwrdeistref Sirol.

Mae gollyngiadau C02 o fewn y Fwrdeistref Sirol yn dangos lefelau fesul trigolyn o dan y cyfartaledd Cymreig er bod angen gwneud gostyngiadau ychwanegol i gyfrannu at reoli newid hinsawdd. Mae cynhyrchu ynni adnewyddadwy yn unol â'r cyfartaledd Cymreig er bod angen datblygu capasiti adnewyddol i'r dyfodol.

Mae ansawdd yr aer yn broblem ar draws y DU, sy'n achosi 40,000 o farwolaethau ychwanegol pob blwyddyn. Mae ansawdd yr aer yn broblem ar hyd coridor yr M4 ac mewn mannau â phroblemau o fewn y Fwrdeistref Sirol. Bydd lleihau defnydd car, cynyddu defnydd trafnidiaeth cyhoeddus a cherdded neu seiclo yn helpu i fynd i'r afael â llygredd aer ac yn annog pobl i fod yn fwy heini. Bydd gwyrddu canol trefi a phlannu mwy o goed hefyd yn gwella ansawdd yr amgylchedd adeiledig ac yn gwella ansawdd yr aer.

## Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Amgylcheddol


Cysylltodd trigolion Pen-y-bont ar Ogwr lesiant amgylcheddol gyda glendid a diogelwch eu hardal leol, a mynediad at ofodau gwyrdd. Cyfeiriodd bron traean o'r ymatebwyr (31 y cant)

at faterion fel amgylchedd glân neu amgylchedd diogel wrth ddisgrifio beth oedd llesiant yn ei olygu iddynt, gyda 29 y cant o'r ymatebwyr yn ei gysylltu â gofod awyr agored.[53]

Pan ofynnwyd am ffactorau sy'n gwella'u llesiant amgylcheddol, siaradodd trigolion mewn termau ehangach a chrybwyll rheoli adnoddau (hynny yw ailgylchu a sbwriel), mynediad at ardaloedd arfordirol a chynnal gwell mynediad at gyfleusterau a gofodau naturiol.

Canolbwynt ymatebion trigolion ar lesiant amgylcheddol oedd ansawdd amgylcheddol lleol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydnabod bod angen ystyried materion amgylcheddol ehangach ar raddfa ranbarthol, cenedlaethol a byd-eang fel rhan o'r cynllun llesiant.

Ffigur 17 Ystyr llesiant amgylcheddol – Ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Ffynhonnell: *Arolwg Ar-lein.*

Ffigur 18 Ffactorau fydd yn gwella llesiant amgylcheddol – ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Ffynhonnell: *Arolwg Ar-lein*

## Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Diffiniodd ymatebwyr i'r arolwg o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr lesiant amgylcheddol mewn ffordd debyg i'r rhai mewn rhannau eraill o Ben-y-bont ar Ogwr, gyda ffocws ar fyw mewn amgylchedd glân a diogel. Dywedodd un wnaeth ymateb i'r arolwg mai ystyr llesiant amgylcheddol yw:

*'Byw mewn ardal ddiogel gyda digon o fannau glân yn yr awyr agored a llawer o lefydd i ymweld â nhw'n lleol'.*

Trafodwyd diogelwch yn yr ardaloedd lle mae pobl yn byw a gweithio, byw heb lygredd a darparu mannau gwyrdd glân; coed a pharciau. Hefyd trafododd rhai ymatebwyr gyfrifoldeb dinesig a balchder; peidio â gollwng sbwriel, gofalu am yr ardd a pheintio'r tŷ er enghraifft.

Diffiniodd un unigolyn lesiant yn nhermau;

*'Sut mae'r amgylchedd yn effeithio ar les meddyliol a chorfforol, gallai hyn fod yn fewnol ac allanol'.*

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg fod mynediad i ardaloedd gwyrdd, gwledig ac arfordirol yn ffactorau allweddol a oedd yn cyfrannu at lesiant amgylcheddol. Cyfeirid yn gyson at y rhain. Felly nid yn unig darparu meysydd yn yr awyr agored (er enghraifft, parciau, coetiroedd, meysydd chwarae plant, mynyddoedd, gwarchodfeydd natur, llwybrau cerdded a thraethau), ond mae eu lleoliad yn y gymuned yn bwysig i bobl allu ymweld â nhw'n hwylus. Tynnwyd

53 Defnyddiwyd y termau chwilio canlynol: gwyrdd, gofod, y tu allan, awyr agored, agored, natur, naturiol.

sylw gan un a ddaeth i'r gweithdy fod angen dysgu gwerthfawrogi gwerth y dirwedd naturiol arbennig oedd ar gael iddynt, a dechrau gwneud mwy o ddefnydd ohoni.

Ffactor arall a oedd yn cyfrannu at lesiant amgylcheddol oedd cyflwr a chynnal ardaloedd mwy trefol, drwy reoli sbwriel (cyn cynnwys gwm cnoi a baw cŵn), sicrhau aer glân a chael gwared ar graffiti /annog pobl i beidio â chreu graffiti. Dywedodd y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdai fod parciau ar y cyfan yn cael eu cadw'n dda yn yr ardal gymunedol hon a dywedodd un unigolyn fod darparu llefydd i fynd â'ch ci am dro'n helpu i reoli iselder unigolion a'i fod hefyd yn dod â budd o ran cydlyniant cymunedol.

Beirniadwyd canol trefi yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr o safbwynt eu gwerth amgylcheddol, gydag adeiladu adfeiliedig a siopau gwag a glaswellt yn aml angen ei dorri. Gwnaed cysylltiad gan un ymatebydd rhwng gwneud i'r amgylchedd adeiledig edrych yn fwy deniadol a dangos mwy o barch tuag at yr ardal.

Awgrymodd ymatebwyr Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr nifer o ffyrdd i wella llesiant amgylcheddol yn yr ardal gymunedol hon. Mae hyn yn groes i themâu llesiant eraill sydd â meysydd llai penodol ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus. Dyma rai o'r gwelliannau a awgrymwyd:

- Rheoli adnoddau'n well – llai o sbwriel a thipio anghyfreithlon, llai o faw cŵn, llwybrau cerdded glanach, gwasanaethau ailgylchu a gwell safle amwynder lleol (Awgrymwyd fod ciwiau hir yn arwain at broblem tipio anghyfreithlon);
- Datblygiadau priffyrdd - cynnal ffyrdd yn well, cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd preswyl; i gynyddu teimladau o ddiogelwch a lleihau sŵn;
- Sicrhau bod parciau'n aros yn agored i gael mynediad i fannau gwyrdd;
- Buddsoddi mewn cadw'r amgylchedd yn ddiogel/glân;
- Lonydd beicio diogel a mwy o lwybrau'n cysylltu ag ardaloedd preswyl, i bwrpas hamdden a gwaith;
- Cynnal a chadw ardaloedd plant yn well a mwy o lefydd diogel i blant chwarae;
- Gwell cysylltiadau cludiant cyhoeddus, yn enwedig i barciau ac ardaloedd arfordirol i sicrhau cymaint o fynediad a phosibl;
- Mwy o blismona ar strydoedd, yn enwedig i fynd i'r afael â chyffuriau, a gyda'r nos neu yn y nos; a
- Mwy o waith yn lleol, i leihau amseroedd teithio i'r gwaith a hwyluso beicio.

## Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg fod a wnelo llesiant amgylcheddol yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr â chael *'cymuned lân a diogel'* i fyw a gweithio ynddi. Roedd y trafodaethau ar y mater hwn yn cynnwys:

- amgylchedd glân, heb lygredd aer;
- darparu a chynnal mannau gwyrdd ac amgylchedd naturiol ar gyfer plant;
- ailgylchu effeithiol a hygyrch a dim sbwriel / gwastraff / tipio anghyfreithlon;
- ecosystemau iach, a;
- mannau tawel.

Yn y trafodaethau teimlai'r cyfranogwyr fod cysylltiad yr unigolyn â'r amgylchedd, megis cymryd rhan weithgar yn yr ardal yr ydych yn byw ynddi, yn agwedd bwysig o lesiant amgylcheddol. Hefyd, mewn rhai ymatebion, diffiniwyd llesiant amgylcheddol yn nhermau bod yn hygyrch a diogel i bawb, gyda phlismona effeithiol. Felly dehonglwyd y term amgylchedd mewn nifer o ffyrdd gan wahanol randdeiliaid a gymerodd ran yn yr arolwg.

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant amgylcheddol, pwysleisiodd ymatebwyr fanteision amgylchedd naturiol o ansawdd uchel, yn arbennig cael mynediad i draethau, bryniau neu lwybrau yn y wlad sy'n lân ac o ansawdd da. Hefyd ystyrir bod lonydd beicio'n elfen allweddol o annog pobl i fwynhau'r amgylchedd. Roedd garddio a thyfu cymunedol hefyd yn cael eu gwerthfawrogi gan y rhai yr ymgynghorwyd â nhw; gweithgareddau a gynigiai fudd cymdeithasol yn ogystal ag amgylcheddol.

Ystyrid bod mynediad i wasanaethau hefyd yn ffactor a oedd yn cyfrannu at lesiant amgylcheddol yn nhermau gwasanaethau ailgylchu a gwaredu gwastraff da, canol trefi glân, a digon o le i gerddwyr mewn trefi.

Yn ystod y broses ymgysylltu, gofynnwyd i ddinasyddion beth fyddai'n gwella eu llesiant amgylcheddol. Yn yr ymatebion i'r arolwg yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr trafodwyd nifer fawr o bosibiliadau yn cynnwys:

- Cerdded a beicio'n hytrach na defnyddio'r car;
- Mwy o dyfu cymunedol a rhannu cynnyrch;
- Gwella amgylcheddau naturiol i gynyddu'r mwynhad ohonynt;
- Mwy o weithgareddau cymunedol yn seiliedig ar gynlluniau amgylcheddol, i feithrin cydlyniant;
- Gwobrwyo pobl am gymryd cyfrifoldeb – efallai drwy ostyngiad yn nhreth y cyngor am gynnal mannau gwyrdd cymunedol.

Yn y gweithdai hefyd nodwyd yr angen am fwy o wasanaethau i unigolion a phobl ifanc anabl yn y gymuned; nid oes digon yn yr ardal i'w cadw'n brysur. Mae'r meysydd gwella hyn yn eithaf cyson drwy'r holl ardaloedd, ond yn berthnasol i Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Ar y cyfan roedd ardal gymunedol Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn cyd-fynd â Gogledd a Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr o ran beth yw ystyr llesiant amgylcheddol i ymatebwyr yr arolwg ar-lein. Roedd yn canolbwyntio ar fwynhau amgylchedd glân a diogel ar gyfer byw a gweithio. Hefyd soniodd ymatebwyr am ardal heb unrhyw lygredd, gyda risg isel o lifogydd, a mannau hygyrch, yn cael eu cynnal yn dda yn yr awyr agored. Roedd gan ymatebwyr yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr bersbectif ychydig yn fwy cyfannol gan ystyried materion fel bioamrywiaeth, gallu ffynnu fel bod dynol a

*'chynnal amgylchedd iach, yn y cartref, yn lleol, yn rhanbarthol ac yn fyd-eang'*.

Roedd y ffaith eu bod yn ystyried yr amgylchedd ehangach yn hytrach na dim ond yr ardal gymunedol benodol yr oedd yr unigolion yn byw ynddi yn anarferol.

Dywedodd ymatebwyr yr arolwg yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr fod cael mynediad i fannau yn yr awyr agored a gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y mannau hyn yn brif ffactorau a oedd yn cyfrannu at eu llesiant amgylcheddol. Er enghraifft, mynediad i lonydd beicio diogel (a lonydd beicio mwy penodedig i drefi) a mannau agored naturiol i'w

gweld ac ymweld â nhw; yn cynnwys ardaloedd arfordirol sydd â moroedd a thraethau glân. Cefnogwyd hyn gan y rhai a ddaeth i'r gweithdy a oedd yn sicrhau llesiant amgylcheddol drwy 'eistedd ger y môr' a gallu teithio i ymweld â gwahanol leoedd. Hefyd awgrymodd yr arolwg fod y gwaharddiad ar ysmygu mewn mannau cyhoeddus wedi cyfrannu at lesiant amgylcheddol ac roedd canfyddiad fod lefelau llygredd aer yn well yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr na mewn rhai ardaloedd eraill o'r Deyrnas Unedig.

Ymysg ffactorau cadarnhaol eraill a drafodwyd oedd lefelau isel o fandaliaeth a throseddu, a lefel briodol o fesurau atal gan yr heddlu, darparu mannau parcio am ddim a llefydd da i fwyta, yfed a chymdeithasu gyda ffrindiau.

Dywedodd rhanddeiliaid yn yr arolwg ar-lein y gellid gwneud gwelliannau i'w llesiant drwy'r datblygiadau canlynol:

- Gwell cynnal a chadw - torri gwrychoedd ac ymylon wedi gordyfu, torri a chynnal lawntiau'n rheolaidd, gofalu am fannau cyhoeddus, mannau cyhoeddus mwy lliwgar drwy blannu blodau /coed / planhigion i wella'r ardal;
- Mwy o wasanaethau / gweithgareddau i bobl ifanc gymryd rhan ynddynt;
- Gwybodaeth am fynediad 'wedi'i oruchwylio' i fannau agored a chludiant i ardaloedd;
- Mwy o ddiogelwch ar gyfer bywyd gwyllt ac adar;
- Rheoli adnoddau'n well – gwell casgliadau sbwriel a llai o sbwriel;
- Gwella diogelwch a chyfleusterau beicio (ar lonydd beicio ac oddi arnynt, cyfleusterau beicio a chawodydd diogel mewn lleoliadau strategol);

Roedd llai o ffocws ar reoli adnoddau yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr o'i gymharu â'r ddwy ardal gymunedol arall, ond mwy o ffocws ar gynnal a chadw ymylon/gwrychoedd/gwaith plannu gan yr awdurdod lleol.

## Asesiad o Lesiant Amgylcheddol

### Amgylchedd Lleol

**Mae trigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn llai bodlon bod eu hardal leol yn cael ei chynnal a chadw'n dda, yn rhydd o graffiti a fandaliaeth ac yn ddiogel i blant chwarae y tu allan na'r cyfartaledd i Gymru.**

Tabl 13 Ansawdd yr Ardal Leol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2013/14.

| | | **Cytuno (%)** | **Anghytuno (%)** | **Dim yn cytuno nac anghytuno (%)** |
|---|---|---|---|---|
| Ardal leol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda | Pen-y-bont ar Ogwr | 65 | 24 | 12 |
| | Cymru | 70 | 19 | 11 |
| Ardal leol yn rhydd o graffiti a fandaliaeth | Pen-y-bont ar Ogwr | 69 | 22 | 9 |
| | Cymru | 77 | 15 | 8 |
| Diogel i blant chwarae y tu allan yn yr ardal leol | Pen-y-bont ar Ogwr | 61 | 25 | 14 |
| | Cymru | 64 | 25 | 11 |

*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru, Ansawdd yr Ardal Leol[54].*

Yn 2013/14, cytunodd cyfran lai o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr bod eu hardal leol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda o gymharu â chyfartaledd Cymru.[55] Ymhellach, cytunodd cyfran lai o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr bod eu hardal yn rhydd o graffiti a fandaliaeth.[56]

## Gofodau Gwyrdd

Gall defnydd yr amgylchedd naturiol gefnogi gwytnwch cymdeithasol wrth ddarparu cyfleoedd i ryngweithio a chyfranogi. Mae hyn yn helpu cydlyniad cymdeithasol, ynghyd â gwella llesiant meddyliol a gweithgaredd corfforol cynyddol, a'r ddau o fudd neilltuol mewn ardaloedd mwy amddifad, lle mae gwytnwch cymdeithasol ar lefel is.[57]

Roedd gan bump ardal o Ben-y-bont ar Ogwr statws Baner Werdd yn 2016. Mae'r rhain yn cynnwys: Rhandir Wilderness, Amlosgfa Llangrallo, Parc Gwledig Bryn Garw a Pharc Lles Maesteg. Rhoddwyd y Wobr Gymuned Baner Werdd hefyd i Lyn Wilderness ym Mhorthcawl.

*Gweler Map 1. Gofodau Naturiol Gwyrdd Hygyrch ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

## Amrywiaeth Tirwedd

Gall ein profiad a rhyngweithio gyda thirwedd gael effaith gadarnhaol ar ein hiechyd a'n llesiant. Mae tirweddau deniadol, harddwch naturiol, treftadaeth ddiwylliannol yn darparu cyfleoedd a buddion i gymunedau iach, hamdden, twristiaeth a gweithgaredd economaidd.[58] Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys tirwedd naturiol amrywiol.

*Gweler Map 2. Map tir Gweledol Synhwyraidd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

## Coedwigoedd, Coedydd a Choed

Mae coetiroedd a choed yn darparu amrywiaeth o fuddion i lesiant. Maent yn helpu i reoli'n hinsawdd, yn darparu incwm a swyddi o bren a gweithgareddau eraill, yn storio carbon; yn cyfrannu at leihau llifogydd a risg llif afon isel; yn diogelu priddoedd; yn gwella ansawdd aer; yn lleihau sŵn; ac yn rheoli pla ac afiechydon. Chwaraeant ran mawr mewn peillio, ffurfio pridd, cylchu maeth, cylchu dwr a chynhyrchu ocsigen, a'r cwbl ohonynt yn hollbwysig i gefnogi'n llesiant. Mae coed hefyd yn cyfrannu at wella ein hiechyd. Mae astudiaethau wedi dangos bod cysylltiadau cadarnhaol arwyddocaol rhwng llesiant meddyliol a chorfforol a mwy o goed a gofod gwyrdd mewn ardaloedd trefol. Mae plant sy'n byw mewn ardaloedd gyda mwy o goed stryd, er enghraifft, â mynychter llai o asthma. Mae effeithiolrwydd coetiroedd a choed wrth ddarparu'r 'gwasanaethau' uchod yn dibynnu ar ei leoliad, estyniad, cyflwr a gwytnwch.

*Gweler Map 3. Map Gorchudd Coetir o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Nodweddir Pen-y-bont ar Ogwr gan goetiroedd mawr, uwchdir, conifferaidd mewn dalgylchoedd uwch afonydd a choetiroedd gwahanol llai, cymysg a llydanddail, sy'n fwy nodweddiadol o dir is, ar hyd coridor yr M4. Mae rhywfaint o hamdden ffurfiol, ond yn bennaf yn anffurfiol. Mae'r coetiroedd uwchdir mwy yn gyffredinol yn anghysbell. Nid yw gallu ein coetiroedd i ddarparu amrywiaeth o fuddion yn cael eu gwireddu oherwydd eu cyflwr gwael

54 Ystadegau Cymru, Ansawdd yr Ardal Leol.
55 Ystadegau Cymru, Ansawdd yr Ardal Leol: Mae'r ardal leol wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, gan awdurdod lleol.
56 Ystadegau Cymru, Ardal leol yn rhydd o graffiti a fandaliaeth, gan awdurdod lleol.
57 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.
58 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.

a'u natur tameidiog. Mae gwarchod coed rhag datblygu, addysgu pobl am goetiroedd ac adfer, estyn a gwella cyflwr ein coedydd yn allweddol i wireddu'r buddion hyn.

Mae coed hefyd yn chwarae rhan bwysig yn ein hamgylchedd trefol. Mae gorchudd coed trefol yn y sir, ar 15.4 y cant, yn is na'r cyfartaledd i Gymru o 16.8 y cant. Mae'r amrywiaeth o Gwm Ogwr (23.1 y cant) i Betws (5.9 y cant). Mae Porthcawl, fel ardaloedd arfordirol eraill yng Nghymru, hefyd yn gwneud yn wael ar ddim ond 6.4 y cant. Cafodd y Llynfi ei hadnabod fel un o'r ardaloedd oedd yn brin o orchudd coed ac o ganlyniad mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn datblygu cymuned goetir fawr ar y safle 70 ha o Olchdy Maesteg gynt a Glofa Coegnant mewn prosiect Coetir Ysbryd y Llynfi.[59]

## Rheoli Adnoddau

**Mae Pen-y-bont ar Ogwr ychydig y tu ôl i Gymru mewn casglu gwastraff trefol a'r canfyddiad bod yr ardal leol yn rhydd o sbwriel**

Roedd rheoli adnoddau yn ffactor allweddol a drafodwyd yn yr ymgysylltiad cyntaf yn nhermau gwasanaethau gwastraff tai a chynnal a chadw'r amgylchedd lleol yn nhermau sbwrieil. Roedd amgylchedd glân yn hanfodol i lesiant amgylcheddol fel y trafodwyd yn yr ymgysylltiad cyntaf. Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr gyfradd casglu gwastraff trefol da a chanfyddiad o ardal leol rhydd o sbwriel, ond mae'r ddau ychydig y tu ôl i'r cyfartaledd Cymreig. Fel yr awgrymwyd yn yr ymgysylltiad cyntaf, mae hyn yn faes i wella gan Ben-y-bont ar Ogwr.

Roedd glendid yr amgylchedd lleol yn thema gyson yr yr ymgysylltiad cyntaf gyda geiriau perthnasol i'r amgylchedd fod yn lanach gyda llai o sbwriel a sbwriel yn cael ei grybwyll gan tua un rhan o bump (21 y cant) o ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr. mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn datgan bod mwy na thraean (35 y cant) yn anghytuno bod yr ardal leol yn rhydd o sbwriel ym Mhen-y-bont ar Ogwr.[60] Mae hyn ychydig y tu ôl i'r cyfartaledd Cymreig o 28 y cant, sy'n awgrymu angen i ateb canfyddiad cyhoeddus o sbwriel yn yr ardal.

Ymysg pobl ifanc, roedd 81 y cant yn meddwl bod 'sbwriel a gwastraff o gwmpas y lle' yn broblem yn eu cymdogaeth, ac roedd 20 y cant yn meddwl ei bod yn broblem sylweddol.[61]

Yn ogystal â sbwriel, awgrymodd yr ymgysylltiad cyntaf bod tipio anghyfreithlon yn faes oedd yn gofyn am welliant i leihau'r nifer o ddigwyddiadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Fodd bynnag, roedd 1,086 o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi'u cofnodi ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2015/16, sydd wedi aros yn eithaf cyson ers 2013/14.[62] Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyfrif am dri y cant o'r holl ddigwyddiadau a gofnodwyd yng Nghymru (36,259), a allai fod yn lefel is na'r disgwyl.

**Mae Pen-y-bont ar Ogwr ychydig y tu ôl i Gymru mewn gwastraff trefol awdurdod lleol[63] a anfonir i'w ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn 2015/16.[64]**

Roedd canran y gwastraff a anfonwyd i'w ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio yn 59 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr a 60.2 y cant yng Nghymru. Ffigur 19 yn dangos y tueddiadau dros amser i Ben-y-bont ar Ogwr a Chymru. Yn ddiddorol, roedd Pen-y-bont ar Ogwr bum pwynt canran ar y blaen i Gymru yn 2012/13, ond yn 2015/16 mae wedi cael ei basio gan Gymru.


---

59 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.
60 Ystadegau Cymru, Ansawdd yr Ardal Leol: Ardal leol yn rhydd o sbwriel, gan awdurdod lleol.
61 Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr.
62 Ystadegau Cymru, Digwyddiadau tipio anghyfreithlon gan awdurdod lleol.
63 Mae gwastraff trefol yn cyfeirio at wastraff carttref a gesglir o ffynonellau heb fod yn gartref.
64 Sylfaen gwybodaeth, % o wastraff trefol a anfonir i'w ailailddefnyddio/ailgylchu/gompostio.

Gallai hyn awgrymu bod lle i Ben-y-bont ar Ogwr barhau i ddatblygu'r strategaeth a darpariaeth wastraff drefol, i sicrhau ei fod yn aros yn unol â Chymru. Roedd hyn yn faes a drafodwyd yn yr ymgysylltiad cyntaf ynghylch mynediad at ailgylchu mwy o ddeunyddiau, gwybodaeth am ddefnyddio'r cyfleusterau ailgylchu yn gywir ac atebion storio gwell i wastraff rhag i sbwriel chwythu yn y stryd.

Yn ddiddorol yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, roedd awydd clir o'r ymgysylltiad cyntaf am well rheolaeth adnoddau i wella llesiant amgylcheddol. Cafodd hyn hefyd ei grybwyll yn ardaloedd cymuned eraill Pen-y-bont ar Ogwr, ond roedd yn ganolbwynt llai yn yr ardaloedd hyn. Roedd gwelliannau a awgrymwyd yn cynnwys lleihad mewn sbwriel a thipio anghyfreithlon, llai o faw ci, llwybrau cerdded glân a gwasanaethau gwell i ailgylchu yn y cartref a safleoedd amwynder; gan fod y cwbl yn ffactorau i wella llesiant amgylcheddol yn yr ardal.

Ffigur 19 Canran y gwastraff trefol a anfonir i'w ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio




*Ffynhonnell: Sylfaen gwybodaeth, % o wastraff trefol a anfonir i'w ailddefnyddio/ailgylchu/compostio.*[65]

Mae'r Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol yn dangos bod Cymru wedi cynhyrchu amcangyfrif o 3.7 miliwn tunnell o wastraff, gyda 58 y cant yn cael ei baratoi i'w ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio.[66] Nid oes unrhyw ddadansoddiadau awdurdodau lleol ar gael am wastraff Diwydiannol a Masnachol.

## Perygl Llifogydd

**Mae Maesteg yn un o'r cymunedau mewn perygl mwyaf o lifogydd gan brif afonydd yn yr Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.**

Llifogydd yw'r math mwyaf mynych o drychineb 'naturiol' sy'n effeithio cartref a busnesau ac yn aml yn tarfu ar weithrediad normal cymunedau cyfan. Mae canlyniadau llifogydd nid yn unig yn ariannol, fodd bynnag, ac mae digwyddiadau llifogydd cymhedrol hyd yn oed yn gallu cael effaith arwyddocaol ar yr unigolion sy'n cael eu heffeithio am sawl blwyddyn wedi'r union ddigwyddiad llifogydd. O safbwynt iechyd, yn eithaf aml y rhai a effeithir waethaf yw'r rhai mwy bregus yn y gymdeithas.

65 Sylfaen gwybodaeth, % o wastraff trefol a anfonir i'w ailddefnyddio/ailgylchu/gompostio.
66 Cyfoeth Naturiol Cymru, Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol.

*Gweler Map 4. Map Perygl Llifogydd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Mae Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Gorllewin Cymru (FRMP) yn adnabod un o'r 10 'cymuned mewn perygl' uchaf o lifogydd (prif afon) i fod o fewn y sir, hynny yw, Maesteg. Mae cymunedau eraill sydd mewn perygl yn cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr, Cwm Ogwr, Pencoed, Pîl ac Wild Mill [Y Felin Wyllt].

Fel sy'n wir gyda llawer o'r afonydd yng nghymoedd De Cymru, yn hanesyddol mae'r Garw wedi'i newid er mwyn draenio safleoedd sbwriel hen lofeydd yn gyflym. O ganlyniad mae bioamrywiaeth wedi lleihau ac mae llifau dŵr wedi cynyddu. Felly mewn lleoliadau addas gallai ail-naturioli'r fath gyrsiau dŵr leihau perygl o lifogydd a gwella bioamrywiaeth.

Mae newid hinsawdd yn cyflwyno her sylweddol i'n rheolaeth ar berygl o lifogydd yn y dyfodol gyda'r codiad cysylltiedig yn lefel y môr, gaeafau gwlypach a digwyddiadau glaw dwysach. Gyda'r pwysau a achosir gan ddatblygu trefol cynyddol a rheolaeth ar dir gwledig, mae'n allweddol ein bod yn mabwysiadu ymagwedd integredig at y broblem. Un maes lle rydym yn weithredol wrth geisio cyfleoedd ar gyfer y dyfodol yw mewn cysylltiad â rheoli llifogydd naturiol.[67]

Yn 2014, roedd 6.5 y cant o safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn perygl o lifogydd, yn is na chyfartaledd Cymru o 10.5 y cant.[68] Roedd 1.3 y cant o safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr mewn perygl uchel o lifogydd ac roedd 2.1 o safleoedd mewn perygl canolig o lifogydd.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Nifer o safleoedd (cartrefi a busnesau) mewn perygl canolig neu uchel o lifogydd gan afonydd a'r môr.** |
| Yn 2008, roedd 4,673 o safleoedd mewn perygl sylweddol neu ganolig o lifogydd gan afonydd a'r môr ym Mhen-y-bont ar Ogwr. (2,628 o safleoedd mewn perygl canolig a 2,628 o safleoedd mewn perygl uchel.[69] |

Roedd ond ychydig o gyfeirio at y perygl o lifogydd gan breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr pan ofynnwyd iddynt am les amgylcheddol, sy'n awgrymu bod angen rhywfaint o waith i godi ymwybyddiaeth mewn cymunedau (megis Maesteg) lle mae perygl sylweddol yn bodoli.

## Ansawdd Aer

Fe wnaeth y prif weithgaredd ymgysylltu awgrymu bod mwynhau aer sy'n rhydd rhag llygredd yn cael ei weld fel rhan hanfodol o les amgylcheddol. Y sgôr grynhoad aer[70] ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr yn 2014 oedd 67 (sgôr rhwng 0 a 100) a oedd yn uwch na chyfartaledd yr holl awdurdodau lleol yng Nghymru.[71] Hon oedd y sgôr wythfed uchaf ymhlith awdurdodau lleol Cymreig, gydag ardaloedd trefol â phoblogaeth dwysach ymhlith y rhai uchaf (e.e.

67 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.
68 Infobase, y ganran o safleoedd â pherygl o lifogydd.
69 Infobase, Tebygolrwydd o lifogi safleoedd mewn perygl yn ôl y flwyddyn.
70 Mae sgôr grynhoad ansawdd aer yn ddangosydd i'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2000 (WIMD). Mae crynoadau llygredd aer yn ddata eglurder isel a amcangyfrifir trwy ddefnyddio modelau. Maent yn gyfartaleddau a amcangyfrifir dros ardal. Cafodd data ei fapio ar gyfer pob llygrydd, gyda data'r Ardal Reoli Ansawdd Aer.
71 Infobase, Allyriadau Carbon.

roedd gan Gaerdydd sgôr grynhoad aer o 100). Yn yr un modd, y sgôr allyriadau aer[72] oedd 71,[73] sy'n uwch na chyfartaledd Cymru.

## Allyriadau Carbon.

**Mae CO2 Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer pob preswylydd wedi gostwng dros amser ac mae'n sylweddol is na'r cyfartaledd Cymreig.**

Tabl 14 yn arddangos yr allyriadau carbon am 2014 ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr o gymharu â lefelau ar gyfer Cymru. Roedd allyriadau CO2 cludiant ffordd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2014 yn cyfrif am bump y cant o allyriadau Cymru. Yn yr un modd, roedd pedwar y cant o allyriadau domestig yng Nghymru'n deillio o Ben-y-bont ar Ogwr. Gellid disgwyl hyn, gyda pump y cant o boblogaeth Cymru'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Ar nodyn positif ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, roedd 6.6 tunnell yn unig o allyriadau CO2 i bob preswylydd yn 2014, o gymharu â 9.3 tunnell ledled Cymru. Rhwng 2005 a 2014, fe wnaeth allyriadau CO2 ar gyfer pob preswylydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ostwng yn unol â chyfartaledd Cymru.

Tabl 14 Allyriadau Carbon, 2014

| | Cilotunelli o allyriadau CO2 domestig | Cilotunelli o allyriadau CO2 trafnidiaeth ffordd | Cilotunelli o allyriadau CO2 | Tunelli o allyriadau CO2 ar gyfer pob preswylydd |
|---|---|---|---|---|
| Pen-y-bont ar Ogwr | 232.8 | 287.3 | 931.5 | 6.6 |
| Cymru | 5,646.3 | 6,023 | 28,705.1 | 9.3 |

*Ffynhonnell: Infobase, Allyriadau Carbon.*[74]

## Ôl Troed Ecolegol

Yn 2011, roedd yr ôl-droed ecolegol ar gyfer pob person (hectarau byd-eang) ychydig yn is ym Mhen-y-bont ar Ogwr (3.2 gha) nag yng Nghymru (3.3 gha).[75]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Ôl Troed Ecolegol Cymru** |
| Yn 2011, roedd yr ôl-droed ecolegol ar gyfer pob person (hectarau byd-eang) yn 3.2 gha ym Mhen-y-bont ar Ogwr (3.2 gha) a 3.3 yng Nghymru.[76] |

## Ynni Adnewyddadwy

**Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi gosod ynni adnewyddadwy yn unol â gweddill Cymru.**

Yn 2015, roedd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys 2,071 o osodiadau ynni adnewyddadwy, ac o'r rhai hynny roedd 99 y cant yn ffotofoltäig, roedd 0.6 yn wynt ar y tir ac roedd 3 yn osodiadau dŵr.[77] Oherwydd hynny, yn 2015 roedd 95 MW o gapasiti wedi'i osod ym Mhen-y-bont ar Ogwr – 4 o'r capasiti wedi'i osod yng Nghymru. Er bod y mwyafrif o osodiadau'n

72 Mae sgôr allyriadau aer yn ddangosydd i'r Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2000 (WIMD). Mae allyriadau llygredd aer yn ddata eglurder isel a amcangyfrifir trwy ddefnyddio modelau a llechresi allyriadau. Maent yn gyfartaleddau a amcangyfrifir dros ardal.
73 Stats Wales [Ystadegau Cymru], WIMD.
74 Infobase, Allyriadau Carbon.
75 Uned Data Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
76 Uned Data Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru
77 Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Ystadegau Adnewyddadwy.

ffotofoltäig, mae 74 y cant o gapasiti ynni adnewyddadwy yn dod o wynt ar y tir ym Mhen-y-bont ar Ogwr.[78]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Capasiti (mewn MW) y cyfarpar ynni adnewyddadwy a osodwyd** |
| Yn 2015, roedd gan Ben-y-bont ar Ogwr 95 MW o gyfarpar ynni adnewyddadwy wedi'i osod. Roedd gan Gymru 2,296.5 MW.[79] |

Yn 2015, fe wnaeth ffynonellau ynni adnewyddadwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr gynhyrchu 4 y cant o gyfanswm trydan Cymru.[80]

## Effeithlonrwydd Ynni

Yn 2016, cynhaliwyd chwech y cant o Dystysgrifau Perfformiad Ynni Cymru (EPC) ym Mhen-y-bont ar Ogwr a oedd yn cwmpasu 208,442m2 o gyfanswm wynebedd llawr.

Tabl 15 Nifer o Dystysgrifau Perfformiad Ynni gan Gymru a Phen-y-bont ar Ogwr, 2016

| | **Nifer o Gyflwyniadau** | **Cyfanswm Wynebedd Llawr (m2)** | **A** | **A+** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | 1,269 | 4,371,960 | 9 | 0 | 128 | 434 | 426 | 180 | 57 | 35 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | 77 | 208,442 | 0 | 0 | 5 | 34 | 24 | 10 | 2 | 2 |

*Ffynhonnell: Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Tablau Byw o Dystysgrifau Perfformiad Ynni Adeiladau.*[81]

Lleolir prototeip o dŷ ynni carbon-bositif 'clyfar' cyntaf y DU ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gan arddangos tŷ ynni cost-isel sy'n gallu allforio mwy o ynni i'r grid cenedlaethol nag y mae'n ei ddefnyddio.[82] Gellid defnyddio hwn ymhellach er mwyn arddangos arfer da a'r hyn y gellid ei ôl-osod i dai neu ei fabwysiadu fel arfer gorau ar gyfer adeiladau newydd yn yr ardal leol.

## Ansawdd Dŵr

**Mae ansawdd dŵr ymdrochi'n ardderchog ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae ansawdd dŵr wyneb yn gymedrol i dda, ond mae gan rai cyrff dŵr daear statws gwael**.

*Gweler Map 5. Ansawdd Dŵr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Mae afonydd, llynnoedd, dŵr wyneb, aberoedd, morlin a thraethau'n darparu buddion naturiol pwysig inni, ac mae llawer ohonynt yn cyfrannu i les cymunedau lleol a'r boblogaeth ehangach. Mae'r buddion naturiol hyn yn cynnwys mynediad i ddŵr yfed, afonydd a moroedd glân ar gyfer hamddena ac ymlacio, cynhyrchu incwm gan fusnes a diwydiant, twristiaeth, cynhyrchu ynni gwyrdd a physgota. Trwy gydweithio i wella a chynnal ansawdd yr asedau dyfrllyd hyn gallwn ni gyflenwi buddion ar gyfer yr amgylchedd, yr economi lleol, iechyd ac ansawdd bywyd.

Mae ansawdd dŵr ymdrochi'n ardderchog ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae tri thraeth ymdrochi dynodedig a fonitrir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym Mhorthcawl yn Rest Bay,

78 Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Ystadegau Adnewyddadwy.
79 Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Ystadegau Adnewyddadwy.
80 Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, Ystadegau Adnewyddadwy.
81 Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, Tablau Byw o Dystysgrifau Perfformiad Ynni Adeiladau (DEC1).
82 http://www.solcer.org/news-items/uks-first-smart-carbon-positive-energy-house/

Sandy Bay a Trecco Bay. Mae'r traethau'n darparu adnodd adloniadol gwerthfawr i'r gymuned leol. Mae ansawdd dŵr wyneb, a fesurir o dan Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, yn gymedrol i dda, mae pob corff dŵr yn cael ei samplo am amrediad o ddangosyddion biolegol ac ansawdd dŵr.

Mae rhai cyrff dŵr daear yn Ardal Unedol Pen-y-bont ar Ogwr â statws gwael o dan Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - mae Mesurau Glo Carbonifferaidd Abertawe'n methu am statws cemegol ac mae Calchfaen Carbonifferaidd Deheuol Abertawe'n methu am gemeg Ecosystemau Daearol Dibynnol Dŵr Daear. Mae tair Ardal Diogelu Tarddiad Dŵr (SPZ) sy'n ardaloedd ddynodedig â'r diben o ddiogelu adnodd dŵr daear sydd dan fygythiad. Mae un Parth Perygl Nitradau a ddynodir i atal nitradau rhag llygru'r dŵr daear.

Mae'r prif heriau i ansawdd dŵr ac ecoleg ddyfrig yn dod o lygredd gwasgaredig trefol o seilwaith carthffosiaeth Mae etifeddiaeth o lygredd o'r chwyldro diwydiannol yn arbennig o fwyngloddio yn y cymoedd a'r gwaith haearn yn Nhondu. Mae gwauth adfer cyfredol yng nglofa Margam yn cael ei fonitro ac rydym yn rhagweld y bydd cynllun trin dŵr glofa'n cael ei gomisiynu yng Nghraig Yr Aber ger Parc Slip. Mae nifer o ystadau diwydiannol ledled y sir a all fod mewn perygl o lygredd gan weithgareddau a gynhelir a sylweddau a gedwir yn y safleoedd hyn.[83]

## Cadernid Ecosystem

Mae safleoedd gwarchodedig yn gwneud cyfraniad allweddol i'n ffyniant economaidd a maent yn lleoedd ar gyfer ymchwil ac astudiaeth wyddonol, lle mae gwyddoniaeth yn arwain rheolaeth ragorol. Mae safleoedd gwarchodedig, yn arbennig y rhai hynny ar dir cyffredin neu dir mynediad agored yn ased amgylcheddol cymunedol yn darparu mynediad a chyfleoedd hamdden sy'n cyfrannu i les. Er eu bod wedi'u gwarchod o ran natur a bywyd gwyllt, maent yn darparu cysylltiad rhwng pobl a'u hamgylchedd. Hefyd gallant fod yn rhan sylfaenol o'r tirlun lleol a'i treftadaeth ddiwylliannol.

*Map 6. Ardaloedd safleoedd dynodedig neu fywyd gwyllt arbennig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Mae gan Ben-y-bont ar Ogwr 1630ha o dir gwarchodedig, 15 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAs) a 3 Ardal Arbennig ar gyfer Cadwraeth. Mae'r cynefinoedd a gynrychiolir gan yr SoDdGAs yn amrywio o dywynnau tywod i goetir hynafol a chors yr ucheldiroedd Mae'r mwyafrif o'r safleoedd gwarchodedig mewn cyflwr anffafriol sy'n golygu, er eu bod yn dal i fod o werth ecolegol anferth, bod cyflwr y safleoedd hyn yn dal i fod yn is na'r safon. Er bod swyddogion cadwraeth wedi lleihau defnydd amhriodol ac wedi annog rheolaeth bositif ar lawer o'r safleoedd hyn, mae nifer yn dal i fod mewn cyfnod adfer.

Er bod safleoedd dynodedig yn darparu diogelwch ar gyfer cynefinoedd a llochesi sy'n genedlaethol bwysig ar gyfer llawer o rywogaethau, mae'r fath safleoedd yn mynd yn fwyfwy tameidiog a llai cadarn. Ni all safleoedd dynodedig eu cynnal eu hunain ar wahân a dylid rhoi ystyriaeth i wella ardaloedd clustog a safleoedd carreg gamu. Ar hyn o bryd mae gan Ben-y-bont ar Ogwr rwydweithiau coetir da, yn cysylltu safleoedd dynodedig trwy ardaloedd eang o goetir a blannwyd. Mae'n hanfodol ceisio cyfleoedd i warchod rhwydweithiau presennol o gynefin cysylltiedig, ac ehangu'r rhain ble bynnag mae'n bosibl er mwyn caniatáu i rywogaethau symud ac i fioamrywiaeth ehangu ledled y Sir.

83 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.

Mae cynefinoedd gwerthfawr iawn eisoes yn bodoli drwy gydol y sir megis o fewn ardal Tondu (Gwarchodfa Parc Slip WTSWW), ACA Cefn Cribwr yn ACA GNG Cynffig. Dylid rhoi ystyriaeth i gysylltu'r cynefinoedd hyn trwy rwydwaith o goridorau ac ardaloedd cynefin presennol, gan y byddai hyn yn darparu cadernid ychwanegol allweddol i fioamrywiaeth leol. Hefyd dylid ystyried gwella cynefin presennol o fewn ac o gwmpas Abercynffig, Sarn a Bryncethin trwy reolaeth bositif. Hefyd gallai hyn ddarparu cysylltedd sydd ei hangen yn fawr trwy greu rhwydweithiau cynefin gwell yn cysylltu cynefinoedd a rhywogaethau Tondu/Cefn Cribwr gyda'r rhai hynny yn Nhiroedd Comin Coity Wallia/ Brynna.

Mae rhywogaethau gwarchodedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys Pathewod, Brithion y Gors, Madfallod Cribellog Dŵr a'r Llygod Dŵr.[84]

## Rheoli'r Môr a'r Arfordir

Mae ecosystemau morol o gwmpas arfordir Cymru'n bwysig i les. Mae arfordiroedd a moroedd yn cefnogi lles mewn sawl ffordd trwy ddarparu swyddi, bwyd, a chyfleoedd ar gyfer hamdden, cynhyrchu ynni, a mwynhau bywyd gwyllt, y tirlun a threftadaeth ddiwylliannol. Mae ecosystemau morol yn helpu i reoleiddio ansawdd dŵr ac aer trwy faglu, cydweddu a diraddio llygryddion. Maent yn darparu bwyd môr (pysgod a chregynbysgod) ac yn cefnogi cymunedau arfordirol cysylltiedig a diwydiannau prosesu bwyd.

*Gwelwch Fap 7. Ardaloedd dynodedig o gwmpas arfordir Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i leoli rhwng Ardal Naws Forol (MCA) Bae Abertawe a Phorthcawl, sy'n cynnwys y gylchran ysgubol raddfa fawr yn wynebu'r de a de-orllewin o MCA Bae Abertawe a Dyfroedd Morgannwg, lle mae'r ddaeareg galchfaen wedi'i datgelu mewn clogwyni creigiog yn digwydd yn ysbeidiol rhwng baeau tywodlyd bach.

Mae rhagfynegiadau ynghylch newid hinsawdd yn awgrymu cynnydd o ran lefel y môr o rhwng 0.2 ac 1 metr ar hyd morlin De Cymru. Mae erydiad arfordirol yn broses naturiol, ac er bod datblygiadau ar lan y môr wedi'u gwarchod gan amddiffynfeydd arfordirol mae angen hefyd inni ystyried sut y gall cymunedau addasu i newidiadau arfordirol. Y polisi cyfredol o dan y Cynllun Rheoli Traethlin (SMP) yw Hold the Line [Dal y Llinell] trwy gynnal ac uwchraddio amddiffynfeydd yn Trecco Bay, Sandy Bay, Traeth y Dref a Marine Drive [Rhodfa'r Môr], yn amodol ar argaeledd cyllid cyhoeddus yn y dyfodol ar gyfer erydiad arfordirol a rheoli perygl llifogydd a chyllid preifat ar gyfer datblygu arfaethedig y dyfodol yn Trecco Bay a Sandy Bay. Ar hyd diroedd blaen eraill mae'n anhebygol y bydd digon o gyfiawnhad economaidd-gymdeithasol i gyllid cyhoeddus ar gyfer erydiad arfordirol a rheoli perygl llifogydd ddarparu amddiffynfeydd newydd neu uwchraddio amddiffynfeydd presennol. Yn Y Drenewydd, cynhelir amddiffynfeydd presennol am gymaint o amser â phosibl, cyn caniatáu i'r traethlin ddatblygu'n naturiol. Ar gyfer y systemau twyni tywod, bydd polisi o ailalinio rheolaeth yn caniatáu iddynt barhau i ddatblygu'n naturiol, tra'n galluogi rheolaeth ar dwyni tywod fel bo angen.[85]

## Priddoedd ac Amaethyddiaeth

Mae cynefinoedd tir mawn yn helpu i reoleiddio ein hinsawdd a'r cylch dŵr, y ddau ohonynt yn sylfaenol i les. Mae priddoedd mawn dwfn yn bwysig ynghylch lliniaru newid hinsawdd gan eu bod yn cymryd a storio carbon atmosfferig. Gall cynefinoedd tir mawn chwarae rôl bwysig ynghylch rheoli dŵr, trwy arafu dyfroedd llifogydd a lleihau perygl llifogydd yn naturiol

84 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.
85 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.

i lawr yr afon. Trwy ryddhau dŵr yn araf yn ystod cyfnodau sych, mae tir mawn yn helpu i leihau effaith sychderau ar gyflenwadau dŵr ac ar lifau afonydd a ffrydiau. Mae mawn mewn cyflwr da'n cefnogi systemau afon glân sy'n gweithio'n dda a sy'n sylfaenol i ansawdd amgylcheddol dda. Hefyd maent yn darparu gofod gwyllt, ond hygyrch, ar gyfer gweithgareddau hamdden a maent yn rhannau annatod o'r tirlun ledled Cymru.

*Gwelwch Fap 8. Map mathau o bridd a dosbarthiad tir amaethyddol o Fwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Mae amaethyddiaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynrychioli cyfran sylweddol o ddefnydd tir yn yr ardaloedd ucheldir megis Cwm Garw a'r ardaloedd mwy gwastad megis Cwrt Coleman. Mae'n well i'w hystyried mewn tair prif ddalgylch, dalgylch Afon Cynffig - ardal a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer ffermio godro a da byw ar raddfa fawr gyda rhai safleoedd tir âr, dalgylch Ogwr uchaf - ardal o ffermio traddodiadol Cymreig ar fryniau gyda chymysgedd o wartheg cig eidion a defaid ac yn olaf, dalgylch Ogwr isaf - ardal o ffermio tir âr dwys a godro. Mae ardal fawr o Dde Corneli wedi'i dynodi fel Parth Perygl Nitradau.

Mae Parthau Perygl Nitradau (NVZs) yn ardaloedd a ddynodir fel ardaloedd sydd mewn perygl o lygredd nitradau amaethyddol. Mae'r dynodiad hwn yn cyfyngu ar y defnydd gwrteithiau a bisweiliau o fewn yr ardal er mwyn gwarchod ansawdd dŵr a phridd. Trwy gynlluniau a ariennir Gan Ewrop megis Monitro Glastir a'r Rhaglen Werthuso a nes ymlaen trwy gontractau rheoli tir Glastir, bu Cyfoeth Naturiol Cymru'n gallu dylanwadu ar, a gwella, defnydd o gwrteithiau er mwyn gwarchod priddoedd. Yn aml mae hyn wedi lleihau faint o gwrtaith oedd yn cael ei ddefnyddio'n sylweddol. Mae gan hyn fuddion lluosog megis cyflwr pridd gwell, ansawdd dŵr gwell, proffidioldeb fferm gwell yn ogystal â helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd.[86]

## Hamdden, Mynediad a Thwristiaeth

Gall hamdden awyr agored wneud cyfraniad sylweddol i iechyd corfforol a lles meddyliol y boblogaeth yng Nghymru: mae cynyddu lefelau o weithgarwch corfforol yn cael canlyniadau buddiol o ran cynyddu cyfnodau bywyd iach pobl a lleihau digwyddiadau o glefyd cronig, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd, rhai mathau o ganser, diabetes math II ac osteoporosis. Mae llawer o weithgareddau hamdden awyr agored am ddim lle maent yn cael eu defnyddio, gan alluogi i bobl gymryd rhan ar draws a rhwng cymunedau. Gall yr awyr agored gynnig cyfleoedd i bawb; a gall hyrwyddo, cyfleusterau a chyfleoedd mynediad priodol wella cynhwysiant cymdeithasol. Mae mynediad teg i'r cefn gwlad, dŵr a gofod gwyrdd yn agos at ble mae pobl yn byw yn gynyddol bwysig, gan ddarparu buddion iechyd, economaidd a chymdeithasol ar gyfer cymunedau a busnesau.

Gall cerdded a beicio chwarae rôl allweddol o ran gwasanaethu anghenion trafnidiaeth lleol a helpu i drafod y problemau a achosir gan dagfeydd, llygredd a newid hinsawdd sy'n gysylltiedig â dibyniaeth ar geir. Mae'r hyn a ddosberthir weithiau fel 'teithiau bob dydd' i'r gwaith ar droed neu ar feic yn costio llai o arian ac yn helpu i gadw pobl yn heini yn ogystal â bod yn bleserus. Weithiau gelwir y math hwn o daith yn ‘deithio gweithredol’.

*Gwelwch Fap 9. Lleoliadau Hamdden a Thwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cyfoeth Naturiol Cymru Mapiau Amgylcheddol.*

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae 554 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus ac mae'r mwyafrif o'r rhain yn llwybrau troed cyhoeddus. Mae 19 cilometr o'r cyfanswm hwn yn rhan o Lwybr Arfordir Cymru. Ar ben hynny, mae 5,983 hectar o dir mynediad (lle gall pobl gerdded

86 Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwybodaeth amgylcheddol ar gyfer asesiadau lles.

unrhyw le, yn lle gorfod cadw at lwybrau unionlin), mae 1,788 o hectarau o hyn yn goetir a reolir gan Cyfoeth Naturiol Cymru. At ei gilydd mae 23 y cant o arwynebedd Pen-y-bont ar Ogwr yn dir mynediad.

Gellir gweld gwybodaeth ynghylch cyfraddau gweithgarwch preswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn yr adran Asesiad o Les Diwylliannol.

## Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Amgylcheddol

Mae Crynodeb Cymru'r Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2017 yn amlygu'r risgiau a chyfleoedd allweddol sy'n wynebu Cymru, yn ogystal ag amlygu anghenraid rhai camau gweithredu gofynnol.[87] Er enghraifft:

- risgiau arferion rheoli tir yn gwaethygu perygl llifogydd;
- risgiau i storfeydd carbon naturiol a dal a storio carbon; a
- risgiau i rywogaethau a chynefinoedd oherwydd anallu i ymateb i amodau hinsoddol cyfnewidiol.

Mae'r rhain ond yn ychydig o'r risgiau enghreifftiol a nodwyd gan yr adroddiad y dylid eu cofio fel rhan o ystyriaethau'r dyfodol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn yr un modd, mae'r SoNaRR[88] hefyd yn darparu tystiolaeth ynghylch cyflwr adnoddau naturiol Cymru. Mae'n asesu i ba raddau mae adnoddau naturiol yng Nghymru'n cael eu rheoli'n gynaliadwy, ac yn argymell ymagwedd ragweithiol at gadernid. Hefyd fe wnaeth yr adroddiad awgrymu nifer o broblemau allweddol ynghylch rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar gyfer ecosystemau penodol, ac mae nifer o'r rhain yn berthnasol i Ben-y-bont ar Ogwr. Er enghraifft, ar ymylon arfordirol, roedd y dilynol yn broblemau a amlinellwyd yn yr SoNaRR:

- Amddiffynfeydd llifogydd arfordirol;
- Cyfraniad i nwyon tŷ gwydr a newid hinsawdd;
- Risgiau cysylltiedig â phoblogaeth a newid hinsawdd, e.e. Ansawdd aer, sŵn, tymereddau trefol a digwyddiadau llifogydd;
- Cyfleoedd ar gyfer twristiaeth, hamdden, dyframaeth ac ynni adnewyddadwy;
- Adnoddau llif nas defnyddir ddigon;
- Diffyg rheolaeth ar ddalgylch a draenio cynaliadwy ar gyfer buddion lluosog.

Bydd Y Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, a gyhoeddir ym Mawrth 2017, yn arddangos y polisïau a blaenoriaethau ar gyfer Adnoddau Naturiol, y dylid eu cymryd i gyfrif hefyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr. Hefyd bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynhyrchu pob datganiad ardal o dan adran 11 Bil yr Amgylchedd (Cymru) 2016 erbyn 2019. Bydd hyn yn hanfodol ar gyfer blaenoriaethau amgylcheddol y dyfodol.

Mae tueddiadau amgylcheddol pellach sydd wedi dod o'r adolygiad o ddata y dylid eu hystyried hefyd ar gyfer dyfodol Pen-y-bont ar Ogwr. Gallai effaith newid hinsawdd byd-eang effeithio ar y perygl llifogydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn arbennig yn ardaloedd arfordirol ac afonydd Pen-y-bont ar Ogwr. Hefyd, fel a drafodir yn aml, bydd argaeledd llai o adnoddau penodol yn canolbwyntio'r galw ar adnoddau sydd ar gael a sicrhau bod ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio ar ei lefel uchaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Hefyd, mae perygl y gallai

87 Yr CCC, Asesiad o Risgiau Newid Hinsawdd y DU 2017.
88 Cyfoeth Naturiol Cymru, SoNaRR.

rhywogaethau goresgynnol estron effeithio ar rywogaethau naturiol Cymru gan ei fod yn eu rhoi mewn perygl mwy ac yn effeithio ar fioamrywiaeth yng Nghymru.

Fel sy'n wir gyda'r themâu lles eraill, bydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd yn cael goblygiadau posibl yn y dyfodol ynghylch lles amgylcheddol. Fodd bynnag, bydd y ffaith bod Cymru wedi rhoi deddfwriaeth sylfaenol yn ei lle i warchod yr amgylchedd naturiol yn lliniaru yn erbyn unrhyw wanhad posibl o safonau amgylcheddol yn dilyn gadael yr UE.

## Themâu sy'n codi o ran Llesiant Amgylcheddol

**Cryfderau**

- Mae amgylchedd naturiol yn cyfrannu at lesiant ac yn gallu lliniaru ffactorau negyddol eraill
- Cyfleoedd i ynni adnewyddadwy
- Dwr ymdrochi ardderchog
- Balchder y gymuned yn yr amgylchedd lleol

**Heriau**

- Ailgylchu, gwastraff trefol a sbwriel
- Cymunedau mewn perygl o lifogydd
- Newid Hinsawdd
- Gwelliannau Canol Tref
- Cysylltu systemau trafnidiaeth cyhoeddus ag isadeiledd gwyrdd

# Llesiant Cymdeithasol

## Crynodeb o Lesiant Cymdeithasol

Mae llawer o nerth llesiant cymdeithasol yn deillio o ffrindiau a theulu, gydag ychydig llai o bwyslais ar gymuned nac mewn rhai ardaloedd eraill. Roedd cydbwysedd gwaith-bywyd yn her i lawer o bobl mewn gwaith a chyflwynodd hyn rwystr i lesiant cymdeithasol mewn rhai achosion. I'r rheini'n byw ar eu pennau'u hunain, yn enwedig yr henoed, mae rhwydweithiau cymdeithasol a chlybiau yn bwysig iawn. Cafodd materion ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus eu crybwyll yn aml mewn perthynas â meithrin llesiant cymdeithasol, gan fod trafnidiaeth wael yn cadarnhau rhwystrau rhag cael mynediad at wasanaethau a lleoedd.

Mae disgwyliad bywyd a disgwyliad bywyd iach yn yr ardal Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyffredinol is na chyfartaledd Cymru ac mae gwahaniaethau trawiadol rhwng disgwyliadau yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig. Mae'r bwlch hwn wedi tyfu dros y degawd diwethaf ac yn ddarlun o'r bwlch mewn cydraddoldeb ar draws Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae gan blant a phobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol iechyd yn unol â'r rheini yng Nghymru gyfan. Fodd bynnag, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn profi lefel uchel o genhedlu ymhlith pobl ifanc.

Mae oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai tebygol na'r rheini mewn lleoedd eraill i ysmygu neu gamddefnyddio alcohol neu gyffuriau. Fodd bynnag, yn baradocsaidd, mae cyfradd uwch na'r cyfartaledd o farwolaethau o afiechyd yr iau a chanser ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae gan Ben-y-bont-ar-Ogwr hanes da ar oedi wrth drosglwyddo gofal, gyda gostyngiad sylweddol yn y lefel o oedi wrth drosglwyddo dros y degawd diwethaf a lefel gyson is yn yr ardal nag yng Nghymru gyfan.

Mae cyfraddau troseddu yn isel yn y Fwrdeistref Sirol ac ychydig o bryderon sydd am ddiogelwch cymuned. Gwelir cludiant cyhoeddus fel problem gan lawer o bobl.

## Dealltwriaeth Dinasyddion o Lesiant Cymdeithasol

Pan ofynnwyd i breswylwyr Pen-y-bont-ar-Ogwr beth oeddynt yn meddwl oedd ystyr lles cymdeithasol, roedd y mwyafrif yn siarad am ryngweithio cymdeithasol gyda'r teulu, ffrindiau a'r gymuned, yn arbennig o ran sut mae rhyngweithio'n helpu pobl i fyw bywyd cyflawn a dod trwy ddigwyddiadau negyddol yn eu bywydau.

Ffigur 20 Ystyr lles cymdeithasol – Ymatebwyr Arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




Ffigur 21 Ffactorau fydd yn helpu i wella lles cymdeithasol – Ymatebwyr Arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.



*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein.* *Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein.*

## Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Diffiniodd ymatebwyr i'r arolwg o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr lesiant cymdeithasol yn bennaf yn nhermau pwyslais cryf ar gysylltiadau cymdeithasol â theulu a ffrindiau ac, i raddau llai, y gymuned ehangach. Mae llesiant cymdeithasol yn hwyluso rhyngweithio ac integreiddio ag unigolion eraill, er enghraifft:

*'Y graddau yr ydych yn teimlo ymdeimlad o berthyn a chynhwysiant cymdeithasol, ffordd o fyw dda, a ffyrdd o fyw gyda'ch gilydd, gwerthfawrogi systemau, traddodiadau a chredoau personol.'*

I nifer o ymatebwyr roedd bod yn egnïol a chael iechyd da yn ffactor a oedd yn cyfrannu at eu llesiant cymdeithasol, a gwnaed sawl cyfeiriad at fynd i'r gampfa, rhedeg a ffitrwydd corfforol. Yn ôl un enghraifft o'r arolwg roedd *'bod yn egnïol, cael ffrindiau, teulu a gweithio mewn swydd yr wyf yn credu ynddi'* oll yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol.

Cefnogwyd hyn gan y rhai a ddaeth i'r gweithdy a ddywedodd bod gwerth i hamdden ar gyfer oedolion a phlant yn yr ardal, yn cynnwys yr angen am bwll nofio a chwaraeon fel marchogaeth, saethyddiaeth, beicio a karate (yn Nantymoel). Dywedwyd bod y cynhwysiant cymdeithasol a gynigir gan y chwaraeon yma heb ei gydnabod i raddau helaeth ar hyn o bryd. Ym Maesteg, mae rygbi'n llawer mwy amlwg ac roedd hwn yn ffocws cymdeithasol i rai a ddaeth i'r gweithdy, yn ogystal â chyfle i sicrhau ffitrwydd. Hefyd, mae hobïau, gweithgareddau a chysylltiad â'r amgylchedd naturiol oll yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol yn ôl ymatebwyr yr arolwg ar-lein.

Hefyd dywedodd y rhai a ddaeth i'r gweithdy fod gwasanaeth gofal iechyd yn ffactor pwysig a oedd yn cyfrannu at lesiant cymdeithasol, oherwydd teimlid bod gan yr ardal well gwasanaethau na rhai ardaloedd eraill, gan ei bod yn agos at yr ysbyty ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bod rhestri aros byr ar gyfer apwyntiadau gyda meddygon teulu. Fodd bynnag, codwyd rhai materion ynglŷn â chymorth i bobl ifanc â phroblemau iechyd meddwl yn yr ardal.

Codwyd addysg ac addysg i oedolion yn y gweithdai fel ffactor a oedd yn hanfodol i lesiant cymdeithasol, gan eu bod yn gallu meithrin ymdeimlad o gymuned a phryder am eraill. Teimlai un a ddaeth i'r gweithdy fod dirywiad y capeli fel rhan ganolog o'r gymuned wedi effeithio y tu hwnt i fynychu addoldai gan fod y capel yn arfer bod yn ganolbwynt i bob math o weithgareddau cymdeithasol a dysgu a ddeuai â phobl at ei gilydd. Yn yr un modd, roedd y farchnad yn arfer bod yn ganolbwynt cymdeithasol i drigolion, ond roedd hon yn cael ei ddefnyddio lawer llai bellach.

Trafododd un unigolyn a ddaeth i'r gweithdy agosrwydd y gymuned ym Maesteg, ond nododd ei bod yn gallu bod yn anodd integreiddio heb gael ffordd i mewn. Nodwyd dylanwad grwpiau cymuned fel Ymddiriedolaeth Garnwen sy'n dod â'r gymuned leol at ei gilydd ac yn ffactor sy'n cyfrannu at eu llesiant cymdeithasol. Gwnaed sylw gan rywun arall fod angen i gymunedau gymryd rheolaeth o'u tynged eu hunain, yn arbennig gan fod nifer o'r rhwydweithiau cymorth drwy gyflogwyr, crefydd a chwaraeon yn llai dylanwadol nag yr oedden nhw'n arfer bod yn y gorffennol.

Yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, roedd mwy o ffocws ar y cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd o'i gymharu â Dwyrain a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr; gyda nifer o ymatebwyr yn dweud mai cael mwy o amser fyddai'n sicrhau gwelliant mwyaf yn eu llesiant cymdeithasol.

Roedd ffactorau penodol pellach y teimlai'r ymatebwyr a fyddai'n gwella llesiant cymdeithasol yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys;

- Gwella cyfleusterau gweithgarwch corfforol – costau is a gweithgareddau mwy hygyrch;
- Gwella cludiant cyhoeddus;
- Cadw llyfrgell Maesteg;
- Hyblygrwydd a lleihau oriau gwaith;
- Gweithgareddau i blant o bob cefndir cymdeithasol;
- Mwy o weithgareddau / clybiau lleol i bobl ymuno â nhw.

### Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd y diffiniad o lesiant cymdeithasol i ymatebwyr Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn debyg i'r ymateb drwy Ben-y-bont ar Ogwr yn gyffredinol, gyda ffocws ar gysylltiadau cymdeithasol â ffrindiau, teulu a'r gymuned ehangach yn cael eu hystyried yn bwysig. Dyma ddiffiniad un ymatebydd i'r arolwg:

*'(y) rhyngweithio cymdeithasol gyda ffrindiau neu grwpiau yn y gymuned sy'n rhannu'r un diddordebau, neu ymwneud â grwpiau cymorth sy'n gallu rhoi cymorth a chyngor'.*

Roedd y ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant cymdeithasol yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi pwyslais ar fod yn iach ac egnïol; *'mynd allan'* a chymryd rhan yn y gweithgareddau hyn fel rhan o rwydwaith cymdeithasol, a allai gynnig cefnogaeth i'w gilydd i hybu cyfranogiad. Dywedodd un ymatebydd fod ei lesiant cymdeithasol yn seiliedig ar;

*'Fynd i'r gampfa, cerdded, defnyddio cefn gwlad a thraethau lleol i gael ymdeimlad o les, gwneud hyn gyda theulu neu ffrindiau ...'*

I rai pobl, roedd llesiant cymdeithasol yn seiliedig ar ffactorau fel rheoli straen, teimlo'n bositif yn y gwaith neu gael eu gwerthfawrogi am eu cyfraniad i deulu neu gymdeithas.

Wrth drafod gyda rhanddeiliaid yn y gweithdai tynnwyd sylw at y ffaith fod materion tai'n gallu cael effaith ar lesiant cymdeithasol, yn nhermau prinder tai a chyflenwad tai fforddiadwy. Dywedwyd hefyd fod diffyg gwasanaethau hanfodol fel ysgolion pan adeiladir datblygiadau tai newydd yn yr ardal.

O ran ffactorau a allai wella llesiant cymdeithasol i ymatebwyr o Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, roedd materion yn cynnwys datblygu gwell cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd, mwy o gysylltiad cymdeithasol ag aelodau eraill o'r gymuned a mwy o amser i fod yng nghwmni eraill.

Dywedodd rhanddeiliaid yn y gweithdai fod mynediad i wasanaethau meddyg teulu'n her, yn enwedig yr amseroedd aros ar y ffôn a mynediad i wneud apwyntiad ar-lein. Teimlai un rhanddeiliad nad oedd ganddo reolaeth dros ei iechyd oherwydd na allai weld ei feddyg teulu penodol pan oedd angen. Hefyd yn y gweithdai, teimlai un unigolyn a weithiai fel gofalwr, nad oedd yn cael ei gefnogi'n dda o ran cydnabyddiaeth yn y gweithle am yr angen i gynnig hyblygrwydd i ofalwyr.

Roedd meysydd penodol i wella llesiant cymdeithasol yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn ôl ymatebwyr yr arolwg yn cynnwys:

- Dulliau newydd o sicrhau gweithgareddau iechyd rhatach a gwell, er enghraifft aelodaeth fwy cost effeithiol o'r gampfa a'r pwll nofio (o bosibl mynediad ar adegau tawel, er enghraifft?);
- Gofal plant am ddim neu wedi'i sybsideiddio i rieni gyda phlant dan saith oed;
- Gwell tai yn yr ardal yn arbennig ardaloedd fel y Pîl, De Corneli, Wildmill a Phencoed (yn debyg i'r model yn Nansleden yng Nghei Newydd, yn seiliedig ar egwyddorion y Tywysog Siarl ar gyfer pensaernïaeth gymunedol);
- Mwy o fuddsoddi mewn gweithgareddau cymdeithasol i blant ag anghenion ychwanegol;
- Trefnu mwy o weithgareddau cymunedol a digwyddiadau cost isel gan ddefnyddio mannau cyhoeddus fel traethau neu gefn gwlad i ddenu ymwelwyr a phobl leol.

Yn y gweithdai nodwyd hefyd fod angen gwella rhai gwasanaethau iechyd allweddol (e.e. mynediad i feddygon teulu, gwasanaethau dementia ac ysbytai) fel rhan o lesiant cymdeithasol ar gyfer unigolion yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Yn ôl ymatebion yr arolwg ar-lein, roedd canfyddiadau o ystyr llesiant cymdeithasol yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio ar gysylltiadau cymdeithasol da gyda ffrindiau a theulu:

*'cael bywyd cymdeithasol iach gyda rhwydwaith agos o ffrindiau a theulu'*

Eto, mae hyn y tu hwnt i gysylltiadau cymdeithasol i drafod integreiddio o fewn y gymuned ehangach a theimlo'n rhan o'r gymuned. Hefyd ystyrid bod llesiant cymdeithasol yn golygu gallu rhannu profiadau o arferion cymdeithasol mewn ardal gymunedol a goresgyn teimladau o unigrwydd, arwahanrwydd neu fod yn wahanol.

Siaradodd ymatebwyr i'r arolwg yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr hefyd am y ffactorau a oedd yn cyfrannu at eu llesiant cymdeithasol, gan ganolbwyntio ar ffrindiau a theulu, y gefnogaeth ganddynt a'r llesiant a ddatblygid yn ei dro drwy eu cefnogi nhw.

Fel yng Ngogledd a Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, ystyriai cyfranogwyr fod bod yn egnïol yn gorfforol ac iechyd da'n cyfrannu at lesiant cymdeithasol, ynghyd â gwirfoddoli. Nododd un a oedd yn bresennol yn y gweithdy yr amrywiaeth eang o grwpiau diddordeb sydd ar gael ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er bod canfyddiadau cyffredinol fod cysylltiadau cludiant cyhoeddus yn wael; eu bod yn mynd yn anaml ac nad oedd unrhyw wasanaeth hwyr y nos.

Awgrymodd ymatebwyr yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr feysydd gwella posibl ar gyfer eu llesiant cymdeithasol drwy gael gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i sicrhau bod ganddynt amser i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a threulio amser gyda'u cysylltiadau cymdeithasol. Ymysg meysydd penodol i'w gwella roedd:

- Mwy o weithgareddau cymdeithasol a dysgu neu wirfoddoli ar gyfer yr henoed;
- Gwell darpariaeth o gartrefi bach, fforddiadwy ar gyfer pobl hŷn;
- Gwell bwytai yn yr ardal gymunedol gyda mwy o bwyslais ar gynnyrch lleol a bwyta'n iach;
- Gwella cludiant cyhoeddus;

- Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol/chwaraeon drwy sefydlu cyfleusterau mewn cymunedau llai.

Fell mae nifer o agweddau o ddarpariaeth gwasanaeth wedi'u hamlinellu yn yr ymatebion i'r arolwg sy'n awgrymu meysydd gwella o fewn gwasanaethau yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr.

## Asesiad Llesiant Cymdeithasol

### Disgwyliad Bywyd

**Mae disgwyliad bywyd dynion a menywod ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu yn ystod blynyddoedd diweddar, ond mae'n aros yn is na chyfartaledd Cymru.**

Mae'r data ynghylch disgwyliad bywyd yn dangos bod gan ddynion neu fenywod a anwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr heddiw, ar gyfartaledd, disgwyliad bywyd byrrach na'r dyn neu fenyw gyfartalog a anwyd yng Nghymru. Y disgwyliad bywyd cyfartalog ar gyfer dynion a anwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr heddiw yw 77.2 blynedd – yn is na chyfartaledd Cymru o 78.4 blynedd a'r disgwyliad bywyd pedwaredd isaf mewn unrhyw awdurdod lleol Cymreig. Y disgwyliad bywyd cyfartalog ar gyfer menywod a anwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr heddiw yw 81.8 blynedd – yn is na chyfartaledd Cymru o 82.3 blynedd a'r seithfed isaf ymhlith awdurdodau lleol Cymreig.

Mae disgwyliad bywyd wedi cynyddu rhywfaint ar gyfer dynion a menywod fel ei gilydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a ledled Cymru rhwng 2008 a 2014, ond ar gyfer y ddau grŵp mae'r cynnydd wedi bod yn llai ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yng Nghymru gyfan.[89]

**Mae gan ddynion a menywod a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr ddisgwyliad bywyd cyfartalog sydd mwy na naw mlynedd yn fyrrach na'r rhai hynny a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf.**

Mae'r bwlch o ran disgwyliad bywyd rhwng pobl a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwy ymhlith dynion na menywod, ac ar gyfer y ddau mae'r bwlch yn fwy na chyfartaledd Cymru. Disgwylir i ddynion a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr fyw 9.2 blynedd yn hwy na'r rhai hynny a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf, ychydig yn fwy na'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 8.9 blynedd. Disgwylir i fenywod a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd lleiaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr fyw 9 blynedd yn hwy na'r rhai hynny a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf; yn fwy na'r bwlch o 7.3 blynedd, sef y cyfartaledd yng Nghymru.

Mae'r bwlch wedi cynyddu ar gyfer dynion a menywod fel ei gilydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng 2005–09 a 2009–13. Mewn cymhariaeth, ledled Cymru yn ystod yr un amserlen, fe wnaeth y bwlch gynyddu rhywfaint ar gyfer dynion ond arhosodd yr un peth ar gyfer menywod.[90]


| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Y bwlch yn nisgwyliad bywyd (blynyddoedd) ar enedigaeth menywod/dynion a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf.** |
| Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, disgwylir i **ddynion** a anwyd yn yr **ardaloedd o amddifadedd lleiaf** fyw **9.2 blynedd yn hwy** na'r rhai hynny a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd |

89 ONS, disgwyliad bywyd dynion/menywod
90 Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, Y bwlch mewn blynyddoedd yn nisgwyliad bywyd ar enedigaeth menywod/dynion (rhwng yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf a lleiaf)

mwyaf. Ledled Cymru, y bwlch yw 8.9 blynedd.
Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, disgwylir i **fenywod** a anwyd yn yr **ardaloedd o amddifadedd lleiaf** fyw **9 blynedd yn hwy** na'r rhai hynny a anwyd yn yr ardaloedd o amddifadedd mwyaf. Ledled Cymru, y bwlch yw 7.3 blynedd.

## Disgwyliad Bywyd Iach

Ffigur 22 Cymharu disgwyliad oes a disgwyliad oes iach adeg genediaeth, gyda Mynegai Goleddol Anghydraddoldeb (SII), Pen-y-bont ar Ogwr, 2005-9 a 2010-2014.




*Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ddefnyddio PHM a MYE (ONS), WHS a MALIC 2014 (LIC).*

## Gofal Iechyd

**Mae gan Ben-y-bont-ar-Ogwr hanes da ar Oedi wrth Drosglwyddo Gofal gyda chyfran gyson is na ledled Cymru.**

Mae Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToCs) yn digwydd pan atelir oedolyn sy'n glaf mewnol mewn ysbyty rhag mynd adref neu symud i gam llai aciwt o ofal, er gwaethaf y ffaith eu bod wedi'u hasesu fel rhai sy'n barod i wneud hynny. Mae'n cael effaith negyddol ar yr ysbyty (pwysau ar adnoddau) a'r claf (arhosiad hwy yn yr ysbyty a'r effeithiau posibl yn gysylltiedig â hyn),[91] ac ystyrir ei fod yn broblem arbennig ar gyfer cleifion hŷn.

Bob blwyddyn rhwng 2011/12 a 2015/16, gwelodd Pen-y-bont ar Ogwr nifer is o DToCs ar gyfer 1,000 o'r boblogaeth 75 oed a throsodd na'r cyfartaledd ledled Cymru. Ymhellach, fel a ddangosir yn


91 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal: canllaw cyflym, Cronfa'r Brenin, 2015

Ffigur 23 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar gyfer 1,000 o'r boblogaeth 75+

, ymddengys fod gwasanaethau a ddatblygwyd yn benodol gan Ben-y-bont ar Ogwr i leihau DToCs wedi bod yn llwyddiannus, gan fod y gyfran o DToCs ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng (o 2.78 i 1 ar gyfer 1000) drwy gydol y cyfnod hwn, ond ledled Cymru roedd gostyngiad bach iawn yn unig (5.03 i 4.87 ar gyfer 1000).[92]

92 Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Nifer o ddigwyddiadau oedi wrth drosglwyddo gofal (pob rheswm) (ar gyfer 1,000 o'r boblogaeth 75+)

Ffigur 23 Oedi wrth Drosglwyddo Gofal ar gyfer 1,000 o'r boblogaeth 75+




Ffynhonnell: Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru

## Genedigaethau Pwysau Annigonol

Mae tystiolaeth yn awgrymu y cysylltir pwysau isel ar enedigaeth â ffordd o fyw ac iechyd y fam, a bod pwysau isel ar enedigaeth yn cynyddu'r perygl y bydd y baban yn dioddef afiechyd cronig nes ymlaen yn ei fywyd. Mae'r MALlC yn defnyddio pwysau isel ar enedigaeth (h.y. genedigaethau o dan 2.5cg) fel un o'i ddangosyddion o amddifadedd.

Rhwng 2006 a 2015, roedd y ganran o fabanod sengl byw yn pwyso llai na 2.5cg ym Mhen-y-bont ar Ogwr (5.4 y cant) ychydig yn is nag yng Nghymru gyfan (5.5 y cant). Mae'r ffigwr hwn wedi gostwng ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru fel ei gilydd rhwng 2000 a 2015, on yn fwy ar gyfer Cymru gyfan.[93]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Canran o fabanod sengl byw yn pwyso llai na 2.5 kg** |
| Rhwng 2006 a 2015, roedd 5.4 o fabanod sengl byw a anwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn pwyso llai na 2.5cg, o gymharu â 5.5 y cant yng Nghymru gyfan. |

## Darparu Gofal Plant a Darpariaeth Chwarae

O Chwefror 2014, roedd 213 o ddarparwyr gofal plant ar gronfa ddata’r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd.[94] Roedd mwy na hanner y rhain yn ardal gymunedol Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr.

93 MALlC, Canran o fabanod sengl byw yn pwyso llai na 2.5 cg
94 Wavehill Ltd. Ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr 2014, Mawrth 2014.

Tabl 16 Nifer y darparwyr gofal plant yn ôl math ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Chwefror 2014.

| | Gyanswm | Meithrinfa ddydd | Cylch chwarae cyn-ysgol | Cylch Meithrin | Clwb ar ôl ysgol | Meithrinfa | Gwarchodwr plant | Dechrau'n Deg |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr** | **48** | **3** | **5** | **6** | **15** | **0** | **13** | **6** |
| Maesteg | 27 | 2 | 3 | 2 | 11 | 0 | 4 | 5 |
| Cwm Garw | 4 | 1 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| Cwm Ogwr | 5 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 3 | 0 |
| Pyrth y Cymoedd | 12 | 0 | 2 | 2 | 3 | 0 | 5 | 0 |
| **Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr** | **120** | **12** | **10** | **3** | **26** | **1** | **67** | **1** |
| Pencoed | 19 | 1 | 2 | 1 | 4 | 0 | 11 | 0 |
| Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr | 41 | 4 | 2 | 0 | 7 | 0 | 27 | 1 |
| Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr | 60 | 7 | 6 | 2 | 15 | 1 | 29 | 0 |
| **Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr** | **45** | **5** | **1** | **2** | **18** | **0** | **18** | **1** |
| Porthcawl | 26 | 4 | 0 | 1 | 14 | 0 | 7 | 0 |
| Cynffig a Chefn Cribrw | 19 | 1 | 1 | 1 | 4 | 0 | 11 | 1 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr Cyfanswm** | **213** | **20** | **16** | **11** | **59** | **1** | **98** | **8** |

*Ffynhonnell: Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ac Adroddiad Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant Pen-y-bont ar Ogwr 2014 ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr*

Yn unol â Rheoliadau Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (Cymru) 2012, mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnal Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae sy’n sefydlu llinell Sylfaen o ran darpariaeth chwarae ym Mhen-y-bont ar Ogwr a chyfle i ymgysylltu â dinasyddion lleol, yn arbennig plant a phobl ifanc.

## Iechyd Plant

**Mae gan blant sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr lefelau tebyg o iechyd i blant ledled Cymru gyfan.**

Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn dal i fod yn broblem sylweddol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, gyda 26.3 y cant o blant 4–5 oed yn cael eu dosbarthu fel rhai sy'n rhy drwm neu sy'n ordew yn 2014–15, sy'n debyg i'r ffigwr ar gyfer Cymru gyfan (26.2 y cant). Mae'r ffigwr hwn

wedi gostwng ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru fel ei gilydd ers 2011–12, ond roedd y gostyngiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwy (3.4 pwynt canran).[95]

Roedd y nifer gyfartalog o ddannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 mlwydd oed yn 2014-15 ychydig yn uwch ym Mhen-y-bont ar Ogwr na ledled Cymru gyfan, er gwaethaf y ffaith ei fod yn is yn 2007–08 a 2011–12. Rhwng 2007–08 a 2014–15, fe wnaeth y nifer gyfartalog syrthio'n sylweddol yng Nghymru gyfan (1.98 i 1.29), ond dim ond ychydig ym Mhen-y-bont ar Ogwr (1.68 to 1.61).[96]

## Iechyd Pobl Ifanc[97]

**Yn gyffredinol mae pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr mor iach, a mae ganddynt arferion tebyg o ran ffordd o fyw, â phobl ifanc ledled Cymru, ond mae gan Ben-y-bont ar Ogwr y gyfradd uchaf o feichiogiadau ymhlith menywod ifanc yng Nghymru.**

Mae tabl 5 yn dangos data iechyd personau ifanc ar gyfer yr ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ehangach, gan nad yw data ar gyfer yr ardal BGC ar gael ar wahân.

Tabl 17 Ymddygiadau Iechyd Pobl Ifanc, ABMUHB yn erbyn Cymru

| Dangosydd | ABMUHB (%) | Cymru (%) |
|---|---|---|
| Y ganran o bobl ifanc sy'n bwyta brecwast bum niwrnod yr wythnos | 57 | 55 |
| Y ganran o bobl ifanc sy'n gorfforol egnïol am 60 munud y diwrnod bob diwrnod | 13.5 | 15 |
| Y ganran o bobl ifanc sy'n rhy drwm/gordew | 16 | 18 |
| Y ganran o bobl ifanc sy'n hunan-adrodd statws iechyd gweddol neu wael | 17 | 20 |
| Y ganran o bobl ifanc sy'n chwarae gemau ar ddyfais am 2 awr neu fwy y dydd ar ddyddiau'r wythnos | 54 | 53 |
| Y ganran o bobl ifanc sy'n gwneud defnydd cyffredinol o gyfrifiadur am 2 awr neu fwy y dydd ar ddyddiau'r wythnos | 64 | 64 |

*Ffynhonnell: 2013/14 Ymddygiadau Iechyd mewn Plant o oedran Ysgol (HBSC) Cymru: canfyddiadau allweddol, Llywodraeth Cymru*

Mae'r data uchod yn dangos:[98]

- Mae cyfran fwy o bobl ifanc yn ABMUHB yn bwyta brecwast (mwy na gwydryn o laeth neu sudd ffrwythau) ar bum niwrnod yr wythnos ledled Cymru. Mae cyfran fwy o ddynion ifanc na menywod ifanc yn bwyta brecwast.
- Mae cyfran ychydig llai o bobl ifanc yn gorfforol egnïol am 60 munud y dydd yn ABMUHB na ledled Cymru. Mae'r gyfran yn fwy ymhlith dynion ifanc na menywod ifanc (18 i 9 y cant yn ei thro).

95 Iechyd Cyhoeddus Cymru, Canran o blant 4-5 oed sy'n rhy drwm neu sy'n ordew
96 Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru, Nifer gyfartalog o ddannedd oedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi ymhlith plant 5 mlwydd oed
97 Mae pobl ifanc yn cynnwys dynion a menywod 11–16 oed.
98 Ymddygiadau Iechyd mewn Plant o oedran Ysgol 2013-14, Y ganran o bobl ifanc sy'n bwyta brecwast bum niwrnod yr wythnos

- Mae cyfran lai o bobl ifanc yn ABMUHB yn rhy drwm/gordew na ledled Cymru, ac fe wnaeth cyfran lai yn ABMUHB adrodd bod eu hiechyd yn weddol neu wael yn unig.

Roedd pobl ifanc oedd yn ymgysylltu â'r sesiynau gweithdy'n teimlo eu bod yn gymharol egnïol: roedd bron i gyd o'r cyfranogwyr yng ngrwpiau ffocws yr ysgol yn gwneud gweithgareddau chwaraeon yn ychwanegol at eu dosbarthiadau Addysg Gorfforol gorfodol. Roedd y rhain yn amrywio o fynychu hyfforddiant rygbi neu garate dairgwaith yr wythnos i fyfyrwyr yn defnyddio campfa'r ganolfan hamdden 'bob hyn a hyn'.

Mae'r gyfran o bobl ifanc yn ABMUHB yn chwarae gemau ar ddyfais neu'n defnyddio cyfrifiadur am ddwy awr neu fwy y dydd ar ddyddiau'r wythnos yn debyg i'r un ar gyfer pobl ifanc ledled Cymru.

Roedd y bobl ifanc yr ymgynghorwyd â hwy yn ymwybodol iawn o fuddion a risgia cyfryngau cymdeithasol. Roedd myfyrwyr ysgol uwchradd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel offeryn i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a chyfoedion ac roeddynt yn gweld hyn fel rhan bwysig o les cymdeithasol.

Mae'r gyfradd o feichiogiadau ymhlith menywod o dan 18 oed ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn broblem iechyd bwysig: Yn 2014, gwelodd Pen-y-bont ar Ogwr y gyfradd uchaf o feichiogiadau ymhlith menywod 15–17 oed ar draws Cymru gyfan - 32.1 o feichiogiadau ar gyfer 1000 o bobl, o gymharu â chyfartaledd Cymru o 25.4.

Rhwng 2010 a 2014, mae'r gyfradd o feichiogiadau ymhlith y garfan hon wedi gostwng ym Mhen-y-bont ar Ogwr (o 40.4 beichiogiad ar gyfer 1000 i 32.1 beichiogiad), fel sy'n wir ledled Cymru (36.9 y cant i 25.4 y cant). Bob blwyddyn yn y cyfnod hwn, fodd bynnag, roedd y gyfradd o feichiogiadau ymhlith y garfan hon ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Hefyd roedd y gyfradd o feichiogiadau ym Mhen-y-bont ar Ogwr ymhlith benywod 13–15 oed yr uchaf yng Nghymru yn 2014 (7.5 beichiogiad ar gyfer 1000 o fenywod). Fodd bynnag, mae'r gyfradd wedi lleihau ers 2010 (pan oedd yn 10.3).[99]

## Iechyd Oedolion

**Mae gan oedolion yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr arferion iechyd tebyg, ac yn gyffredinol maent mor ymwybodol o iechyd, ag oedolion yn byw yng Nghymru gyfan.**

Tabl 18 Dangosyddion Iechyd Oedolion

| Dangosydd | Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru (Cyfartaledd) | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| Nifer gyfartalog o ddyddiau o 30 munud neu fwy o weithgarwch cymedrol i egnïol (wedi'i gapio) wedi'u hadrodd gan oedolion, oedran wedi'i safoni. | 2.2 | 2.4 | Offeryn Ein Dyfodol Iach 2015 (data 2013–14) |
| Canran o oedolion a adroddodd fwyta pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol (%) | 30 | 32 | Arolwg Iechyd Cymru (WG) (data 2014–2015) |
| Canran o oedolion y gwelwyd eu bod yn rhy drwm neu'n ordew (%) | 59 | 58 | |

Mae'r data uchod yn dangos:

99 ONS, Ystadegau Beichiogiadau

- Fe wnaeth oedolion yn byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr wneud 30 munud neu fwy o weithgarwch cymedrol i egnïol ar 2.2 diwrnod yr wythnos ar gyfartaledd, ond roedd hyn ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.[100]

Ym mhob un o'r ardaloedd cymuned, roedd preswylwyr yn cydnabod bod ymarfer corfforol yn cyfrannu i'w lles cymdeithasol, ond mae'r dystiolaeth yn dangos efallai nad ydynt yn gweithredu ar hyn. Roedd cadw'n gorfforol weithgar ac iach yn helpu cyfranogwyr i deimlo'n ymlaciedig, yn cynorthwyo cwsg ac yn gwella eu ffitrwydd corfforol cyffredinol. Hefyd soniodd preswylwyr fod ymuno â chlybiau gweithgar hefyd yn gwella eu rhwydweithiau cymdeithasol, ag un ymatebwr arolwg o Ben-y-bont ar Ogwr Dwyrain yn datgan bod eu lles cymdeithasol wedi'i adeiladu ar:

*'Mynd i'r gampfa, mynd am dro, defnyddio'r cefn gwlad a traethau lleol i gael teimlad o les, gan wneud hyn gyda'r teulu a ffrindiau...'*

Ar gyfer pobl hŷn, nodwyd cynnal lefel dda o iechyd a ffitrwydd corfforol hefyd fel rhywbeth oedd yn cyfrannu'n gryf i'w lles cymdeithasol;

*'…gall fod yn sâl ddylanwadu ar allu person i ymgysylltu â bywyd mewn ffordd bositif a boddhaus.'* - Ymatebwr i'r arolwg

Roedd lefelau da o iechyd a ffitrwydd yn fwy anodd eu cynnal ar gyfer rhai carfannau, gyda gofalwyr pobl hŷn yn dweud bod nifer o anableddau corfforol a meddyliol yn rhwystrau i ffitrwydd ymhlith y bobl roeddynt yn gofalu amdanynt. Fodd bynnag, ar yr un pryd, fe wnaeth ymatebwyr ag anabledd dysgu neu Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth adrodd am ymweld â chlybiau chwaraeon a chanolfannau hamdden lleol yn aml. Roeddynt yn tueddu i wneud y gweithgareddau hyn gyda ffrindiau a theulu; gan gryfhau eu rhwydweithiau cymdeithasol a chynnal perthnasau positif.

Ym mhob un o'r ardaloedd cymuned, fe wnaeth cyfranogwyr adrodd yr hoffent weld gwelliannau i gyfleusterau, gostyngiad mewn costau a gweithgareddau mwy hygyrch. Yn arbennig, hoffai preswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr Gorllewin weld cyfleoedd cynyddol i gymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon a chymdeithasol trwy sefydlu cyfleusterau mewn cymunedau llai. Gellir gweld rhagor o wybodaeth ar gyfleusterau chwaraeon a hamdden yn adran 0.

Roedd y ganran o oedolion yr adroddwyd eu bod wedi bwyta pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol ym Mhen-y-bont ar Ogwr (30 y cant) ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (32 y cant) yn 2014–15.[101]

Rhwng 2010–11 a 2014–15, roedd y ffigwr ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar ei isaf yn 2012–13 (26 y cant). Ers hynny, mae wedi cynyddu'n raddol, ond fe wnaeth cyfartaledd Cymru leihau ychydig yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd ffigwr Pen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfartaledd Cymru bob blwyddyn rhwng 2010–11 a 2014–15.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
| --- |
| **Canran o bersonau 16 oed ac yn hŷn a adroddodd fwyta pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol (oedran wedi'i safoni)** |
| Yn 2014–15, 30 fe wnaeth 30 y cant o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr adrodd eu bod wedi bwyta pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol. Ledled Cymru |

100 Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Offeryn Ein Dyfodol Iach 2015, Nifer gyfartalog o ddyddiau o 30 munud neu fwy o weithgarwch cymhedrol i egnïol (wedi'i gapio) wedi'u hadrodd gan oedolion, oedran wedi'i safoni
101 Llywodraeth Cymru, Arolwg Iechyd Cymru, Canran o oedolion a adroddodd fwyta pum cyfran neu fwy o ffrwythau a llysiau ar y diwrnod blaenorol

| |
|---|
| y ffigwr hwn oedd 32 y cant. |

Roedd y ganran o oedolion y gwelwyd eu bod yn rhy drwm neu'n ordew yn 2015–15 ym Mhen-y-bont ar Ogwr (59 y cant) ychydig yn fwy na chyfartaledd Cymru (58 y cant).[102]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Canran o oedolion yr adroddwyd eu bod yn rhy drwm neu'n ordew** |
| Yn 2014–15, gwelwyd bod 59 o'r boblogaeth o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhy drwm neu'n ordew. Ledled Cymru y ffigwr hwn oedd 58 y cant. |

Bob blwyddyn rhwng 2010–11 a 2014–15, roedd ffigwr Pen-y-bont ar Ogwr yn gyfartal â neu'n fwy na chyfartaledd Cymru. Mae'r ganran wedi aros yn gymharol gyson ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru fel ei gilydd yn y cyfnod hwn.

Fe wnaeth nifer o breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr arddangos ymwybyddiaeth o'r broblem hon, gan sôn am amrywiaeth o ddulliau o 'fynd yn heini' a bwyta'n iachach.

## Diogelu Plant ac Oedolion mewn Perygl

Mae diogelu’n cyfeirio at gymryd camau a chodi ymwybyddiaeth i gadw pobl yn ddiogel rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, roedd 115 o bobl rhwng 16 a 64 oed a 320 o bobl 65 oed neu hŷn yn ddioddefwyr honedig camdriniaeth yn 2013-14. Roedd hwn yn gynnydd oddi ar 2012-13, pan oedd 65 o bobl rhwng 16 a 64 oed a 160 o bobl 65 oed neu hŷn yn ddioddefwyr honedig camdriniaeth. Mae mwy o wybodaeth am Ddiogelu a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid yn Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol.[103]

## Iechyd Meddwl

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn diffinio iechyd meddwl fel ‘cyflwr lles lle mae pob unigolyn yn sylweddoli ei botensial ef neu hi, yn gallu ymdopi â straen arferol bywyd, yn gallu gweithio’n gynhyrchiol a llwyddiannus, ac yn gallu gwneud cyfraniad i’w gymuned ef neu ei chymuned hi.[104]

Yng Nghymru, bydd un allan o bob pedwar oedolyn yn profi rhyw fath o broblem neu salwch meddwl yn ystod eu hoes. Rhagwelir bod 27,095 o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cael o leiaf un anhwylder meddwl yn 2015, a bydd y nifer hwn yn cynyddu i 27,289 yn 2035. I gael mwy o wybodaeth am Iechyd Meddwl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, edrychwch ar Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol.[105]

## Dewisiadau Ffordd o Fyw Oedolion

Tabl 19 Dangoswyr Ffordd o Fyw Oedolion

| Dangosydd | Pen-y-bont ar Ogwr | Cymru (Cyfartaledd) | Ffynhonnell |
|---|---|---|---|
| Canran o oedolion a adroddodd eu bod yn smygwr cyfredol (%) | 18 | 20 | Arolwg Iechyd Cymru (WG) (data 2014–2015) |
| Canran o oedolion a adroddodd am oryfed mewn pyliau ar o leiaf | 25 | 24 | Arolwg Iechyd Cymru (WG) |

102 Llywodraeth Cymru, Canran o oedolion y gwelwyd eu bod yn rhy drwm neu'n ordew
103 Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol, Diogelu a Threfniadau Diogelu Rhag Colli Rhyddid, 2017.
104 World Health Organisation, Mental Health Factfile, August 2014.
105 Western Bay Population Assessment, Mental Health, 2017.

| | | | |
|---|---|---|---|
| un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf (%) | | | (data 2014–2015) |
| Canran o oedolion yn yfed mwy na'r canllawiau dyddiol (%) | 39 | 40 | Arolwg Iechyd Cymru (WG) (data 2014–2015) |
| Cyfradd camddefnyddio alcohol ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth | 153 | 241 | Arolwg Gwybodeg GIG Cymru (data 2015–16) |
| Cyfradd camddefnyddio cyffuriau ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth | 137 | 215 | Arolwg Gwybodeg GIG Cymru (data 2015–16) |
| Cyfraddau Oed Safonedig Ewropeaidd ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyniadau gan gyffuriau anghyfreithlon a enwyd (fesul 100,000) | 102 | 120 | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Cyfraddau Oed Safonedig Ewropeaidd ar gyfer derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyniadau gan opiodau (fesul 100,000) | 32 | 48 | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru, Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau, Iechyd Cyhoeddus Cymru |

Yn 2014-15, adroddodd canran is o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr eu bod yn ysmygu ar hyn o bryd (18 y cant) nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd (20 y cant).[106]

Rhwng 2010-11 a 2014-15, fe disgynnodd y ganran uchod ym Mhen-y-bont ar Ogwr (o 23 i 18 y cant) ac ar draws Cymru (o 23 i 20 y cant). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd canran yr ysmygwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gyfartal neu'n llai na chanran yr ysmygwyr ar draws Cymru.

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Canran yr unigolion dros 16 blwydd oed a adroddodd eu bod yn ysmygwr cyfredol** |
| Yn 2014–15, adroddodd 18 y cant o oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr eu bod yn ysmygwyr. Ledled Cymru y ffigwr hwn oedd 20 y cant. |

**Mae'n llai tebygol y bod oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi eu hasesu ar gyfer camdriniaeth o alcohol neu gyffuriau.**

Yn 2014-2015, adroddodd canran ychydig yn uwch na'r arfer yng Nhymru (24 y cant) eu bod wedi goryfed mewn pyliau ar o leiaf un dydd o'r wythnos diwethaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr (25 y cant)

Rhwng 2010-11 a 2014-15, fe disgynnodd y ganran uchod ym Mhen-y-bont ar Ogwr (o 30 i 25 y cant) ac ar draws Cymru (o 27 i 24 y cant). Roedd y canran o oedolion yr oeddent yn goryfed mewn pyliau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn uwch na'r canran yng Nghymru gyfan yn

106 Llywodraeth Cymru, Holiadur Iechyd Cymru, Canran yr oedolion a adroddodd eu bod yn ysmygwyr cyfredol.

ystod y cyfnod hwn, er bod yn ymddangos bod y bwlch wedi tynhau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.[107]

Mae data lleol ar gyfer 2014/2015 hefyd yn dangos bod y gyfran o oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau dyddiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr ychydig yn is na'r lefel cenedlaethol (39 y cant, i'w gymharu â 40% ar draws Cymru)[108] Serch hynny, cydnabyddir yn gyffredinol bod holiaduron yn tanamcangyfrif yr yfed o alcohol. Mae cymariaethau o ddata'r arolwg gyda data Cyllid a Thollau EM yn awgrymu bod amcangyfrifon yr arolwg o ddefnydd yn cynrychioli rhwng 40% a 60% o'r gwir ffigur.

Mae niwed iechyd cronig o alcohol yn ganlyniad i yfed dros nifer o flynyddoedd, felly tra bod adroddiadau o'r yfed o alcohol yn dangos disgyniad, nad yw hyn wedi achosi gostyngiad o niwed i iechyd.[109]

Yn 2015-16, Pen-y-bont ar Ogwr oedd yr awdurdod lleol â'r gyfran isaf o unigolion sy'n cael mynediad i driniaeth ar gyfer camddefnyddio alcohol fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru, gyda 153 fesul 100,000; mae'r ffigwr yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 241 fesul 100,000.[110] Rhwng 2011-12 a 2015-16, roedd y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn amrywio yn sylweddol rhwng 94-198 o unigolion fesul 100,000 o'r boblogaeth, ond roedd yn is na chyfradd gyfartalog Cymru pob blwyddyn.

Yn 2015-16, roedd y gyfradd o unigolion fesul 100,000 o'r boblogaeth a gafodd mynediad at driniaeth ar gyfer camddefnyddio cyffuriau ym Mhen-y-bont ar Ogwr (137) hefyd yn llawer is na chyfartaledd Cymru (215). Eto, rhwng 2011–12 a 2015–16, roedd y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn amrywio yn sylweddol rhwng 107 a 170, ond roedd yn is na chyfradd gyfartalog Cymru pob blwyddyn.[111]

Am wybodaeth bellach ynglŷn â chamddefnyddio sylweddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr, edrychwch ar adran Iechyd/Anabledd Corfforol Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol.[112]

## Salwch a Marwolaeth

**Roedd cyfradd y marwolaethau o ganlyniad i glefyd yr afu (gan gynnwys achosion sy'n gysylltiedig ag alcohol) yn sylweddol yn uwch na chyfartaledd Cymru.**

Ar draws 2013-15, cofnodwyd y gyfradd uchaf o farwolaethau o glefyd yr iau ymhlith awdurdodau lleol Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef 28.1 fesul pob 100,000 o'r boblogaeth dan 75 oed. Cyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn oedd 21.1 o farwolaethau. Hefyd yn ystod 2013-15, cyfradd Pen-y-bont ar Ogwr o farwolaethau o ganlyniad i glefyd alcoholaidd yr afu fesul 100,000 (15) oedd yr ail uchaf yng Nghymru (10.6). [113] Er bod llai o unigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn derbyn triniaeth am gamddefnyddio alcohol a bod data yn awgrymu ei bod yn is na chyfartaledd Cymru, awgrymir gan yr uchod ei fod yn amlwg bod hanes o ddefnydd rheolaidd a pharhaus o alcohol ar draws y boblogaeth sydd wedi arwain at niwed cronig i iechyd.


107 Llywodraeth Cymru, Canran o oedolion a adroddodd am oryfed mewn pyliau ar o leiaf un diwrnod yn yr wythnos ddiwethaf
108 Llywodraeth Cymru, Canran o oedolion a adroddodd eu bod wedi goryfed mewn pyliau ar o leiaf un diwrnod o'r wythnos ddiwethaf
109 Alcohol Concern 2016
110 Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Cyfradd camddefnyddio alcohol ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth
111 Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, Cyfradd camddefnyddio cyffuriau ar gyfer pob 100,000 o'r boblogaeth
112 Iechyd, Anabledd Corfforol, Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol
113 GIG Cymru

**Roedd cyfraddau canser y cyfan yn uwch na chyfartaledd Cymru, yn enwedig ymysg dynion, tra bod nifer yr achosion o glefyd cardiofasgwlaidd ychydig yn is na'r arfer yng Nghymru gyfan.**

Cyfradd cofrestriadau canser dynion ym Mhen-y-bont ar Ogwr fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2014 oedd 721.5. Roedd y gyfradd hon yn uwch na chyfartaledd Cymru o 697.3. Cyferbynnir hyn gan gofrestriadau canser benywaidd a oedd yn un o'r cyfraddau isaf ymhlith awdurdodau lleol Cymru sef 483.4, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 560.3. Rhwng 2010 a 2014, roedd cyfradd cofrestru canser dynion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn amrywio rhwng 628 (yn 2011) a 757.5 (yn 2013), ac yr oedd yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pum mlynedd. Amrywiodd y gyfradd benywaidd rhwng 483.4 (2015) a 588.7 (2012) yn ystod y cyfnod hwn, ac yr oedd yn is na chyfartaledd Cymru mewn pedair o'r pum mlynedd.[114]

Yn 2016, gwelodd Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr y gyfran fwyaf o feddygon teulu yn rhoi diagnosis o ganser i'w gymharu â Phen-y-bont ar Ogwr yn ei gyfanrwydd, fel y dangosir yn **Error! Reference source not found.** isod. Mae'n bwysig i nodi bod yna fwy o drigolion hŷn yng ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr i'w gymharu ag ardaloedd eraill.

Ffigur 24 Diagnosis Meddygon Teulu o Ganser fel canran o bob diagnosis yn 2016, yn ôl ardaloedd cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr.




*Ffynhonnell: BIPABM*

Ym 2015, gan gyfri pob diagnosis canser y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 290.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn fwy na chyfartaledd Cymru gyfan o 278.4. Rhwng 2011 a 2015, roedd ffigwr Pen-y-bont yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn tair o'r pum mlynedd.[115] Ym 2015, gan gyfri pob clefyd cardiofasgwlaidd y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd 281.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Roedd hyn yn is na chyfartaledd Cymru gyfran, sef 289.2. Roedd y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr hefyd yn is na chyfartaledd Cymru yn 2014, ond yn uwch na'r cyfartaledd rhwng 2011 a 2013.[116] Fel y cyfryw, yn 2015 roedd canserau yn cyfri am ychydig yn fwy o farwolaethau fesul 100,000 o'r boblogaeth na chlefydau cardiofasgwlaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Ar draws 2013-15, cofnodwyd y gyfradd uchaf o farwolaethau o glefyd yr iau ymhlith awdurdodau lleol Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sef 28.1 fesul pob 100,000 o'r

114 Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru (UGACC), Cyfradd cofrestriadau canser gwrywaidd/benywaidd fesul 100,000 o'r boblogaeth
115 GIG Cymru
116 GIG Cymru

boblogaeth dan 75 oed. Cyfartaledd Cymru yn ystod y cyfnod hwn oedd 21.1 o farwolaethau. Hefyd yn ystod 2013-15, cyfradd Pen-y-bont ar Ogwr o farwolaethau o ganlyniad i glefyd alcoholaidd yr afu fesul 100,000 (15) oedd yr ail uchaf yng Nghymru (10.6).[117] Mae hyn yn syndod braidd gan ystyried y cyfraddau cymharol isel a gofnodwyd o gamddefnyddio alcohol.

## Diogelwch Cymunedol


**Mae cyfradd y troseddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn is na chyfartaledd Cymru.**

Rhwng 2011-12 a 2015-16, roedd cyfradd y troseddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr fesul 1,000 o'r boblogaeth yn is na chyfartaledd Cymru ym mhob blwyddyn ar wahân i 2014-15 pan oedd y gyfradd Pen-y-bont ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Ar wahân i 2014-15, roedd tuedd o ostyngiad yng nghyfradd y tramgwyddau ym Mhen-y-bont ar Ogwr gyda gostyngiad o 57.93 am bob 1,000 o'r Boblogaeth yn 2011-12 i 45.25 yn 2015-16.[118]

Ymysg pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr dywed 95 y cant eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth yn ystod y dydd, ond dim ond 65 a ddywed eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaeth yn ystod y nos.[119]

Mae cymhariaeth o'r troseddau a gofnodwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2006/7 a 2016/17, yn dangos bod y gyfradd troseddu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng mewn nifer o feysydd allweddol. Yn arbennig, golygir gan y gostyngiad yr oedd 1251 yn llai o ddioddefwyr o'r dwyn o gerbydau a 254 llai o ddioddefwyr byrgleriaeth.

Ffigur 25 Troseddau a Gofnodwyd ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr,2006/2007 a 2016/2017





*Ffynhonnell: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*

Yn ystod yr un cyfnod, bu gynnydd sylweddol yn yr adrodd o droseddau rhywiol ac achosion trais yn y cartref.

Ffigur 26 Troseddau Rhywiol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 2006/07 a 2016/17, a Throseddau Trais yn y Cartref, 2005/6 a 2015/16

117 GIG Cymru
118 ONS, Cyfradd y troseddau fesul 1,000 o'r boblogaeth.
119 Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr.





*Ffynhonnell: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*

Efallai y bod y cynnydd yn nifer y troseddau a gofnodwyd yn adlewyrchu cynnydd mewn ffydd a hyder y cyhoedd yn yr Heddlu a'r cymorth i ddioddefwyr a gynigir gan asiantaethau cymorth camdriniaeth ddomestig.

Ers 2007, y mae nifer yr unigolion sy'n cael eu rhoi i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr wedi gostwng. Mae'r gostyngiad hwn yn bennaf o ganlyniad i ymyriadau a chyfeirio syn cael i'w cynnig gan asiantaethau partner. Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol, ac mae ymweliadau ar y cyd a dulliau adferol yn cael eu defnyddio i geisio gwella'r niwed a wnaed i'r dioddefwr ac i sicrhau bod y dioddefwr yn ymwybodol o'i effaith, a thrwy hynny cynyddir hyder a boddhad dioddefwyr

Ffigur 27 nifer yr unigolion sy'n cael eu rhoi i mewn i'r system cyfiawnder troseddol am y tro cyntaf yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr o Dîm Troseddau Ieuenctid Bae'r Gorllewin fesul blwyddyn o 2007 i 2016





*Ffynhonnell: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*

Ni chododd drigolion Pen-y-bont ar Ogwr troseddu fel gofid arwyddocaol. Lle crybwyllwyd, trafododd gyfranogwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn aml ymddygiadau gwrthgymdeithasol yn ymwneud â chamddefnyddio alcohol mewn mannau cyhoeddus.

Adlewyrchir hyn gan ffigyrau sydd ar gael o TYYG (Tîm Ymchwilio Ymddygiad Gwrthgymdeithasol - cofnodi partneriaeth) sy'n dangos gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddwyd rhwng 01/01/15 a 31/12/16 sef 715 o achosion. Ers 2013, gostyngodd nifer y digwyddiadau a gofnodwyd yn gyson.

Ffigur 28 Nifer y digwyddiadau o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a adroddwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, 2013-2016.




*Ffynhonnell: Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr*

Ymysg pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dywedodd 59 y cant eu bod wedi yfed alcohol. Hefyd, dywedodd 3.4 y cant eu bod wedi cymryd cyffur anghyfreithlon, ac roedd 2.1 y cant wedi cymryd cyffuriau anterth cyfreithlon .[120]

Er mwyn rhoi darlun cliriach o drosedd ac anhrefn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y dyfodol, bydd BGC Pen-y-bont ar Ogwr a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio'n agos gyda Heddlu De Cymru a bydd Heddlu De Cymru a'r Comisiynydd Trosedd yn paratoi 'archwiliad o'r llinell sylfaen' erbyn canol 2018.

## Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae Llywodraeth y DU yn diffinio trais domestig a chamdriniaeth fel 'unrhyw ddigwyddiad neu batrwm o ddigwyddiadau o ymddygiad sy'n rheoli, sy'n gorfodi neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng rhai sy'n 16 oed neu hŷn sydd, neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu aelodau o'r teulu waeth beth fo'u rhyw neu rywioldeb. Gall y gamdriniaeth gynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu: seicolegol, corfforol, rhywiol, ariannol ac emosiynol'.'[121]

Oherwydd stigma sy'n gysylltiedig â thrais a chamdriniaeth ddomestig, mae'n debygol nad yw llawer o ddioddefwyr yn gofyn am help ac felly mae'n bosibl nad yw'r data sydd ar gael yn adlewyrchu pa mor gyffredin ydyw ym mhob cymuned a grŵp cymdeithasol.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae nifer o wasanaethau ar gael i'r rhai sy'n cael eu heffeithio, gan gynnwys:

- Siop Un Stop/canolfan amlasiantaeth

---

120 Bridgend Big Youth Survey.
121 UK Government, Domestic Violence and Abuse Guidance, 2016.

- Gwasanaethau Tai Argyfwng â Chymorth Dros Dro – 8 uned
- Lloches i deuluoedd ag angen ddiogelwch – llety dros dro
- Llety Symud Ymlaen/â Chymorth – 10 uned
- Gwella Diogelwch – galluogi i ddioddefwyr aros yn eu cartrefi eu hunain
- Gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc
- Gwasanaeth cwnsela.

Am fwy o wybodaeth am drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais domestig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, edrychwch ar yr adran Drais yn Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol.[122]

## Yr Ystâd Ddiogeledd

**Mae'r Ystâd Ddiogeledd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys Carchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, gyda lle i hyd at 2,000 o garcharorion gwryw Categori B.**

'Nid oes angen cadw carcharorion 'Categori B' dan yr amodau diogelwch uchaf ond dylai'r posibilrwydd o ddianc fod yn anodd iawn. Mae Carchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn cael eu rheoli'n breifat ar ran y Gwasanaeth Carchardai.

Mae'r carchar yn cynnig yn uniongyrchol Addysg, Diwydiannau, Hyfforddiant Galwedigaethol, Camddefnyddio Sylweddau, Rheoli Troseddwyr, Ymyriadau a Rhaglenni, Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Gwasanaeth Iechyd Meddwl Mewngymorth y Carchar, Y Ganolfan Adferol Gymunedol a Gofal Cymdeithasol.

I gael mwy o wybodaeth am Garchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, yn cynnwys demograffeg carcharorion a gwybodaeth am iechyd a lles emosiynol carcharorion, edrychwch ar adran yr Ystâd Ddiogelodd yn Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol.[123]

## Tai

**Roedd cyfran y ceisiadau llwyddiannus gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru. Yn ogystal, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn llai tebygol o asesu a datrys peryglon mewn cartrefi.**

Yn 2014-15, cymeradwywyd 86 y cant o geisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl ym Mhen-y-bont ar Ogwr, o'i cymharu â 99 y cant ar draws Cymru gyfan.[124]

Roedd amodau tai yn bryder i ddinasyddion Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn arbennig o ran eu lles cymdeithasol. Awgrymwyd amodau tai heriol mewn ardaloedd megis y Pîl, Corneli, Wildmill a Phencoed gan yr ymatebion i'r holiadur.

Er mwyn sicrhau bod tai yn ddiogel ar gyfer ei breswylwyr, mae awdurdodau lleol yn asesu ac, o bosibl, yn datrys materion megis risgiau gormodol sy'n codi o leithder, oerfel a pheryglon baglu. Yn 2014-15, roedd gan ddwy ran o dair y tai a aseswyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr[125] peryglon categori un,[126] megis risg o wenwyniad gan fonocsid carbon. Roedd CBS Pen-y-bont ar Ogwr yn llwyddiannus wrth weithredu i ddatrys hanner y peryglon hyn, cyfradd

122 Western Bay Population Assessment, Violence, 2017.
123 Western Bay Population Assessment, Secure Estate, 2017.
124 Llywodraeth Cymru, Nifer yr anheddau a gafodd eu gwella drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (2014-15).
125 Ystadegau Cymru, Asesiadau a oedd yn cynnwys peryglon categori 1.
126 StatsCymru, Canran yr asesiadau a oedd yn gategori 1.

datrys a oedd yn llai na'r cyfartaledd ar draws Cymru lle datryswyd tri chwarter o beryglon categori 1.

Gellir dod o hyd i asesiad o fforddiadwyedd tai preifat a darpariaeth tai fforddiadwy a thai chymdeithasol yn yr adran Economaidd Lles.

Mae tlodi tanwydd a graddau Tystysgrifau Perfformiad Ynni o eiddo ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fater pwysig sy'n ymwneud â lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd y mae rhaid ymchwilio iddo'n bellach.

### Trafnidiaeth

**Mae trigolion Pen-y-bont yn llai hapus gyda chyflwr y system drafnidiaeth yng Nghymru na chyfartaledd Cymru.**

Ar gyfartaledd, rhoddwyd sgôr o 5.5 i'r system drafnidiaeth gan drigolion Pen-y-bont ar Ogwr, y pedwerydd sgôr isaf ar y cyd ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn is na chyfartaledd Cymru o 5.9.[127] Nodwyd cyflwr cludiant cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr fel mater o bwys gan wahanol grwpiau o breswylwyr amrywiol. Siaradodd pobl hŷn yn aml am eu dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus, ond codwyd pryderon am doriadau i amserlennu sy'n gwneud dychwelyd o siwrneiau yn anos. Hefyd, fe bwysleisiodd ofalwyr, yn enwedig y rhai nad oedd yn byw gyda'r unigolyn y maent yn gofalu amdano, yr angen am drafnidiaeth gyhoeddus ddibynadwy. Tu fewn i'r ardaloedd cymunedol, roedd trigolion Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn teimlo bod ganddynt gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus well nag ardaloedd eraill ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond teimlodd rai trigolion yng ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr yr oedd y drafnidiaeth gyhoeddus yn eu hardal yn wael oherwydd ei anamlder a phrinder u gwasanaethau yn hwyr yn y nos.

Mae'n cymryd mwy o amser i deithio i feddygfa meddyg teulu, fferyllfa, swyddfa bost a chanolfan hamdden trwy ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus neu breifat ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag y cyfartaledd yng Nghymru. Er enghraifft, Yn 2013-14, roedd rhaid treulio 22 munud i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus i ganolfan hamdden ar gyfartaledd yng Nghymru, tra ym Mhen-y-bont ar Ogwr roedd rhai treulio 41 munud.[128]

**Mae gan gyfran lai o drigolion dros 60 oed gerdyn bws consesiynol na chyfartaledd Cymru.**

Mae gan gyfran lai o bobl dros 60 oed cerdyn bws consesiynol ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru. Yn 2015-16, roedd gan 85.6 y cant o drigolion dros 60 mlwydd oed Pen-y-bont ar Ogwr gerdyn bws, o'i gymharu â 93.1 y cant ar draws Cymru.[129]

## Tueddiadau y dyfodol o ran Llesiant Cymdeithasol

Bydd twf poblogaeth yn debygol o gael effaith sylweddol ar y ffactorau sy'n gysylltiedig â lles cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Erbyn 2039, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu i 3,280,000 o bobl - cynnydd o 6.1 y cant - a ragwelir y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu gan 44 y cant.[130]

Bydd y boblogaeth fwy a hŷn yn peri her ddifrifol i les cymdeithasol pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac ar draws Cymru. Bydd y herion hyn yn ymwneud â:

127 Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2013-14: Cludiant
128 Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru, Amser ar gyfartaledd a gymerir gan gludiant cyhoeddus/preifat i deithio i feddygfa meddyg teulu/ swyddfa bost/ canolfan hamdden
129 Llywodraeth Cymru, Deiliaid cerdyn bws consesiynol 60+ (%)
130 ONS Amcanestyniadau Poblogaeth Cenedlaethol, 2015

- gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol,
- systemau cludiant cyhoeddus,
- stoc dai (preifat a chymdeithasol)
- cydnerthu cymunedol,
- cymunedau o blaid pobl hŷn,
- unigrwydd ac arwahanrwydd.

Mae cyfleoedd ar gyfer gwell systemau trafnidiaeth yn cael eu trafod ar hyn y bryd. Gall Pen-y-bont ar Ogwr elwa'n fawr o Fetro De Cymru[131] ac o drydaneiddio pellach o reilffyrdd. Bydd y Metro yn darparu ffordd gyflym i deithio o fewn De Cymru a'r cymoedd gan gysylltu ardaloedd fel Sir Benfro, Trefynwy a Chas-gwent Bydd trydaneiddio pellach o'r rheilffyrdd yn galluogi teithio cyflym i gyrchfannau yn genedlaethol. Galwyd am drafnidiaeth gyhoeddus hyblyg gan unigolion ymhlith cyfranogwyr y gweithdai. Efallai y bydd ceir sy'n gyrru eu hunain yn rhan allweddol wrth achosi'r gwelliant hwn, gyda phrototeipiau yn cael eu cyflwyno yn Llundain o fewn dwy flynedd gallai gwasanaeth cyhoeddus hyblyg o'r newydd bod o fudd i'r ardal. Hefyd, gallai defnyddio ceir sy'n gyrru eu hunain galluogi mynediad haws i wasanaethau i bobl hŷn heb yr angen i yrru, gan arwain at y gallu iddynt fyw yn eu cartrefi am gyfnod fwy.

Wrth i'r boblogaeth cynyddu, bydd galwadau pellach ar dai. Yn ddiwylliannol, bu tuedd tuag at bobl yn byw ar eu pen eu hunain. Gyda gwell gofal iechyd, a chynnydd yn disgwyliadau oes mwy o bobl yn byw am gyfnodau mwy gyda'r potensial i'r henoed i barhau i fyw yn eu cartrefi, o ganlyniad mae mwy a mwy o'r boblogaeth yn byw yn annibynnol. Bydd rhaid cymryd camau er mwyn sicrhau y gall y stoc dai cadw i fyny gyda'r galw o ran niferoedd a mathau o dai.

Mae rhwydweithiau pobl o hyd yn newid, ond yn y blynyddoedd diwethaf y mae tuedd wedi bod i ffwrdd o rwydweithio corfforol tuag at rwydweithio digidol gyda'r twf ym mhoblogrwydd gwefannau cyfryngau cymdeithasol. Gall y tuedd hwn tuag at gymdeithas ddigidol achosi pobl hŷn i gael eu hynysu oddi wrth ddigwyddiadau cyfredol a chyfleoedd rhwydweithio.

Bu cynnydd ar straen a phwysau ymhlith plant ysgol yn y blynyddoedd diwethaf. Cofnododd ChildLine cynnydd o 9 y cant yn nifer o alwadau yn ymwneud â straen o achos arholiadau a chynnydd o 20 y cant o achos canlyniadau arholiadau wrth gymharu blwyddyn academaidd 2015-2016 a 2014-15.[132] Mae pobl ifanc yn gofidio dros siomi eu rhieni, mae ganddynt bryder dros fethu a phryderon cyffredinol sy'n gysylltiedig â chyflawniad academaidd. Mae angen sicrhau bod cefnogaeth gan ysgolion, rhieni a gwasanaethau iechyd meddwl ar waith er mwyn sicrhau bod y pwysau hyn yn cael eu rheoli.

## Themâu sy'n codi o ran Llesiant Cymdeithasol

### Cryfderau

- Ymdeimlad cryf o gymuned a rhwydwaith teulu a ffrindiau cryf
- Mae bwrgleriaeth, dwyn cerbydau ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol yn gostwng
- Trosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio yn gostwng

---

131 Llywodraeth Cymru.
132 ChildLine.

- Gordewdra plant yn gostwng

**Heriau**

- Poblogaeth yn heneiddio
- Cyfraddau cenhedlu uchel ymhlith merched o dan 18 oed
- Trafnidiaeth gyhoeddus
- Dewisiadau byw'n iach
- Cyfraddau canser yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig

# Llesiant Diwylliannol

## Crynodeb o Les diwylliannol

Llesiant diwylliannol wedi'i ganolbwyntio ar ymdeimlad o le a mynediad at hanes, traddodiadau a diwylliant Cymru. Roedd y celfyddydau, theatr, sinema a chwaraeon, fodd bynnag, yn bwyntiau mynediad allweddol i lesiant diwylliannol. Gwelwyd gwirfoddoli fel dull ardderchog o adeiladu llesiant. Roedd cefnogaeth i'r iaith Gymraeg yn gymysg, ond yn gryf iawn mewn rhai cymunedau.

Mae cyfran uchel o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith, er mae'n werth nodi yn yr ymgynghoriadau ac arolwg, mai ychydig iawn o unigolion a wnaeth unrhyw gyfeiriadau negyddol at fewnfudo o ddiwylliannau eraill ac mae hyn i'w groesawu, er nad yw'n bwyslais amlwg i'r ymchwil.

Mae cyfran cynyddol lai o bobl gyda'r gallu i siarad Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er plant rhwng 3 a 15 yw'r grŵp oedran gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yn blant rhwng 3 a 15 ac mae mwy o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry nag y mae pobl eraill ar draws Cymru.

## Dealltwriaeth Dinasyddion o Les diwylliannol

Mae ystyr y term 'lles diwylliannol' yn amrywio ymysg trigolion Pen-y-bont ar Ogwr.

Fe ddiffiniodd pedwar mewn deg o'r ymatebwyr les diwylliannol mewn termau treftadaeth, iaith, traddodiadau a chredoau, tra roedd mwy nag un o bob tri yn credu bod lles diwylliannol yn cyfeirio at y celfyddydau, theatr, a llenyddiaeth a.y.b. Mae un o bob chwech o bobl yn credu bod lles diwylliannol yn cyfeirio at chwaraeon a hamdden; tra bod tua un o bob deg yn credu bod addysg a dysgu yn agweddau ar les ddiwylliannol.

Ffigur 29 Ystyr lles diwylliannol – Ymatebwyr Arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein.*

Ffigur 30 ffactorau sy'n gwella lles diwylliannol - ymatebwyr arolwg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.




*Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein.*

### Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd y diffiniadau o lesiant diwylliannol a gynigiwyd gan ymatebwyr i'r arolwg o Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr y cyd-fynd yn gyffredinol â'r rhai o ardaloedd eraill o Ben-y-bont ar Ogwr. Roedden nhw'n canolbwyntio ar:

- Gael mynediad a chymryd rhan mewn gweithgareddau i greu ymdeimlad o berthyn i'r ardal gymunedol;
- Cael mynediad i ddarpariaeth ddiwylliannol o ran treftadaeth, celfyddydau, llyfrgelloedd, sinema, theatr a cherddoriaeth;
- Ymwneud â'r iaith Gymraeg (yn fwy na mewn rhannau eraill o Ben-y-bont ar Ogwr), hanes a diwylliant Cymru, yn cynnwys mynediad i addysg oedolion a chlybiau diddordebau lleol.

Crynhowyd hyn gan un ymatebydd fel hyn:

*'Ymdeimlad o berthyn a balchder yn fy nghymuned, fy Nghymreictod, iaith a hanes'.*

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant diwylliannol yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr, awgrymodd ymatebwyr fod dathlu treftadaeth a diwylliant Cymru'n ffactorau canolog; yn arbennig drwy '*ysgolion yn dysgu Cymraeg, dathlu Dydd Gŵyl Dewi, yr Eisteddfod Genedlaethol*' a digwyddiadau yn yr iaith Gymraeg. Roedd siarad Cymraeg, a'i gwerthfawrogi fel iaith yn bwysig i'r rhai a ddaeth i'r sesiynau galw heibio, er bod un fenyw mewn un gweithdy'n pryderu ei bod yn colli'r gallu i siarad Cymraeg am nad oedd cyfle i'w hymarfer. Cafodd yr angen am addysg barhaus i oedolion ei godi'n gyffredin fel ystyriaeth ar gyfer cynnal llesiant diwylliannol yn yr ardal.

Dywedodd un arall a ddaeth i'r gweithdai fod chwaraeon yn bwysig i'r diwylliant lleol, gan gyfeirio at nifer y clybiau rygbi yn yr ardal a'r cydlyniant cymdeithasol a grëwyd gan y sefydliadau hyn. Ystyrid bod yr ystod o gyfleoedd gwirfoddoli a chwaraeon a gynigiai'r rhain yn cyfrannu at lesiant diwylliannol yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr.

Mewn ymateb i gwestiwn yr arolwg 'pa ddau beth ydych chi'n meddwl allai wella lefel eich llesiant diwylliannol?' roedd yr ymatebion mwyaf cyffredin yn ymwneud â sicrhau mynediad i weithgareddau diwylliannol yn yr ardal. Roedd hwn yn destun pryder i rai yr ymgynghorwyd â nhw, a ddywedodd fod materion fel cyfleusterau dan fygythiad (yn arbennig llyfrgelloedd), y gost ar gyfer mynd i'r sinema neu'r theatr a'r angen am well hyrwyddo i ddarparu gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael. Amlinellir isod welliannau eraill a awgrymwyd gan ymatebwyr yr arolwg yng Ngogledd Pen-y-bont ar Ogwr.

- Mwy o ddigwyddiadau i ddod â chymunedau at ei gilydd a dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- Gwella argaeledd a'r dewis o gyrsiau addysg lleol ar gyfer oedolion;
- Datblygu mwy o weithgareddau lleol gyda'r nos yn cynnwys mewn meysydd fel llenyddiaeth ac archaeoleg;
- Mwy o wybodaeth am ddigwyddiadau yn yr ardal;
- Mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol i siaradwyr Cymraeg (oedolion a phlant)
- Cynnal llyfrgelloedd (fel Llyfrgell Maesteg).
- Mynediad rhatach i'r theatr / sinema a mwy ar gael yn lleol (yn hytrach na theithio i Gaerdydd i gael mynediad i ddiwylliant);
- Roedd y rhai a ddaeth i'r gweithdai hefyd yn pryderu ynglŷn â diffyg cyfleusterau (sinema, theatr a bowlio) a bod y llyfrgell yn symud o dan Neuadd y Dref, yn ogystal â'r diffyg cyfathrebu am y symudiad.

## Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr

Yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, dangosodd yr ymgynghoriad ddealltwriaeth eang o'r term llesiant diwylliannol. Cydnabu ymatebwyr yr arolwg ar-lein werth mynediad i weithgareddau diwylliannol, a chymryd rhan ynddynt;

*'Cael ymdeimlad o berthyn a bod yn rhan o gymuned Gymraeg'.*

Tra cydnabuwyd bod treftadaeth Gymreig yn bwysig, fel rhan o lesiant diwylliannol, ychydig o gyfeiriadau at yr iaith Gymraeg a gafwyd ar y cyfan.

Roedd ymatebwyr hefyd yn ystyried llesiant diwylliannol yn nhermau orielau celf, theatr, cerddoriaeth a digwyddiadau yn yr awyr agored, yn arbennig gyda phwyslais ar ddysgu a phrofi syniadau newydd. Crynhowyd llesiant diwylliannol gan un ymatebydd i'r arolwg ar-lein fel:

*'Unigolyn a chymunedau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden, creadigol a diwylliannol a'r rhyddid i gadw, dehongli a mynegi eu celfyddydau, hanes, treftadaeth a thraddodiadau.'*

Hefyd roedd grŵp bach o ddinasyddion a gyfeiriodd at barchu credoau a thraddodiadau – beth bynnag y bônt.

Dywedodd ymatebwyr i'r arolwg fod gwirfoddoli'n ffactor pwysig a oedd yn cyfrannu at eu llesiant diwylliannol, yn enwedig wrth wirfoddoli gyda phlant. Hefyd, gallai bod yn aelod o grŵp cymunedol fel clwb chwaraeon neu grŵp gweithgarwch wella'r cysylltiad cymdeithasol ag eraill a thrwy hynny ddatblygu ymdeimlad o feithrin llesiant diwylliannol. Yn y gweithdai gydag aelodau'r gymuned, nodwyd safleoedd hanesyddol da gerllaw, bod traethau a llwybrau cerdded ar gael yn lleol, a allai gyfrannu at eu llesiant diwylliannol yn ogystal â'u llesiant corfforol. Fodd bynnag, ystyriai nifer o bobl fod chwaraeon yn rhy gostus oherwydd costau uchel canfyddedig meysydd chwaraeon.

Roedd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwelliannau i lesiant diwylliannol yn Nwyrain Pen-y-bont sy'n cyd-fynd a'r awgrymiadau ehangach ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Roedd y rhain yn cynnwys: gwelliannau i gludiant lleol i wella mynediad i wasanaethau lleol, hefyd syniadau ynglŷn â digwyddiadau, datblygu theatr ym Mhen-y-bont ar Ogwr a mwy o hyrwyddo a chefnogaeth ar gyfer gwirfoddoli yn yr ardal. Cefnogwyd hyn gan y rhai a gymerodd ran yn y gweithdai, a nodwyd yr angen am lochesi i bobl ifanc, cyrsiau coginio a chyrsiau Cymraeg i ysbrydoli a chynnwys pobl yn yr ardal.

## Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

Roedd ymatebwyr i'r arolwg ar-lein yn fwy tebygol o drafod mynediad i wasanaethau diwylliannol mewn ymateb i gwestiwn yr arolwg ar-lein: 'Gan feddwl am lesiant diwylliannol, yn eich barn chi beth yw ystyr hyn neu at beth mae'n cyfeirio?' Ymysg y gweithgareddau a'r gwasanaethau a gysylltwyd â llesiant diwylliannol oedd llyfrgelloedd cyhoeddus, digwyddiadau cerddorol, dysgu gydol oes, amgueddfeydd, theatrau, sinemâu a chelfyddyd. Ystyrid bod gallu deall a gwerthfawrogi diwylliant, iaith a hanes Cymru'n rhan bwysig o lesiant diwylliannol, felly hefyd yr ymdeimlad mwy gweithredol o ddinasyddiaeth o ran rhannu gwerthoedd, ymddygiad ac arferion cymdeithasol gydag eraill yn y gymuned.

O ran ffactorau sy'n cyfrannu at lesiant cymdeithasol yn yr ardal, roedd pwyslais ar weithgareddau fel gwirfoddoli a'r budd yn sgil hynny i wirfoddolwyr yn ogystal â'r buddiolwyr, dathlu digwyddiadau crefyddol, mynediad i addysg, a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg.

Y prif welliannau ar gyfer llesiant diwylliannol yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a gafodd eu nodi yn yr arolwg oedd gwella mynediad i'r celfyddydau, diwylliant ac addysg a chryfhau ymdeimlad o ddiwylliant lleol:

- Mwy o ddigwyddiadau i ddathlu diwylliant;
- *'Cysylltu addysg oedolion â diwylliant yn hytrach na chyflogaeth';*
- *'Llai o apathi a mwy o gyfranogiad gan bob lefel o'r gymuned.'*
- Grwpiau drama amatur lleol i berfformio yn y Pafiliwn lleol – costau is ar gyfer archebu canolfannau;
- Mwy o arian ar gyfer llyfrgelloedd cyhoeddus a gwasanaethau llyfrgell cyfannol drwy Gymru.

Roedd dau ymateb a oedd yn cyfeirio at bryderon am ddiwylliant Cymru'n cael ei lastwreiddio gan fewnfudwyr. Nodir hyn oherwydd y ffaith eu bod yn sefyll allan fel mater nad oedd mwyafrif y rhai yr ymgynghorwyd â nhw wedi cyfeirio ato.

## Asesiad o Lesiant Diwylliannol

### Amrywiaeth Ieithyddol

**Mae cyfran uchel o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith.**

Ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, mae 98.4 y cant o bobl [133]yn defnyddio naill ai'r Saesneg neu'r Gymraeg fel eu prif iaith. Mae'r gyfran ychydig yn uwch na'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan (97.14 y cant). Yn dilyn Saesneg neu'r Gymraeg, yr iaith fwyaf cyffredin a siaredir ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd Pwyleg - prif iaith ond 0.54 y cant o drigolion - ac yna Ffilipinaidd/Tagalog - prif iaith 0.1 y cant o drigolion.

Ar draws y tair ardal gymunedol, Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yw'r mwyaf amrywiol yn ieithyddol ac mae ganddo'r gyfran uchaf o drigolion nad ydynt yn defnyddio Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith - er bod y gyfran hon o hyd yn llai na chyfran Cymru gyfan gan fod y trigolion hyn yn cyfrif am ond 2.6 y cant o boblogaeth yr ardal y gymunedol. Eto, Pwyleg yw'r brif iaith fwyaf cyffredin ar ôl Saesneg neu Gymraeg - Mae 0.98 y cant o boblogaeth Ddwyrain Pen-y-bont ar Ogwr yn ei hystyried fel eu prif iaith. Mae cyfran hyd yn oed llai o drigolion Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr a Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr - 1 y cant a 0.8 y cant yn y drefn honno - yn ystyried iaith heb law am Saesneg neu Gymraeg fel eu prif iaith.[134]

### Defnydd o'r iaith Gymraeg

**Mae cyfran gynyddol lai o bobl ym Mhen-y-bont yn gallu siarad Cymraeg Y grwp oedran gyda'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yw plant rhwng 3 a 15 blwydd oed.**

Yn 2011, roedd cyfran llai o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr gyda'r gallu i; ddeall y Gymraeg ar lafar; siarad Cymraeg, darllen Cymraeg, ysgrifennu Cymraeg; neu siarad, darllen neu ysgrifennu Cymraeg na chyfran Cymru gyfan -Er enghraifft ond 9.7 y cant redd â'r gallu i siarad Cymraeg i'w gymharu a 19 y cant yng Nghymru gyfan.[135]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|

133 'Preswylwyr arferol 3 blwydd oed a throsodd'.
134 Cyfrifiad ONS 2011, QS204EW - Prif iaith (manwl).
135 InfoBaseCymru, % y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg.

| Canran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg |
|---|
| Yn 2011, roedd gan 9.7 y cant o bobl 3+ y gallu i siarad Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr, o'i gymharu â chanran o 19 y cant ar gyfer Cymru gyfan. |

Mae cyfran y trigolion sy'n gallu siarad Cymraeg yn debyg ym mhob un o ardaloedd cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, gyda 9.8 y cant o' boblogaeth Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn gallu siarad Cymraeg, 9.6 y cant yn Nwyrain Pen-y-bont ar Ogwr, a 8.8 y cant yng Ngorllewin Pen-y-bont ar Ogwr. Efallai nad yw'n syndod, felly, bod trigolion Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr yn rhoi mwy o bwys ar ymgysylltu â'r iaith Gymraeg wrth ddiffinio lles ddiwylliannol.

Mae cyfran y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar ogwr sy'n gallu siarad Cymraeg wedi gostwng gan 1.1 y cant ers 2001, ond mae hwn yn ostyngiad sy'n llai nag y gostyngiad ar draws Cymru gyfan (1.79 y cant).[136]

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel yng ngweddill Cymru, mae'r gyfran fwyaf o siaradwyr Cymraeg ymhlith pobl rhwng 3-15 blwydd oed - Mae 25.3 y cant o'r grŵp hwn yn gallu siarad Cymraeg, ond maent ond yn ffurfio 3.88 y cant o gyfanswm y boblogaeth. Ym mhob band oedran, mae cyfran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn llai nag yng Nghymru yn ei chyfanrwydd Mae'r bwlch ar ei fwyaf yn y band oedran 3 i 15 blwydd oed, lle mae cyfran y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Cymru yn fwy gan 12 y cant o'i chymharu â chyfran Pen-y-bont ar Ogwr (37.6-25.3 y cant).[137]

Mae'n syndod, efallai, gan ystyried cyfran y boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu siarad Cymraeg, bod yr iaith Gymraeg wedi ei chrybwyll yn aml gan ymatebwyr arolygon a mynychwyr sesiynau galw heibio fel rhan o'u diffiniad o les diwylliannol a hefyd fel rhywbeth sy'n cyfrannu at eu lles diwylliannol.

Ar draws Cymru, mae 67 y cant o oedolion ('weithiau', 'fel arfer' neu 'bob amser') yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn y gwaith, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud hynny 'weithiau' er nad yw un rhan o dair yn siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn y gwaith.[138] Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, serch hynny, nad yw dros hanner (53 per cant) yn siarad Cymraeg yn y gwaith.[139]

## Hunaniaeth ddiwylliannol

**Mae cyfran uwch o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry nac y mae pobl ar draws Cymru.**


Cyfeiriwyd yn anuniongyrchol at y cysyniad o hunaniaeth ddiwylliannol gan nifer o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr pan ofynnwyd iddynt ddiffinio lles diwylliannol. Er enghraifft, soniodd bobl am 'uniaethu â diwylliant' ac 'ymdeimlad o berthyn'.

Ym mhob un o'r deng mlynedd diwethaf, mae cyfran uwch o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi ystyried eu hunain yn Gymry o'i gymharu â phoblogaeth Cymru gyfan. Yn 2015, er enghraifft, roedd 78.8 y cant o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry, 15 y cant yn fwy na Chymru gyfan.[140] Fodd bynnag, fel y mae'r graff isod yn dangos,

136 InfoBaseCymru, % y bobl 3+ sy'n gallu siarad Cymraeg.
137 Cyfrifiad ONS 2011, LC2106WA Sgiliau iaith Gymraeg yn ôl rhyw ac oedran.
138 Arolwg Defnydd o'r Iaith Gymraeg 2013-15, Tabl 1: Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn y gwaith.
139 Arolwg Defnydd o'r Iaith Gymraeg 2013-15, Tabl 1: Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr yn y gwaith, fesul awdurdod lleol.
140 InfoBaseCymru, % y bobl sy'n ystyried ei hun fel Cymry

mae'r duedd gyffredinol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru yn un o ostyngiad graddol yng nghyfran y boblogaeth sy'n ystyried eu hunain yn Gymry.

Ffigur 31 Cyfran y boblogaeth sy'n ystyried eu hunain yn Gymry, 2005-2015




*Ffynhonnell: Ymchwiliadau Miller, Seiliwyd ar InfoBase Cymru, % y bobl sy'n ystyried ei hun fel Cymry*

## Treftadaeth Ddiwylliannol

**Mae ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol a mynediad i leoedd sy'n ei dathlu yn bwysig i bobl Pen-y-bont ar Ogwr - fe ymwelodd mwy na hanner y trigolion â lle hanesyddol yng Nghymru yn ystod y deuddeng mis diwethaf.**

Soniwyd am y cysyniad o dreftadaeth ddiwylliannol yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan drigolion Pen-y-bont ar Ogwr fel elfen o les ddiwylliannol a hefyd fel rhywbeth sy'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at les personol pryd mae'n cael i'w ddathlu.

Ymwelodd trideg naw y cant o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr ag amgueddfa[141] yng Nghymru deuddeg mis cyn 2014-15,[142] yr un ffigwr â'r cyfartaledd ar draws Cymru,[143] tra ymwelodd 57 y cant o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr lle hanesyddol[144] yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod,[145] ychydig yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (59 y cant).[146]

O ran cyfleusterau lleol sydd ar gael i breswylwyr gallu archwilio a dathlu treftadaeth ddiwylliannol (yr ardal), nid oes Amgueddfa Awdurdod Lleol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond

141 Wedi ymweld ag amgueddfa; Wedi defnyddio caffi neu siop amgueddfa; wedi mynychu sgwrs a roddwyd gan guradur amgueddfa; Wedi mynychu digwyddiad neu weithdy mewn amgueddfa; Wedi ymholi amgueddfa ynglŷn â phwnc neu eitem o ddiddordeb; Wedi defnyddio amgueddfa at ddibenion ymchwil.
142 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 54: A ydych wedi ymweld ag amgueddfa yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol.
143 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 48: A ydych wedi ymweld ag amgueddfa neu fynychu digwyddiad amgueddfa yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf.
144 Parc neu ardd hanesyddol sydd ar agor i'r cyhoedd; Wedi ymweld â lle addoli hanesyddol fel ymwelydd (nid i addoli); Cofadail fel castell, caer neu adfail; Safle o ddiddordeb archeolegol (e.e fila Rhufeinig, safle claddu hynafol); safle hanesyddol/treftadaeth arall.
145 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 32: A ydych wedi ymweld ag unrhyw safle hanesyddol yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol.
146 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 26: A ydych wedi ymweld ag unrhyw un o'r safleoedd treftadaeth hyn yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf.

mae ynddo un amgueddfa annibynnol sy'n dal Gwobr Achrediad Llawn CyMAL- Amgueddfa Porthcawl.[147]

Fodd bynnag, mae yna, tu fewn i Ben-y-bont ar Ogwr:

- 15 Ardal Cadwraeth,[148]
- 359 adeiladau rhestredig, y rhan fwyaf ohonynt wedi'i rhestru o dan Gradd II (as of 2013),[149]
- 57 Cofadeilad Cofrestredig (fel o 2012),[150]
- 6 parc a gardd cofrestredig.[151]

## Mynediad i'r celfyddydau (Theatr, Cerddoriaeth, Dawns, Drama, Celfyddydau Gweledol, Gwyliau)

**Mynychodd mwy na hanner trigolion Pen-y-bont ar Ogwr ddigwyddiad celfyddydol yng Nghymru yn ystod y deuddeg mis diwethaf, ond mae trigolion am weld mwy o weithgarwch diwylliannol yn lleol.**

Cafodd fynediad i'r celfyddydau (Theatr, Llenyddiaeth, Amgueddfeydd, Sinema, Ffilm, Barddoniaeth a Hanes) i nodi gan fwy na thraean (36 y cant) o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr, ar draws y tair ardal gymunedol, pan ofynnwyd iddynt esbonio beth oedd lles diwylliannol yn golygu iddynt o'r ymgysylltiad cyntaf.

Mynychodd pumdeg wyth y cant o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr ddigwyddiad celfyddydol[152] yng Nghymru yn y deuddeg mis diwethaf,[153] yr un gyfran â Chymru gyfan (58 y cant)[154] Ar draws Cymru, y rheswm a nodwyd yn fwyaf aml (Ateb 34 y cant o ymatebwyr) dros beidio ag ymweld â digwyddiadau celfyddydol yng Nghymru oedd 'nad oedd diddordeb' gan yr ymatebydd a'r ail reswm mwyaf cyffredin a nodwyd (Ateb 28 y cant o ymatebwyr) oedd bod hi'n 'anodd dod o hyd i'r amser'.[155] Mae ymatebion o'r fath yn awgrymu bod rhaid i fynediad i'r celfyddydau bod yn fwy lleol ac â'r gallu i ymgysylltu er mwyn cyfrannu at les.

Ymysg pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr y sinema yw’r gweithgaredd mwyaf cyffredin y tu allan i’r ysgol (ar wahân i fynd i weld ffrindiau) - dywed 64 y cant o ymatebwyr Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc eu bod yn mynd i’r sinema, mwy na’r rhai sy’n dweud eu bod yn defnyddio rhwydweithio cymdeithasol (MSN, Facebook, Twitter etc.) – 59.3 y cant.[156]

Soniodd drigolion ar draws yr ardaloedd cymunedol am sinema (fforddiadwy) fel ased diwylliannol pwysig. Er gwaethaf hyn, dim ond un sinema (cyfadeiladol) sydd ym Mhen-y-

147 Adolygiad Arbenigwr o Ddarpariaeth Amgueddfeydd Lleol yng Nghymru 2015, tt. 66-68.
148 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Ardaloedd Cadwraeth.
149 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Adeiladau Rhestredig.
150 Cais rhyddid gwybodaeth, Cadw, 2012.
151 Parks and Gardens Data Services Ltd.
152 Chwarae / drama / pantomeim / sioe gerdd/ digwyddiad comedi; Opera / perfformiad cerddoriaeth glasurol / digwyddiad cerddoriaeth fyw arall; Ffilm mewn canolfan gelfyddydol / Celfyddydau stryd / gŵyl gelfyddydol (e.e cerddoriaeth, dawns, Eisteddfod); Arddangosfa neu gasgliad celf, crefft, ffotograffiaeth neu gerflun; Digwyddiad sy'n cynnwys celf fideo neu gelf electronig; Digwyddiad sy'n gysylltiedig â llyfrau neu ysgrifennu; Syrcas (heb gynnwys anifeiliaid); perfformiad dawns; celfyddydau/cerddoriaeth/digwyddiad diwylliannol eraill.
153 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 8: A ydych wedi mynychu unrhyw digwyddiad celfyddydol yng Nghymru, yn ôl awdurdod lleol.
154 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 1: Wedi ymweld ag unrhyw un o'r digwyddiadau celfyddydol hyn(1) yng Nghymru yn y 12 mis diwethaf.
155 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, Tabl 20: Y rhesymau dros beidio ag ymweld â'r math hwn o ddigwyddiad celfyddydol yng Nghymru.
156 Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr.

bont ar Ogwr, a lleolir hwn tu allan i'r dref mewn parc manwerthu (McArthurGlen Designer Outlet). McArthurGlen Designer Outlet). Hefyd, fe soniodd trigolion am lyfrgelloedd fel ased diwylliannol (a chymdeithasol) pwysig. Mae yna deg llyfrgell wedi'u lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr (Abercynffig, Betws, Pen-y-Maesteg, Bro Ogwr, Pencoed, Pontycymer, Porthcawl, y Pîl, Sarn), yn ogystal â llyfrgell symudol sy'n gwasanaethu'r gymuned ehangach.[157]

O ran theatr fyw, mae Ymddiriedolaeth Diwylliannol Awen, a sefydlwyd yn 2015, yn sefydliad elusennol sy'n anelu at wella cyfleoedd diwylliannol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a'r rhanbarth ehangach. Mae lleoliadau celfyddydol ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys Pafiliwn y Grand sydd ym Mhorthcawl, Neuadd y Dref ym Maesteg a Neuadd y Gweithwyr ym Mlaengarw. Nododd trigolion Pen-y-bont ar Ogwr ei bod yn bwysig bod digwyddiadau celfyddydol lleol yn fforddiadwy ac yn hygyrch.

## Cymuned

**Mae gan mwy nag wyth o bob deg o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr teimlad o berthyn i'r ardal leol, ond mae mwy na chwarter y trigolion yn gofidio am nad yw pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd.**

Roedd yr awydd i deimlo'n rhan o'r gymuned yn un o'r syniadau a ddefnyddiwyd yn fwyaf aml gan drigolion Pen-y-bont ar Ogwr i egluro lles diwylliannol.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, teimlodd 84 y cant o drigolion bod ganddynt ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol.[158] Mae hyn ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, sef 82 y cant.[159]Fodd bynnag, roedd cyfran lai o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr (74 y cant)[160] yn cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd na'r cyfartaledd yng Nghymru (79 y cant)[161] tra hefyd yn credu bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth (71 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr[162] i 79 y cant ar gyfer Cymru).[163]

Ymysg pobl ifanc, mae 67 y cant yn cytuno bod pobl yn cyd-dynnu'n dda yn eu cymdogaeth a dim ond 18 y cant sy'n anghytuno.[164]

Mae grŵp Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweithio i wella y teimlad hwn o gynhwysiant. Gan gwmpasu Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr, Heddlu De Cymru a Grwpiau Cymunedol 3ydd sector, ei nod yw i gryfhau cysylltiadau a datblygu cymunedau cynhwysol ymhellach.

O ran asedau cymunedol, mae 19 canolfan cymunedol ar draws Pen-y-bont ar Ogwr,[165] mae tri ohonynt yn cael eu rheoli gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen: Awel-y-Mor ym

157 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Llyfrgelloedd lleol.
158 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cydlyniant Cymunedol, Tabl 2: Y Teimlad o berthyn i'r ardal leol, yn ôl awdurdod lleol.
159 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cydlyniant Cymunedol, Tabl 1: Y Teimlad o berthyn i'r ardal leol.
160 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cydlyniant Cymunedol, Tabl 7: Mae pobl yn yr ardal leol sydd o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda, yn ôl awdurdod lleol.
161 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cydlyniant Cymunedol, Tabl 6: Mae pobl yn yr ardal leol sydd o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda.
162 Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15 Cydlyniant Cymunedol, Tabl 12: Mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth, yn ôl awdurdod lleol.
163 National Survey for Wales 2014–15 Community Cohesion, Table 11: Mae pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth.
164 Bridgend Big Youth Survey.
165 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Canolfannau cymunedol.

Mhorthcawl, Canolfan Fywyd Betws ym Metws a Chanolfan Cymunedol y Coety Uchaf yn Litchard.[166]

## Cred a Chrefydd

**Nid oes crefydd gan bron pedwar mewn deg o bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr. O'r rhai sydd yn grefyddol, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Gristnogion.**

Roedd 'cred' ymhlith y termau a ddefnyddiwyd yn amlaf gan drigolion Pen-y-bont ar Ogwr i ddisgrifio lles diwylliannol. Gostyngodd gyfran poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr a oedd yn nodi eu bod yn Gristnogol gan dros bymtheg y cant rhwng 2001 a 2011, o 70.2 y cant i 55.1 y cant. Yn yr un cyfnod, cododd nifer y bobl a nododd nad oedd ganddynt unrhyw grefydd gan bymtheg y cant, o 21.3 y cant i 36.7 y cant o'r boblogaeth. Mae'r newid hwn yn debyg i'r hyn a welwyd ar draws Cymru.[167] [168]

Mae pobl sy'n crefydda heblaw am Gristnogaeth yn cynnwys 1.2 y cant yn unig o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r gyfran hon yn llai na'r gyfran ar gyfer Cymru gyfan (2.7 y cant). Fel yng Nghymru, yr ail grefydd a grefyddir fwyaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw Islam, er bod Mwslemiaid ond yn cyfrif am 0.4 y cant o'r boblogaeth.[169]

## Chwaraeon a Gweithgareddau Awyr Agored

**Tra bod pedwar o bob deg o bobl 15 oed a hŷn yn 'dwlu ar chwaraeon' ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid yw pedwar mewn deg arall yn cymryd rhan yn aml mewn gweithgareddau chwaraeon.**

Yn 2015, roedd 41.7 y cant o bobl 15 oed a hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 'dwlu ar chwaraeon' ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos ar gyfartaledd. [170] Mae'r ffigwr hwn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 40.5 y cant, a chynnydd o 4.8 pwynt canran o 2012.[171]

| DANGOSYDD CENEDLAETHOL |
|---|
| **Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos** |
| Yn 2015, cymerodd 41.7 y cant o bobl (15 oed a hŷn) ym Mhen-y-bont ar Ogwr ran mewn chwaraeon dair gwaith neu fwy'r wythnos. Ledled Cymru, y cyfartaledd oedd 40.5 y cant. |

Fodd bynnag, ni chymerodd 40.8 y cant o bobl 15 oed a hŷn ym Mhen-y-bont ar Ogwr ran mewn gweithgaredd chwaraeon yn aml, mwy na dau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru (38.4 y cant).

Ymhlith plant ym mlynyddoedd 3 i 11 ym Mhen-y-bont ar Ogwr, cymerodd 74.3 y cant ran mewn chwaraeon allgyrsiol yn y flwyddyn ddiwethaf, o gymharu â 77.4 y cant yng Nghymru.[172] Ar yr un pryd, mae 47.3 y cant yn 'dwlu ar chwaraeon' ac yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy'r wythnos, ychydig yn is na chyfartaledd Cymru (48 y cant). Mae cyfran uwch

166 Awen Cymru, Canolfannau Cymunedol.
167 Cyfrifiad ONS 2011, QS208EW - Crefydd.
168 Cyfrifiad ONS 2001, KS007 - Crefydd.
169 Cyfrifiad ONS 2011, QS208EW - Crefydd.
170 Arolwg ar Oedolion Egnïol 2014, Tabl 2: Dwlu ar chwaraeon - Cyfartaledd y nifer o weithiau y mae pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon bob wythnos yn ôl ardal.
171 Arolwg ar Oedolion Egnïol 2012, Tabl 2: Dwlu ar chwaraeon - Cyfartaledd y nifer o weithiau y mae pobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon bob wythnos yn ôl ardal.
172 Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015, Tabl 8b: Cyfranogi a mwynhau dysgu - yn ôl ardal.

o blant sy'n fechgyn yn 'dwlu ar chwaraeon' o gymharu â phlant sy'n ferched ym Mhen-y-bont ar Ogwr - 51.2 y cant o gymharu â 43.2 y cant.

Ar gyfer disgyblion ysgol sy'n fechgyn a merched ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r gyfran sy'n 'dwlu ar chwaraeon' yn fwy ymhlith y rhai hynny ym mlynyddoedd 3 i 6 o gymharu â'r rhai hynny ym mlynyddoedd 7 i 11 ym Mhen-y-bont ar Ogwr. I'r gwrthwyneb fodd bynnag, yng Nghymru ar y cyfan, mae cyfran ychydig yn uwch o fechgyn ym mlynyddoedd 7 i 11 yn 'dwlu ar chwaraeon' o'u cymharu â'r rhai hynny ym mlynyddoedd 3 i 6. Ymhlith merched, mae'r gostyngiad yn y rhai hynny sy'n 'dwlu ar chwaraeon' rhwng grwpiau blwyddyn yn fwy o lawer ym Mhen-y-bont ar Ogwr (gostyngiad o 10.2 pwynt canran) na ledled Cymru (gostyngiad o 2 bwynt canran).[173]

Mae 58.6 y cant o ddisgyblion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn aelodau o glwb chwaraeon, cyfran ychydig yn fwy na ledled Cymru (57.3 y cant).[174]


O ran chwaraeon ac asedau gweithgareddau awyr agored, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn rheoli 104 o gyfleusterau chwaraeon awyr agored (caeau pêl-droed, rygbi, criced a chyrtiau tenis ayyb.).[175]

Y tu hwnt i chwaraeon, mae Love2Walk Pen-y-bont ar Ogwr, gŵyl gerdded flynyddol sydd wedi ei chynnal am y saith mlynedd diwethaf.[176] Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae dros 750 o hawliau tramwy cyhoeddus unigol sydd â hyd cyfunol o 584 cilomedr, gan gynnwys 81 cilomedr o lwybrau ceffylau.[177]

Ceir hefyd chwe pwll nofio cyhoeddus ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n cynnig nofio am ddim i bobl ifanc a'r rhai hynny dros 60 oed. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, fel gweddill Cymru gyfan, mae'r gyfradd o bobl dan 16 oed sy'n nofio am ddim wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. I'r gwrthwyneb, mae'r gyfradd o bobl dros 60 oed yn nofio am ddim ym Mhen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu yn ystod y deng mlynedd diwethaf (er bod y ffigwr wedi gostwng ers 2013-14), ac roedd y gyfradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2015-16 yn fwy na dwy waith cyfradd Cymru (2132 o sesiynau nofio am ddim am bob 1000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â 806).[178]

Ffigur 32 Nofio cyhoeddus am ddim am bob 1000 o'r boblogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chymru, 2004-05 i 2015-16

173 Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015, Tabl 3: Dwlu ar Chwaraeon - cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf dair gwaith yr wythnos - yn ôl ardal, grwpiau blwyddyn a rhyw.
174 Arolwg ar Chwaraeon Ysgol 2015, Tabl 16: Aelodaeth clwb chwaraeon.
175 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Parciau.
176 Love2Walk Pen-y-bont ar Ogwr.
177 Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Hawliau Tramwy a Mynediad i Gefn Gwlad.
178 Nofio am Ddim Cymru, Cyfradd nofio am ddim.




*Ffynhonnell: Ymchwil Miller yn seiliedig ar ddata Nofio am Ddim Cymru.*

## Gwirfoddoli

Yn 2015/16, bu i staff canolfan wirfoddoli Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr:

- ymateb i 1,266 o ymholiadau gan wirfoddolwyr
- cynnal 494 o gyfweliadau a pharu a lleoli 266 o wirfoddolwyr
- roedd 242 o'r rhai a gafodd eu cyfweld yn bobl ifanc yn gwirfoddoli (rhwng 14-25 oed) a lleolwyd 132 mewn rolau gwirfoddoli

Mae hyn yn cynrychioli cyfradd cyfweliad i leoliad o bron i 1 ym mhob 2, o'i gymharu a ffigyrau Cyngor Cenedlaethol Mudiadau Gwirfoddol yn Lloegr sy'n dangos cymhareb o 1 ym mhob 7.[179]

## Y Nifer a Bleidleisiodd yn yr Etholiad

**Mae cyfran y bobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bleidleisiodd mewn etholiadau'n amrywio yn ôl yr etholiad o dan sylw. Fodd bynnag, mae fel arfer yn adlewyrchu'r cyfartaledd o bobl sy'n pleidleisio ledled Cymru, ac mae wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.**

Er syndod efallai (o ystyried y cyfnod yr ymgysylltodd trigolion Pen-y-bont ar Ogwr ag ef) prin yr ystyriwyd ymgysylltiad gwleidyddol a phleidleisio mewn etholiadau gan bobl Pen-y-bont yr Ogwr i fod yn rhan o'u lles diwylliannol.

Tabl 20 Y Nifer a Bleidleisiodd yn yr Etholiad, 2010 i 2016

179 Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont.

| Blwyddyn | Etholiad | Y Nifer a Bleidleisiodd mewn Etholiad ym Mhen-y-Bont ar Ogwr (%) | Y Nifer a Bleidleisiodd mewn Etholiad yn Ogwr (%) | Cymru Y Nifer a Bleidleisiodd mewn Etholiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| 2016 | Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 45.02 | 43.39 | 46.05 |
| 2011 | Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 41.20 | 37.40 | 42.40 |
| 2015 | Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU | 66.20 | 63.90 | 66.20 |
| 2010 | Etholiad Cyffredinol Seneddol y DU | 65.68 | 62.76 | 65.45 |

*Ffynhonnell: Ymchwil Miller, yn seiliedig ar ddata'r Comisiwn Etholiadol*

Mae wardiau etholiadol Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr yn perthyn i ddwy etholaeth seneddol: Cyngor Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Sirol Ogwr. Mae Cyngor Sirol Ogwr wedi ethol Aelod Seneddol Llafur ym mhob etholiad ers ei greu ym 1918. Mae Cyngor Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, a ffurfiwyd ym 1983, wedi ethol Aelod Seneddol Llafur ers 1987.

Mae'r nifer sy'n pleidleisio yng Nghyngor Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn debyg i'r nifer a bleidleisiodd ledled Cymru ym mhedwar etholiad diwethaf y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU. Yn y ddau etholiad, roedd y nifer a bleidleisiodd yn uwch yn yr etholiad mwyaf diweddar na'r etholiad blaenorol. Mae hyn yn wir hefyd am Gyngor Sirol Ogwr, er bod y nifer a bleidleisiodd yn yr etholaeth hon yn is na ledled Cymru bob tro.

Yn Refferendwm 2016 ynghylch aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd, pleidleisiodd ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr i Adael o wahaniaeth o naw pwynt canran (Gadael 54.6 y cant yn erbyn Aros 45.4 y cant), yn seiliedig ar y nifer a bleidleisiodd o 71.2 y cant. Mae'r nifer a bleidleisiodd a'r canlyniad yn debyg i un Cymru gyfan.[180]

Mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru 2018 ar hyn o bryd yn cynnal adolygiad o etholaethau Seneddol yng Nghymru. Maer cynigion cyfredol yn ystyried y gostyngir nifer yr etholaethau yng Nghymru o 40 i 29 - y newid mwyaf arwyddocaol mewn canrif. Mae newidiadau sy'n effeithio ar wardiau Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys:

- Creu etholaeth newydd 'Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Bro Morgannwg', a ffurfiwyd o Gyngor Sirol presennol Pen-y-bont ar Ogwr yn ogystal â rhai wardiau etholiadol o Gyngor Sirol presennol Bro Morgannwg.
- Creu etholaeth newydd 'Ogwr a Phort Talbot', gan gynnwys Cyngor Sirol presennol Ogwr (ac felly wardiau etholiadol Pen-y-bont ar hyn o bryd yng Nghyngor Sirol Ogwr) yn ogystal â rhai wardiau etholiadol o Gyngor Sirol presennol Aberafan.[181]

## Tueddiadau'r Dyfodol o ran Llesiant Diwylliannol

Mae data tueddiadau hanesyddol yn awgrymu bod y gyfran o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu siarad Cymraeg yn parhau i ostwng yn y dyfodol, er bod nifer o breswylwyr yn ystyried yr iaith Gymraeg fel rhan bwysig o'u treftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth, a

180 Y Comisiwn Etholiadol, Data Etholiadol.
181 Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, Adroddiad Cynnig Cychwynnol (Medi 2016), Comisiwn Ffiniau i Gymru.

chyfran uwch o breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry o gymharu â Chymru gyfan.

Fodd bynnag, y gyfran fwyaf o breswylwyr Pen-y-bont ar Ogwr sy'n gallu siarad Cymraeg yw pobl ifanc, ac felly-pe byddai'r bobl hyn yn aros ym Mhen-y-bont ar Ogwr a bod cyfleoedd ar gael iddynt ddefnyddio eu Cymraeg-mae potensial y ceir twf yn y defnydd o'r iaith Gymraeg ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae data tueddiadau'n awgrymu y bydd gostyngiad parhaus yng nghyfran y boblogaeth sy'n ystyried bod ganddynt gredoau crefyddol, yn enwedig ymhlith Cristnogion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae'n bosibl y bydd hyn, ynghyd â newidiadau diwylliannol (ehangach) eraill, yn arwain at gymunedau traddodiadol yn chwalu a llai o bobl o bosibl yn teimlo eu bod yn 'perthyn' i'w hardal leol.

Mae'n bosibl y bydd y newidiadau arfaethedig i'r ffiniau etholaeth, os y'u gweithredir, yn effeithio ar ymgysylltiad gwleidyddol yn yr ardal trwy amharu ar berthynas bresennol trigolion Pen-y-bont ar Ogwr â'i hetholaeth. Mae hyn yn bygwth amharu ar y nifer cynyddol a oedd wedi pleidleisio ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Ogwr a Chymru yn ystod y chwe blynedd diwethaf.

## Themâu sy'n codi

### Cryfderau

- Ymwybyddiaeth gref o dreftadaeth ddiwylliannol a hunaniaeth genedlaethol
- Mae canran uchel o breswylwyr yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol
- Ymrwymiad cryf at wirfoddoli
- Argaeledd gweithgaredd diwylliannol lleol

### Heriau

- Cyfran gynyddol lai ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn gallu siarad Cymraeg
- Diogelu asedau diwylliannol a hanesyddol i feithrin ymdeimlad o falchder dinesig
- Cynnal fforddiadwyedd gweithgaredd diwylliannol lleol

## Pennod 3: Cynnydd yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dangosir isod rai enghreifftiau ansoddol a meintiol o'r cynnydd a wnaethpwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr tuag at y saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

| **Nod** | **Cynnydd a wnaethpwyd gan Ben-y-bont ar Ogwr tuag at y Nod** |
|---|---|
| Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang | Mae trigolion yn pryderu am sbwriel a dirywiad amgylcheddol, yn enwedig mewn perthynas â'r arfordir.<br><br>Yn 2014, allyrrodd trigolion Pen-y-bont ar Ogwr llai o dunelli o CO2 yn sylweddol yr unigolyn na chyfartaledd Cymru, ac mae'r cyfanswm hwn wedi gostwng yn raddol ers 2005. Yn 2011, roedd ôl-troed ecolegol trigolion Pen-y-bont ar Ogwr ychydig yn is na chyfartaledd Cymru. |
| Cymru lewyrchus | Mae diogelwch swyddi a chyllid yn broblemau i rai trigolion. Mae tlodi mewn gwaith yn her i ffyniant a lles economaidd mewn rhai achosion, gyda'r rhai hynny ar yr ymylon yn ymgymryd â swyddi portffolio neu'n teithio pellteroedd sylweddol i ddod o hyd i gyflogaeth.<br><br>Bob blwyddyn rhwng 2010 a 2015, roedd cyfran uwch o drigolion yn weithgar yn economaidd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â chyfartaledd Cymru.<br><br>Mae Incwm Gwario Gros Aelwyd y pen a Gwerth Ychwanegol Gros y pen yn is ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru, er bod y cyflog wythnosol canolrifol yn uwch. |
| Cymru wydn | Roedd gan drigolion feddwl mawr o'r amgylchedd naturiol ac yn enwedig yr arfordir, mannau gwyrdd a'r bryniau. Hoffai trigolion weld rhwydwaith o lwybrau beiciau sydd wedi eu cysylltu'n well yn yr ardal.<br><br>Anfonwyd cyfran ychydig yn llai o wastraff i'w ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio ym Mhen-y-bont ar Ogwr o gymharu â chyfartaledd Cymru yn 2015/16.<br><br>Mae Maesteg ym Mhen-y-Bont ar Ogwr yn un o'r 10 prif gymuned mewn perygl mwyaf o lifogydd gan brif afonydd yn Ardal Basn Afon Gorllewin Cymru.<br><br>Roedd 95 MW o gapasati ynni adnewyddadwy wedi ei osod ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn 2015. Mae hwn yn bedwar y cant o'r capasati a osodwyd yng Nghymru. |
| Cymru iachach | Mae nifer o bobl wedi seilio eu bywydau cymdeithasol gyda ffrindiau a theulu o amgylch cadw'n heini ac yn egnïol drwy wneud chwaraeon neu weithgaredd awyr agored ac wedi cydnabod ei werth. Gellir rhoi mwy o bwyslais ar dyfu bwyd a bwyta'n iach yn yr ardal.<br><br>Mae disgwyliad oes dynion a merched a anwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr heddiw ychydig yn fyrrach na chyfartaledd Cymru. |

| | |
|---|---|
| | Mae babanod sengl byw'n llai tebygol o fod dan bwysau ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru.<br><br>Mae cyfran y plant sy'n 4-5 oed a nodir fel bod yn rhy drwm neu'n ordew yn gostwng ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ond arhosodd yn debyg i gyfartaledd Cymru yn 2014-15.<br><br>Mae mwy na hanner yr oedolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn rhy drwm neu'n ordew, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.<br><br>Mae cyfran lai o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn adrodd eu bod yn ysmygu o gymharu â ledled Cymru.<br><br>Roedd cyfradd marwolaethau trwy hunanladdiad ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn fwy ym Mhen-y-bont ar Ogwr nag yng Nghymru bob blwyddyn ers 2009-11 i 2013-15. |
| Cymru fwy cyfartal | Mae rhai rhaniadau cymdeithasol ac economaidd llym yn amlwg o fewn Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig efallai rhwng cymunedau'r cymoedd a'r rhai hynny sy'n nes at goridor yr M4.<br><br>Mae'r rhai hynny sy'n byw mewn cymunedau mwy difreintiedig yn llai tebygol o fyw cyhyd o gymharu â'r rhai hynny sy'n byw mewn cymunedau llai difreintiedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'r bwlch mewn disgwyliad oes wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.<br><br>Roedd y bwlch cyflog rhwng dynion a merched yn llai ym Mhen-y-bont ar Ogwr na chyfartaledd Cymru. |
| Cymru o gymunedau cydlynol | Ceir enghreifftiau o gymunedau cryf, cydlynol, lle mae rhwydweithiau cymdeithasol a diwylliannol cryf yn galluogi heriau i gael eu goresgyn trwy gyd-gefnogaeth. Nid yw'r rhain yn gyffredinol, fodd bynnag, a gellid dysgu gwersi yn rhywle arall. Mae'r cymunedau mwy cydlynol yn tueddu i fodoli ym mhob pen o'r raddfa gymdeithasol; mewn pentrefi mwy ffyniannus lle mae gan drigolion yr amser a'r adnoddau i drefnu gweithgareddau a digwyddiadau a hefyd mewn cymunedau traddodiadol yn y cymoedd lle ceir traddodiad hir o gydweithio.<br><br>Mae cyfran uwch o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn teimlo ymdeimlad o berthyn i'w hardal leol o gymharu â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae cyfran lai na chyfartaledd Cymru yn cytuno bod pobl yn yr ardal leol o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda a bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth. |
| Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu | Mae'r iaith Gymraeg yn mwynhau cefnogaeth gymysg, ond mae llawer o drigolion yn teimlo bod yr iaith o dan fygythiad oherwydd diffyg màs critigol. Cafwyd rhywfaint o wrthwynebiad gan drigolion sy'n teimlo y gwthir yr iaith arnynt yn eu bywyd bob dydd.<br><br>Gallai cyfran lawer llai o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr siarad Cymraeg yn 2011 na chyfartaledd Cymru. Ar yr un pryd, fodd bynnag, mae cyfran uwch o boblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn ystyried eu hunain yn Gymry. |

| | |
|---|---|
| | Ar wahân i'r iaith Gymraeg, mae cyfran trigolion Pen-y-bont ar Ogwr sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol yn debyg i gyfartaledd Cymru, ac mae cyfran uchel o drigolion Pen-y-bont ar Ogwr yn teimlo ymdeimlad o gymuned. |

# Atodiad 1: Rhestr Termau

| Talfyriad | Ystyr |
|---|---|
| BIPABM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| ASA | Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig |
| BAVO | Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Pen-y-bont ar Ogwr | Cyngor / Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| IG | Iaith Gyntaf |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd |
| GDHI | Incwm Gwario Gros Aelwyd |
| MT | Meddyg Teulu |
| GYG | Gwerth Ychwanegol Gros |
| LCG | Lwfans Ceisio Gwaith |
| LAC | Plant sy'n Derbyn Gofal |
| LGDUW | Uned Data Llywodraeth Leol - Cymru |
| LSOA | Ardal Gynnyrch Ehangach Is |
| MSOA | Ardal Gynnyrch Ehangach Ganolig |
| NEET | Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| FfCC | Fframwaith Cymwysterau Cenedlaethol |
| SYG | Y Swyddfa Ystadegau Gwladol |
| PIP | Taliad Annibyniaeth Personol |
| BGC | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| RPB | Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol |
| SSWBA | Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 |
| DU | Y Deyrnas Unedig |
| V2C | Cymoedd i'r Arfordir |
| WBP | Partneriaeth Bae'r Gorllewin |
| WFGA | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MALlC | Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Atodiad 2: Methodoleg

Mae'r asesiad lles lleol hwn yn tynnu ar amrywiaeth o ffynonellau data meintiol ac ansoddol, fel a ragnodir gan y canllaw statudol.

## Ffynonellau Data Meintiol:

### Set Ddata Gyffredin

Cynhyrchwyd set ddata gyffredin gan Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru i gynorthwyo Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynhyrchu eu hasesiad am les lleol. Mae'r set ddata'n grwpio'r dangosyddion i mewn i themâu-Cymdeithasol, Economaidd, Diwylliannol ac Amgylcheddol-fel mae'r asesiad hwn yn ei wneud. Bwriedir fel pwynt cychwyn ar gyfer yr asesiadau,

### Ffynonellau Eraill (heb fod yn gynhwysfawr)

Mae amrywiaeth o ffynonellau eraill o ddata meintiol wedi eu hasesu a'u defnyddio i gynhyrchu'r asesiad hwn. Maent yn cynnwys data o:

- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (data'r Cyfrifiad)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Arolwg Iechyd Cymru
- Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru
- Arolwg Cenedlaethol Cymru
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Gyrfa Cymru

Roedd yr adolygiad eilaidd o lenyddiaeth a thystiolaeth yn cynnwys:

- Ymchwil ansoddol credadwy a dadansoddiad perthnasol i Les dinasyddion yr ardal; er enghraifft, gwerthusiadau, astudiaethau ethnograffig ac astudiaethau achos;
- Tystiolaeth ansoddol a gasglwyd o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth, gwerthuso gwasanaeth neu ymchwil i faterion lleol, sy'n berthnasol i Les lleol;
- Tystiolaeth ansoddol a gafwyd o arolygon ynghylch dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau sy'n berthnasol i les lleol.[182]

Nodwyd ffynonellau posibl o dystiolaeth drwy ymgynghoriad gydag arweinwyr polisi a nodwyd gan aelodau BGC a Grŵp Swyddogion Ymgysylltu Bae'r Gorllewin; yn ogystal â thystiolaeth ddogfennol arall a gasglwyd o amrywiaeth o ffynonellau a fformatau.

## Ffynonellau Data Ansoddol:

### Ymgysylltu â'r Gymuned

Roedd y dull i asesu yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys yr elfennau canlynol:

182Aralleirir y rhestr hon o dudalen 18 o Rannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol- Byrddau gwasanaethau cyhoeddus: Canllaw ynghylch y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad, ar gael o: http://gov.wales/docs/dpsp/publications/160225-spsf-5-non-stat-guidance-part-4-wfh-act-en.pdf

- Arolwg ar-lein a dderbyniodd 95 o ymatebion gan bobl sy'n byw ym Mhen-y-bont ar Ogwr;
- Chwe gweithdy gyda 26 o fynychwyr;
- Ymgynghoriad rhanddeiliaid;
- Adolygiad eilaidd o lenyddiaeth a thystiolaeth; a
- Phedwar grŵp ffocws gyda grwpiau â diddordeb penodol, ysgol uwchradd, grŵp ysgol ag anghenion dysgu ychwanegol, nam ar y clyw a'r henoed.

Amlinellir pob un o'r dulliau ymchwil hyn mewn mwy o fanylder isod.

## Arolwg Ar-lein


Derbyniodd yr arolwg ar-lein 95 o ymatebion gan bobl sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol. Dangosir yr ardaloedd cymunedol (Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr, Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr a Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr) a dosbarthiad ymatebion i'r arolwg yn ôl ardal cymunedol yn y map isod.




Dengys y map fod y nifer uchaf o ymatebwyr yn byw yn ardal Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr (40 o ymatebion) ac fe'u dilynwyd yn agos gan Ogledd Pen-y-bont ar Ogwr (32 o ymatebion). Roedd gan Orllewin Pen-y-bont ar Ogwr y nifer lleiaf o ymatebion (22 o ymatebion).

O ymatebwyr yr arolwg sy'n rhoi gwybodaeth am eu rhyw yn yr arolwg, roedd 69 y cant yn ferched a bron un rhan o dair yn wryw (31 y cant). Ffigur 33 dengys ddosbarthiad bandiau oedran o ymatebion yr arolwg gyda mwy na thrydedd ran (35 y cant) yn dod o'r band oedran 45-54 a bron chwarter (24 y cant) o'r bandiau oedran 35-44 a 55-64 yn y drefn honno. Fodd bynnag, ni nodwyd unrhyw ymatebion gan bobl 18-24 oed neu'r rhai hynny dros 75 neu hŷn.

Ffigur 33 Canran Ymatebion yr Arolwg yn ôl Band Oedran




*Ffynhonnell: Dadansoddiad ymatebion yr arolwg gan Miller Research (UK) Ltd.*

## Gweithdai

Cynhaliwyd chwe gweithdy hanner diwrnod galw heibio ledled tair ardal gymunedol Pen-y-bont ar Ogwr, gan ddenu cyfanswm o 26 o fynychwyr. Cynhaliwyd y gweithdai yn unol ag Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru. [183] Nod yr ymgynghoriad hwn oedd ymgysylltu ag amrywiaeth eang o gyfranogwyr i wybod beth oedd eu persbectif am les yn eu hardal gymunedol.[184]

Tabl 21 Grwpiau a Mynychwyr Gweithdai Pen-y-bont ar Ogwr

| **Ardal Gymunedol** | **Lleoliad y Gymuned** | **Nifer y Mynychwyr** |
|---|---|---|
| Gogledd Pen-y-bont ar Ogwr | Crypt San Mihangel | 3 |
| | Canolfan Bywyd Cwm Ogwr | 1 |
| | Neuadd y Gweithwyr Blaengarw | 0 |
| Dwyrain Pen-y-bont ar Ogwr | Neuadd Les Pencoed | 2 |
| | Canolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr | 13 |
| Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr | Pafiliwn Porthcawl | 7 |

*Ffynhonnell: Miller Research (UK) Ltd.*

Roedd y gweithdai, a strwythurwyd o gwmpas themâu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi para tua awr yr un a gofynnwyd i fynychwyr y gweithdai gwblhau holiadur demograffig byr eu hunain fel rhan o'r ymgynghoriad.  Derbyniodd pawb hefyd a fynychodd y

183 Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru [http://www.participationcymru.org.uk/media/288784/national_principles_for_public_engagement_aug1_.pdf]
184 Roedd ystod y cyfranogwyr yn cynnwys: Y Cyhoedd; Pobl hŷn; Pobl sydd angen gofal a chefnogaeth; Gofalwyr (h.y. y rhai hynny sy'n darparu gofal a chefnogaeth i deulu a ffrindiau); Dinasyddion â phroblemau iechyd, anableddau corfforol/dysgu neu awtistiaeth a chyflyrau iechyd meddwl; Dinasyddion â nam ar y synhwyrau (gyda gofalwyr/cyfieithwyr); Pobl sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010; Grŵp(grwpiau) eraill gan gynnwys: Ffermwyr ifanc (yn cynrychioli'r gymuned wledig); Tenantiaid cymdeithas tai.

gweithdy dâl cymhelliad o £10 am unrhyw gostau teithio oedd yn gysylltiedig â mynychu'r gweithdy, er mwyn sicrhau cydraddoldeb mynediad i bob dinesydd.

### Grwpiau Ffocws

Cynhaliwyd grwpiau ffocws mewn dwy ysgol (un ysgol anghenion dysgu ychwanegol ac un ysgol uwchradd) ym Mhen-y-Bont ar Ogwr; y bwriad oedd casglu barn pobl ifanc oedd rhwng 10-12 oed (ysgol gynradd) i 16 (ysgol uwchradd), gan gynnwys y rhai hynny ag anghenion addysgol arbennig a'r plant hynny sy'n derbyn gofal (LAC).

Roedd pob grŵp ffocws yn cynnwys wyth i ddeg myfyriwr unigol ac roedd yn para am tua 30 - 45 munud. Cynhaliwyd pob gwaith maes gyda sylw manwl i ganllawiau Safonau Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc,[185] gan sicrhau y dilynwyd gweithdrefnau diogelu llawn.

Cynhaliwyd dau grŵp ffocws hefyd gyda grwpiau diddordeb arbennig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, a oedd yn cynnwys y rhai â nam ar eu clyw a'r henoed. Dilynwyd fformat tebyg ar gyfer y grwpiau hyn, ond gyda chanllaw trafod diwygiedig i alinio â'u gofynion penodol.

### Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc Pen-y-bont ar Ogwr

Arolwg o blant a phobl ifanc yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr yw 'Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc' Pen-y-bont ar Ogwr, a gynhaliwyd i sefydlu beth oedd eu canfyddiad o drosedd, diogelwch cymunedol, camddefnyddio sylweddau, ieuenctid, chwaraeon a chyfleusterau eraill yn eu cymunedau. Rhoddwyd cyfle i bob plentyn a pherson ifanc ym mhob ysgol uwchradd yn y sir i gwblhau'r arolwg a chynigiwyd cymorth ychwanegol i'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Cwblhawyd yr holiadur gan bron i 3000 (cyfradd ymateb o 30 y cant).

2,800 o arolygon wedi'u cwblhau

2,554 o arolygon wedi'u cwblhau ac wedi rhoi eu cod post

2,364 o arolygon wedi'u cwblhau lle gellid nodi bod y perchennog yn byw yn CBS Pen-y-bont ar Ogwr

111 o arolygon wedi'u cwblhau lle gellid nodi bod y perchennog yn byw y tu allan i CBS Pen-y-bont ar Ogwr

79 o arolygon wedi'u cwblhau lle rhoddwyd cod post gan y perchennog na ellid ei olrhain

Roedd cyfanswm o 1,167 o godau post gwiriadwy. Grwpiwyd y codau post hyn yn ôl ardaloedd wardiau perthnasol. Mae'r tabl isod yn dangos yr ardaloedd wardiau a nifer yr arolygon a gwblhawyd ar gyfer pob un:

185 http://www.cypp.powys.gov.uk/uploads/media/Participation_Unit_presentation_bi.pdf

| Ward Area | No. Surveys | Ward Area | No. Surveys | Ward Area | No. Surveys |
|---|---|---|---|---|---|
| Aberkenfig | 16 | Coychurch Lower | 11 | Nottage | 123 |
| Bettws | 51 | Felindre | 44 | Ogmore Vale | 49 |
| Blackmill | 19 | Hendre | 52 | Oldcastle | 55 |
| Blaengarw | 40 | Litchard | 25 | Pendre | 19 |
| Brackla | 144 | Llangeinor | 23 | Penprysg | 46 |
| Bryncethin | 22 | Llangewydd/Brynhyfryd | 64 | Pen-y-fai | 32 |
| Bryncoch | 42 | Llangynwyd | 71 | Pontycymmer | 40 |
| Bryntirion/Laleston/Merthyr Mawr | 221 | Maesteg East | 47 | Porthcawl East Central | 83 |
| Caerau | 75 | Maesteg West | 67 | Porthcawl West Central | 117 |
| Cefn Cribwr | 13 | Morfa | 45 | Pyle | 153 |
| Cefn Glas | 36 | Nant-y-moel | 39 | Rest Bay | 67 |
| Coity | 18 | Newcastle | 94 | Sarn | 38 |
| Cornelly | 136 | Newton | 88 | Ynysawdre | 39 |


## Heriau Methodolegol

Cafwyd nifer o heriau methodolegol yn ystod yr Asesiad hwn.  Roedd y rhain yn cynnwys:


- Lluosogrwydd ffynonellau data meintiol – er bod hyn wedi gwella ar ôl cynhyrchu'r Set Ddata Cyffredin gan Uned Ddata Llywodraeth Leol - Cymru.
- Prinder data lefel-ardal gymunedol feintiol
- Prinder data ynghylch tueddiadau'r dyfodol - eir i'r afael â hyn gan Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol, i'w gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

# Atodiad 3: Mapiau Amgylcheddol Cyfoeth Naturiol Cymru


Map 1. Gofodau Naturiol Gwyrdd Hygyrch ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Map 2. Map tir Gweledol Synhwyraidd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Map 3. Map Gorchudd Coetir o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr





Map 4. Map Perygl Llifogydd o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Map 5. Ansawdd Dŵr ym Mhen-y-bont ar Ogwr





Map 6. Ardaloedd safleoedd dynodedig neu fywyd gwyllt arbennig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr




Map 7. Ardaloedd dynodedig o gwmpas arfordir Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



Map 8. Map mathau o bridd a dosbarthiad tir amaethyddol o Fwrdeistref Pen-y-bont ar Ogwr




Map 9. Lleoliadau Hamdden a Thwristiaeth ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr



## Atodiad 4: Ymateb i Adborth yr Ymgynghoriad

| Rydych wedi dweud wrthym … | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Gwella'r dadansoddiad o ardaloedd cymunedol | Cyn cyhoeddi dylid darparu mwy o wybodaeth a data ar lefel gymunedol i amlygu amrywiaeth yr ardal a gwella'r gallu i asesu'r pethau sy'n wahanol neu'n debyg ym Mhen-y-bont ar Ogwr<br>Gwneud mwy o ymchwil ar lefel gymunedol i wella ymhellach y cynllun llesiant | Mai 2017<br><br><br><br>Parhau |
| Gwella ymgysylltu â'r gymuned | Darparu gwell tystiolaeth o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned yn cynnwys yr Arolwg Llais Mawr Pobl Ifanc<br><br>Ymgysylltu â grwpiau lleol<br><br>Datblygu mwy o weithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, yn cynnwys y rhai ar draws y Bae Gorllewinol er mwyn cynnwys trigolion lleol wrth bennu amcanion llesiant | Mai 2017<br><br>Mai 2017<br><br>O fewn 6 mis |
| Gwella'r adran Llesiant Diwylliannol | Darparu mwy o fanylion am asedau celf, cerddoriaeth a diwylliannol a'u rôl o ran llesiant ym Mhen-y-bont ar Ogwr | Mai 2017 (cwblhawyd yn rhannol)<br>Cwblhawyd o fewn 6 mis |
| Diwygio cryfderau a heriau'r Adran Amgylchedd | Gan gynnwys:<br>• Gwella gwytnwch ein hecosystemau<br>• Annog cymunedau a gwerthfawrogi'r amgylchedd naturiol<br>• Gwella ansawdd yr aer<br>• Symud gwella canol trefi i'r Adran Economi | Mai 2017 |
| Gwella cydbwysedd yr asesiad a'i wneud yn gynhwysfawr | Cynnwys dolen i Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol:<br>• Gwell dealltwriaeth o gamddefnyddio sylweddau<br>• Dadansoddiad pellach o'r wybodaeth ar Drais yn erbyn | Mai 2017 |

| Rydych wedi dweud wrthym … | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| | merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol<br>• Cefndir pellach ar anghenion troseddwyr yn y ddalfa a'r gymuned<br>• Cynnwys cyfeiriad at yr archwiliad digonolrwydd cyfleoedd chwarae ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>• Gwneud ymchwil pellach ar lefel gymunedol i asesu effeithiau tlodi ar draws gwahanol ardaloedd a phobl | O fewn 6 mis |
| Gwella'r cyfeiriadau at iechyd meddwl, diogelu a bregusrwydd oedolion a phlant | Cynnwys dolenni i Asesiad Poblogaeth y Bae Gorllewinol | Mai 2017 |
| Darparu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer yr asesiad | Darperir trosolwg strategol fel rhan o'r cyflwyniad i'r asesiad | Mai 2017 |
| Defnyddio'r data i gyfrannu at ddisgrifiad mwy ansoddol o brif heriau a chryfderau'r ardal. | Rhoi sylw i hyn fel rhan o ddadansoddi ymatebion yn arwain at ddatblygu'r cynllun llesiant | O fewn 12 mis |
| Darparu gwell dealltwriaeth o'r berthynas rhwng y materion a nodwyd a'r saith nod llesiant cenedlaethol | Rhoi sylw i hyn fel rhan o ddadansoddi ymatebion yn arwain at ddatblygu'r cynllun llesiant | O fewn 12 mis |
| Darparu'r cyd-destun rhanbarthol | Cynnwys mwy o wybodaeth am le Pen-y-bont ar Ogwr o fewn y rhanbarth yn cynnwys dylanwad posibl Rhanbarth Bae Abertawe a Dinas Caerdydd | Mai 2017 ac yn parhau wrth i fwy o wybodaeth am Fargeinion Dinesig fod ar gael |
| Cynnwys mwy o'r effaith ar Dueddiadau'r Dyfodol | Cynnwys mwy o wybodaeth am effaith prosiectau lleol arfaethedig<br>Bydd adroddiadau Tueddiadau'r Dyfodol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru'n helpu gyda hyn | Mai 2017<br><br>O fewn 12 mis |
| Nodi'n glir beth yw'r camau nesaf | Bellach mae disgrifiad clir yn dweud sut y defnyddir yr asesiad a'r data i lywio'r broses gynllunio wedi'i gynnwys fel rhan o'r cyflwyniad i'r asesiad | Mai 2017 |

| Rydych wedi dweud wrthym … | Gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Ydi'r data yn gywir? | Gwell dealltwriaeth ynghylch pam nad yw canfyddiadau trigolion yn cyfateb i'r canfyddiadau data | Parhau |
| Gormod o ieithwedd dechnegol yn yr asesiad | Cyfyngu ar iaith dechnegol yn y Cynllun Llesiant | Mai 2018 |
| Iaith Gymraeg | Ymchwilio pan fod gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg | Parhau |
| Banciau bwyd | Cynnwys data am y defnydd o fanciau bwyd yn ôl ardaloedd cymunedol | O fewn 12 mis |
| Brexit | Ymchwilio ymhellach i effaith bosibl Brexit i gynnwys cyflogaeth a llesiant amgylcheddol | Parhau |
| Gwirfoddoli | Cynnwys Tueddiadau'r Dyfodol o ran Gwirfoddoli | O fewn 6 mis |